F-46.103
W6765f

*THE BENSON LIBRARY OF HYMNOLOGY*

Endowed by the Reverend

LOUIS FITZGERALD BENSON, D.D.

LIBRARY OF THE THEOLOGICAL SEMINARY

PRINCETON, NEW JERSEY

SCA
2152

# Ffarwel Weledig,

C173

GROESAW

# Anweledig Bethau:

NEU

## Rai HYMNAU o Fawl

I

# DDUW a'r OEN.

---

Yr AIL RAN.

---

*Gan* WILIAM WILIAMS.

---

CAERFYRDDIN,
Argraphwyd tros yr Awdwr gan J. Roſs.
1766.

# Rhagymadrodd.

Y Mae cymmaint o Hymnau wedi dyfod attom yn ddiweddar, fel y mae yn edrych yn waith diangenrhaid i argraphu rhagor; ond gwybydded y ſawl ſydd yn meddwl hyn, mae nid dynion ſydd a chanu ynddynt yw y rhai ſydd yn gweled digon a gormod o Hymnau; fel mae nid y rhai ſydd yn cael budd wrth wrando, yw y rhai ſydd yn gweled digon a gormod o bregethu; ond y rhai ſydd am ganu mawl i Dduw, ni's digonir hwynt a Chaniadau mawl, mwy nag y digonir gwir wrandawyr a gwrando; ac nid oes neb yn berchen dyſg, ſynwyr, a phrofiad, nad yw yn gwybod fod amryw ddoniau yn adeiladol. Er mae ceiſio tynnu at yr un ſylwedd, ac at yr un Athrawiaeth, mae rhan ſwya o'r Hymnau gyfanſoddwyd eiſoes; etto fel maent wedi eu gwiſgo a phrofiadau newyddion, goleuni newydd, geiriau, troell-ymadroddion, a meſurau newyddion, mae eu hamrywioldeb yn llaw'r Yſbryd tragwyddol i gyffroi teimlad o Gariad Duw. Fe fuaſai'r Bibl ei hun yn llawer llai, pe buaſai heb ddim ailadrodd ynddo, fe fuaſai ychydig chwanegiad at un o'r pedwar Efengylwr yn cyflawnu lle'r tri arall; fe fuaſai hanner y Salmau yn cyflawnu yſtyr y lleill oll; fe fuaſai hanner y Prophwydi yn gwaſnaethu; ni fuaſai raid wrth amryw Benodau o Lyfrau *Moſes*; nag chwaith amryw Fannau o'r Croniclau, a'r Brenhinoedd, oni fuaſai fod Duw am fendithio ailadrodd Gwirioneddau, ac amrywioldeb yn ei Air; rhoi ini Lîn ar Lîn, Gorchymyn ar Orchymyn,

Pregeth ar ol Pregeth, Hymn ar ol Hymn; *a ſcrifennu yr un Peth attoch*, medd yr Apoſtol, *nid yw flin gennyf fi ag ſydd ddiogel i chwithau.* Ond y trueni mwya yw fod llawer o honom yn rhyfygu cwrdd ag Arch Duw heb alwad; ac o boſibl o awydd i barch, i gael ein henwau mewn Print, yn cyſanſoddi Hymnau, heb Gorph, Enaid, Cymalau, na Mêr, heb Brofiad, nag Yſbryd, ag ſydd yn cael Argraph ar Galonnau difrifol. Nid yw gymmaint iw feio fod Dynion diddyſg, yn cymmeryd y Gwaith mewn llaw, can's mae Duw yn gwneud defnydd o'r Dynion gwaela at orchwylion mawrion yn fynych; ac nid dyſg *Deborah*, *Barac*, a *Miriam*, a'u gwnaeth hwy, na *Dafydd* chwaith a'i gwnaeth yntef y fath Fardd hynod yn Llyfr Duw, ond Yſbryd, a Zêl, Mwynhad o Dduw, a Phrofiad, ynghyd a grym hwyl nefol yn cydferwi o mewn, nes torri o'r tân allan mewn Caniadau melus a beru byth. Ond yr hyn ſydd iw feio fod yr Yſbryd hyn yn eiſiau yn amryw o'r Papurau diweddar, harddwch y Salmau yw eu Hyſbryd, eu Ffydd, a'u Profiad, heb law eu bod wedi eu rhoddi gan yr Yſbryd Glan; ac nid un o'r Nodau lleia fod Llyfr y Caniadau yn Ganonaidd, yw'r blâs mae'r Saint yn ei gael ynddo, ac o'r tu arall yr Yſbryd dieithr ſydd yn Llyfrau yr Apocripha ſydd un Dyſtiolaeth eglur na roddwyd o honynt gan yr Yſbryd Glan; ac os collir blâs ac Yſbryd o Hymnau, aent tros Fynyddoedd yr *India*, lle na chlywo *Cymro* o honynt byth mwy; mi gynghorwn yn oſtyngedig i bwy bennaf etto a ddanfon Hymnau i'r Argraph-waſg, yn 1. I mofyn am wir ras eu hunain; gwir adnabod Duw yn ei Fab, heb ba beth mae'n rhyfig ofnadwy i gwrdd ac Arch Duw; 2. Darllen yn *Saeſoneg*, os na's gallant ddarllen mewn Jeithoedd eraill bob Llyfrau o

Brydyddiaeth addas a allont gyrraedd; er mwyn helaethu eu deall, i adnabod Prydyddiaeth, pa lê mae ei thegwch hi yn gorphwys, at bwy ddiben y mae, ar amryw reolau sy'n perthyn iddi: 3. Pa un benna a'u bod neu peidio yn gallu cyrraedd y Peth olaf, etto darllenent drachefn a thrachefn, Lyfrau'r Prophwydi a'r Salmau, y Galarnad, y Caniadau, *Job*, a'r Datguddiad, y rhai sydd nid yn unig yn llawn o Ehediadau Prydyddiaeth, troell-ymadroddion, amrywioldeb, esmwythder Jaith a chyffelybiaethau bywiol, ond ag Ysbryd hefyd ag sydd yn ennyn Tân, Zel, a Bywyd yn y Darllenydd tu hwnt (am mae Llyfrau Duw ynt) i bob Llyfrau yn y Byd: 4. Peidio gwneud un Hymn fyth nes bont yn teimlo eu Heneidiau yn agos i'r Nef, tan awelon yr Ysbryd Glan, a'r Ysbryd hwnnw a fydd barod i fendithio ei Waith, *Amen.* Mae yma ychydig Fesurau newyddion, ac mi fynnaf ar ol fy addewid i roi'r Mesurau i ryw ychydig a fedro eu tynnu hwynt allan: Y mae 10 neu 12 yn ddigon o honynt tros ddeheudir *Cymru*, os bydd ewyllys iw tannu hwynt ar lled. Ffarwel.

*Eich Brawd,*

*W. W.*

HYMN

# HYMN I.

1 MAWR iawn yw gwres y tân,
Fy nwydau o bob rhyw;
Sy am ddifa oll o'i flaen,
Raſuſau pur fy Nuw;
Ond etto trech yw gallu'r Nef,
Na'i fflammau cyndeirioccaf ef.

2 Mae enw *Calfari*,
Fu gynt yn wradwydd mawr,
Yngolwg f' enaid cu,
Yn fwy na'r Nef yn awr,
O ddedwydd fryn! ſancteiddiaf le!
Dderbyniodd ddwyfol waed y Ne'.

3 Rwi'n caru'r hyfryd awr,
Mi gara'r hyfryd le,
Mi gara bren y groes,
Orweddodd arno fe;
Dyma fy Nuw, dyma fy mhen,
Ac oll a fedda'i ar y pren.

4 Ffarwel deganau'r byd,
Mae'ch blodau hyfryd iawn
Oll yn diflannu nghyd,
Ar *Galfari* brydnawn;
Mae da, mae dyn, er maint eu grym,
Yngwydd y Groes yn mynd yn ddim.

5 Na thawed tafod ſaint,
Na laeſed nefol dân,
Ond canu fyth am fraint,
*Calfaria* yn y blaen;
Aed ſwn ei glod i maes o law,
O'r *India* hyn i'r *India* draw.

# HYMN II.

1 MAE'r faner fawr ymla'n,
Ei Efengyl ef yw hon;

Mae uffern lawn o dân
Yn crynu nawr o'i bron;
Hi gwymp, hi gwymp, er maint ei grym
O flaen fy JESU 'dyw hi ddim.

2 Fe bwysa hoelion dûr.
Fe bwysa coron ddrain,
Ar goryn brenhin Nef,
Euogrwydd mwya rhai'n;
Rhyfeddod fil dewch gwelwch hyn,
Y mwya du yn fwya gwyn.

3 Caned, a welodd wawr
Yn codi o'r tw'llwch du,
Caned, a brofodd flas
Grawn Swppiau'r *Ganaân* fry,
Ni ddewn ni ddewn i *Seion* fryn,
Er maint yr holl Anialwch hyn.

4 Na lwfrhaed ein ffydd,
Mae'n ffydd fel colofn dân,
A blannodd Brenhin Nef,
I'n harwain yn y bla'n;
Mi wela'r wlad mi ga'i mwynhau,
Lle peru'm hedd heb drangc na thrai.

5 O ffynnon fawr o hedd,
O anchwiliadwy fôr,
Sy'n cynnwys ynddo ei hun
Rhyw anherfynol ftor,
Ti bia'r clod wel cymmer e',
Trwy'r Ddaear, Uffern fawr a'r Ne'.

## HYMN III.

1 O Gwrando nefol Oen,
Ruddfannau'r gwael ei lun,
Sydd tan ryw ddwfn boen,
Yn dryfu yntho ei hun;
Gelynion fil bob awr o'r dydd,
O mewn o maes ynghuro i fydd.

2 Er temptafiynau cnawd,
A holl bofiau'r byd

Llid Uffern fawr a'i gwawd,
Mewn cyngrair glos ynghyd,
Mae gwynt y Nef pan leia ei rym,
Yn gwneud eu temptafiynau'n ddim.

3 Mae nerthoedd mawr fy Nuw,
A'i nerthoedd yw ei ras,
Yn llawer trech eu rhyw,
Na'm beiau cyndyn cas,
A pheraroglau *Seion* fryn,
A'm dal i yn 'yr anial hyn.

4 Pe caent fy mhen i lawr,
A mynwes tan y don,
Gelynion cryfion hy,
A lawenhau o'u bron :
Neb ond tydi fu ar y groes,
Am dal i fynu ddydd a nos.

5 O ddedwydd wych brydnhawn,
Pan feinio 'r Nef i maes,
Trwy udgorn peraidd iawn,
Fuddugoliaethau gras ;
Telynau aur yn canu'n un,
Effeithiol goncweft Mab y Dyn.

## HYMN IV.

1 WEL bellach tyrd ymla'n,
Nag ofna f' enaid mwy,
Llai grym fy'n Uffern dân,
Na dwyfol farwol glwy —
Mae'r gwaed, mae'r gwaed a gollodd ef,
Yn uwcha ei bris o fewn i'r Nef.

2 Mae'r orfedd wen yn rhydd,
Aeth *Magdalen* ymlaen,
*Manaffeh* hefyd fydd,
Yn canu'r nefol gân,
Mi glywa'r fwn, fwn peraidd yw,
Am ddwyfol nefol waed fy Nuw.

3 Diftewch elynion mwy,
Rhowch le tua phen fy nhaith,

Chwi roiſoch i mi glwy,
  Diſymwyth lawer gwaith ?
Ymlaen, ymlaen, mae'm tryſſor drud,
Tu hwnt i derfyn eitha'r byd.

4 O fewn *Caerſalem* lân,
  Mi wela fyrdd o ſaint,
Wedi diengu mlaen,
  Tros fryniau mawr eu maint,
Dilynaf oi y dyrfa hon,
Er dŵr, a thân, a llif, a thon.

5 Pe duai'r wybr wen,
  Mi gana o hyn i maes,
Tr'o tafod yn fy mhen,
  Am effaith hyfryd ras ;
Pa ofn mwy, mae'r cwmmwl tân,
A'r niwl y nos yn ledio 'mla'n.

6 O tyred Arglwydd mawr,
  'Does yma ddim ond gwae ;
O eitha 'r Nen i lawr,
  Oni chai dy fwynhau,
Y wledd, y wledd a'm gwna i'n llon.
Yw cael dy weld y funud hon.

## HYMN V.

1 MI wela draw o bell,
  Baradwys hardd ei gwedd,
A phrennau lawer gwell,
  Yn peraroglu hedd ;
O hyfryd wlad! tu draw bob gwae,
Gwynfyd ga'i heddyw dy fwynhau.

2 Mae'r byd ac uffern fawr,
  A nghalon gas yn un
Yn ceiſio 'm ſugno i lawr,
  Yn hollol atto ei hun ;
Fy Nuw, fy Nuw ſy'n dal y gwan,
Rho nerth i'm henaid ddringo i'r lan.

3 Fe laeſa'r ſtorom fawr,
  Fe laeſa'r awel gref,

Pan delo gair i lawr,
O'i ſanctaidd enau ef;
Duw yw efe os ef a bair,
Cwymp Nef ac Uffern at ei air,

4 Bwyſtfilod rheipus iawn,
Sy'n bwyta'r egin gwan,
O foreu hyd brydnhawn,
Yn rhwyſtro'm gras i'r lan;
I'r lan mi ddof i'r gwledydd draw,
Mae'm JESU yn maflyd yn fy llaw.

5 Meluſach ty fy Nhad,
Ar ol y ſtorom gre'
Pa fwya croeſau ga'd,
Mae'n hawſach gado tre',
O hyfryd weld! fydd yn y man,
Pob bryn a ddringais i i'r lan.

## HYMN VI.

1 JESU, JESU rwyt ti'n ddigon,
Rwyt ti'n llawer fwy na'r byd,
Mwy tryſorau ſy'n dy enw,
Na thryſorau'r *India* gid,
Oll yn gyfan, &c.
Ddaeth i'm meddiant gyda 'm Duw.

2 Y mae gwedd dy wyneb graſol,
Yn rhagori lawer jawn,
Ar bob peth a welodd llygad,
Ar hyd wyneb daear lawn;
Rhoſyn *Saron*, &c.
Ti yw tegwch Nef y Nef.

3 Tarian gadarn yw dy enw,
Pan bo'r gelyn yn neſau,
Angau ei hunan ſydd yn ofni,
Angau ſydd yn llwfrhau,
Ti goncweraiſt, &c.
'Does ond canu nawr i mi.

4 Nis gall fy enaid er ei gyrraedd,
Fyth i geiſio cyrraedd mwy;

Nag ſydd wedi ei roi ynghadw,
Yn y dwyfol farwol glwy,
Cariad, cariad, &c.
Nad oes dyfnder iddo'n bod.

5 Dyma'r beger gyfoethogwyd,
A'r carcharwr wnaed yn rhydd,
Ddoe oedd yn y pydew obry,
Heddyw yma'n canu'n rhydd,
Nid oes genni, &c.
Ddim ond diolch tra fw'i byw.

## HYMN VII.

1 JESU gwyddoſt fy nghyſtuddiau
Rwyt ti 'n rhifo bob yr un,
Pob rhyw wradwydd pob rhyw groeſau,
Ti dioddefaiſt hwynt dy hun,
Dal fi fynu, &c.
Man bo meichiau i fwya trwm.

2 Ti fy ARGLWYDD a'm cenhedlaiſt,
Gwaith dy fyſedd wyf ei gid,
Pob gwthien fach, pob aſgwrn,
Rifwyd yn dy arfaeth ddrud,
Cod fi fynu. &c.
Nid wy'n abl heboſt ddim.

3 Cofia'th boenau ar *Galfaria*,
Cofia i ti gario'r groes,
Cofia gur yr hoelion llymion,
Cofia'th chwerw angau loes,
Rho immi heddwch, &c.
Rho immi Nefoedd er eu mwyn.

4 Er dy fod di heddyw'n eiſtedd,
Yng ogoniant Nef y Nef,
Mewn goleuni mor ddiſgleiried,
Na ellir neſu atto ef,
Rwyt ti'n edrych, &c.
Ar dy anwylaf yn y byd.

5 Dyma'th gariad, dyma'th briod,
Heddyw yn gryddfan o dy flaen;

Tros

Tros ein henaid y dioddefaist,
Boenau megis Uffern dân,
Ti yw'r cwbl, &c.
Heddyw feddwn yn y byd.

## HYMN VIII.

1 DAtcuddiwyd dirgelion i maes,
Dirgelion cuddiedig i'r byd,
Meddyliau trugaredd a gras,
I'r penna bechadur ei gid;
A glow'd mewn addewid sydd gref,
Na welir fyth fythoedd eu hail,
O ddyfnder y ddaear i'r Nef,
Mor gywir mor sicr ei sail.

2 Fe'm boddwyd mewn syndod yn lan,
Wrth chwilio ei natur hwy ma's
'Does Angel, na Seraph a gân,
Am ddyfnder anorphen ei ras:
Pwy bwysa ei ddioddefaint ar bren,
Pwy bwysa lawn haeddiant ei loes,
Tr'o tafod yn chwareu 'n fy mhen,
Mi gana am goncwest ei groes.

3 'R anrhydedd a'r gallu a'r clod,
Y moliant a'r parch yn gytun,
O'r Nefoedd i'r Ddaear gaiff bod,
Yn gyfan i'm Harglwydd ei hun:
Aed swn dy farwolaeth i maes
O'r Dwyrain luosog i'r De',
Helaethed terfynau dy ras,
Mor belled ag cyrraedd y Ne.

4 Aed ein *Haleluias* ni i'r lan,
Trwy 'r awyr anfeidrol ei maint,
Cymysged caniadau rhai gwan,
A thyrfa luosog o Saint,
Ni gawiom gant gymmaint a'r byd,
Gant cymmaint drachefn a hyn,
Gant cymmaint a'r Nefoedd ei gid,
Brydnhawn-gwaith ar *Galfaria* fryn.

HYMN

# HYMN IX.

1 ENnynaist ynw'i dân,
Berffeithiaf dan y Nef,
Nas gall y moroedd mawr,
I ddiffodd mo hono ef,
Mae'th lais, mae'th wedd, mae gweld dy waed,
Yn troi ngelynion tan fy nhraed.

2 Mae caru Mhrynwr mawr,
Mae edrych ar ei wedd,
Y plefer mwya nawr,
Sy gael tu yma i'r bedd,
O gariad rhad, o gariad drud,
Sydd fil o weithiau'n fwy na'r byd.

3 Wel dyma'r gwrthddrych cun,
A thyma'r awr a'r lle,
Cyffegra i fy hun,
Yn gyfan iddo fe,
Ffarwel ffarwel bob eulun mwy,
Mae cariad JESU'n drech na hwy.

4 Er cymmaint ydyw grym,
Teganau maith y byd,
Parodrwydd Satan faith,
Eu galw hwynt ynghyd,
Ond llawer mwy nag fedd y Nef,
Sy o bleffer yn ei gwmp'ni ef.

# HYMN X.

1 ARGLWYDD dere a'r newyddion,
Sydd yn gweithio llawenhau,
Ac aed heibio'r Nofwaith dywyll,
O ochneidio a thriftau;
I mi'n glir, weld y tir,
Brynwyd trwy ddioddefaint gwir.

2 Gad i'm henaid landio yno,
Y mae'r tonnau'n fawr ei grym,
Ac ni all fy enaid ofnus,
Ddala eu pwyfau anferth ddim,

Dy angau drud trwy'n y byd,
Fydd fy nghyſur oll ei gid.

3 O na welwn goppa'r bryniau,
Lle mae fy anwyl i yn byw,
Rwyf yn caru'r gwynt ſy'n hedeg,
Tros fy *Ngbanaan* hyfryd wiw,
'Fedd y llawr, ddim yn awr,
Leinw lle fy ARGLWYDD mawr.

4 Mae pleſerau o bob rhywiau,
Yn rhy brin i lanw'r man,
Gymrodd Tywyſog mawr y bywyd,
Er ei enw iddo'n rhan ;
Da a dyn yn gytun,
Mae E'n ganmil mwy ei hun.

5 Wyneb dyn ſydd yn ſalwino,
Ynfyd yw a gar ei wedd,
Aur ac Arian ſydd yn treulio,
Enw lyngcir yn y bedd ;
Peru fe, Tywyſog Ne',
Pan y collo'r ſer eu lle.

## Yr Ail Ran.

1 RWYF fi heddyw'n teimlo undeb,
A rhai ſydd yn lludw mân,
Mwy na rhai wy'n weld yn hedeg,
Ar adenydd rhwyſg ymla'n,
Yr un wedd yn y bedd,
Ca'i fod gyda hwynt mewn hedd.

2 Foru daw yr oriau i'm galw,
Foru rhaid i'm cnawd leſgau,
Foru rhaid i'm gras enynnu,
Ac i'm hegwan ffydd gryfhau ;
F' enaid cân, tyr d ymla'n,
Gad dy hen drigſannau'n lan.

3 Tros ryw ddyddiau byrr dibleſer,
Des i'r ddaear i gael lle,
Dyddiau i'm temptio a'm haddfedu,
I drigſannau pur y Ne'.

Gwyn.

Gwynfyd ddaw, maes o law
Ar y bryniau'r ochr draw.

4 Daccw gariad fel yr afon,
Daccw heddwch fel y llif,
Wedi'm mrodyr gael ei feddu,
Brodyr anwyl fwy na rhif;
Gyda hwy caiff fod mwy
F' enaid heb na briw na chlwy.

5 Angau bellach gwna dy waetha,
Nid yw'th ddychryniadau ddim,
Mwy o hedd fy 'mhen *Calfaria*,
Nag fydd yn dy faethau o rym,
Mi af trwy farwol glwy,
'N erbyn tonnau mawrion mwy.

## HYMN XI.

1 HEddyw yw'r dydd rw'i 'n ofni fyrthio,
Diau heddyw yw efe,
Etto fefyll 'rwyf er gwanned,
Trwy awdurdod mawr y Ne';
Rwyf yn credu, &c.
'Raf tan ofni i ben fy nhaith.

2 Nid oes ond fy nghnawd yn ofni,
Fy yfpryd fydd yn cadw ei le,
Ac ni fynn e' golli ei afael,
Ar addewid brenhin Ne';
Gair dy enau, &c.
Bair i'm fefyll tra fo chwyth.

3 Y mae yn y gair lefaraift,
Fwy o fywyd fwy o ras,
Nag fy o rym yn Uffern dywyll,
A'i byddincedd cyfrwys cas:
Dywed filafft, &c.
Dyna'r Nef yn cario'r dydd.

4 Mi ddifgwiliaf doed y ddelo,
Deued borau, deued nôs,
Deued corwynt, deued temeftl,
Nes cael teimlo gwaed y gro's.

Gweld

Gweld dy glwyfau, &c.
Yw'r ddedwyddaf awr i mi.

5 Hyn yw'm Nefoedd hyn yw'm hawddfyd,
Yn nhemeſtloedd oer y byd,
Caf fi nal ſynd tros y bryniau
Stormus, weld dy wyneb-pryd;
Fe a heibio, &c.
Swn y demeſtl a'r gwynt.

## HYMN XII.

1 DAccw Uffern yn ei harfau,
Dyma bechod yn ei rym,
Dymma fy ofnau innau'n bwgwth,
Na allai eu congcwero ddim,
Gallu'r Nefoedd, &c.
Tyrd i wared dyma'r awr.

2 Dadrus rwydau ſydd heb riſo,
Wedi eu tannu draw o mla'n,
Llosg pob gefyn ſy'n fy rhwymo,
A dy ddwyfol nefol dân;
Gwna i garcharwr, &c.
Heddyw gael ei draed yn rhydd.

3 Dyſg y galon driſt i chwerthyn,
Dyſg y mudan ſeinio cân,
Dyſg yr ofnus gwan i glydo,
Uffern fawr i lawr o'i flaen,
Dod wylofain, &c.
Yn ganiadau *Calſari*.

4 O na roi'r winwydden hyfryd,
Beth o'i ffrwythau i lawenhau,
Enaid flinodd gan ochneidio,
Enaid flinodd gan driſtau;
Deued bellach, &c.
Deued blodau, deued hâf.

5 Llais y dyrtur deu'd i lonni,
Rhai na chas ond gaia erioed:
Mi yr hwn ag ſydd yn methu,
Cael fy meiau tan fy nhroed;

Attal

Attal Arglwydd, &c.
Attal angau nes cael gweled dydd.

6 Pe cawn gredu i ti farw,
A diodde yn fy lle,
Ac i ti bwrcafu trigfan,
I fy Enaid yn y Ne',
Byth ni phwyfwn, &c.
Faint fy ngofid, faint fy ngwae.

## HYMN XIII.

1 DYma'r pechod fydd yn gwafcu,
Hwn fy'n curo fy enaid gwan,
Hwn fy'n rhwymo'm traed a'm dwylo,
Yn fy rhwyftro i ddringo i'r lan;
Dim nis dac.as, &c.
Ond galluoedd mawr y Ne'.

2 Weithiau mae e'n ennyn gofid,
Weithiau mae e'n mynd a mryd,
Weithau'n clydo fy meddyliau,
Atto ei hun yn gryno 'nghyd;
Minnau 'n difgwyl, &c.
Weld y boreu o ryddhad.

3 Difgwyl y deheu-wynt tawel,
Awel beraidd o'th fwynhau,
Weithiau difgwyl gwynt y gogledd,
Argyhoeddiad am fy mai,
Cant ryw hiraeth, &c.
Sy arnai am gyfnewid lle.

4 Dyna'r man dymunwn drigo,
Wrth afonydd gloywion llawn,
Sydd yn llifo o ddwr y bywyd,
O las foreu hyd brydnhawn,
Lle cawn yfed, &c.
Hyfryd gariad fyth a hedd.

5 Lle cawn weld yr hwn wy 'n garu,
'Rhwn fu farw ar y groes
A myfyrio ar ei gariad,
Yn dioddef angau loes;

A chael gorphwys, &c.
Draw ymhell o dwrf fy mhla.

6 Yno cawn goncwero ofn,
Ag anadliad pur y Ne';
Yno cawn goncwero angau,
A'i hen golyn gydag e',
Tyred amser, &c.
Tyred bellach mae 'n brydnhawn.

## HYMN XIV.

1 A Heibio'r tywyll Nos,
Fe ffy cymylau'r nen;
Fe ddaw'r addewid wir,
A'i geiriau pur i ben ;
Cair gweld, cair gweld yr hyfryd dir,
Ar fyrr o dro yn oleu clir

2 Mae'r oriau maith eu rhif,
Yn dirwyn yn y bla'n,
Er bod nofweithiau yn hir,
O'r diwedd darfod wnan ;
Cymylau'r nen er maint eu grym,
O flaen y wawr ni fafant ddim.

3 Pan tywynno arnai'r dydd,
Mi wed'yn garia'r gro's,
Ac oedd yn gwafgu lawr,
Yn llwythog ganol nos ;
Mi neidia tros y ffoefydd maith,
Ond cael dy gwmpni ar fy nhaith.

4 'Dyw profedigaeth ddim,
'Dyw'r holl gyftuddiau ond gwan,
I guro hwnnw lawr
A ddaliech ti i'r lan,
Mae nerth dy ras yn fwy na'r byd,
A'r myrdd o ddrygau fy ynddo gid.

5 Ni attal dim o'r môr,
A'i donnau cedyrn cry
Rhag mynd i ben ei daith,
Yr hwn gynhaliech ti ;

'Dyw'r moroedd maith, 'dyw *Pharo* ddim,
Iw ei gydmaru a dy rym.

## HYMN XV.

1 FE gân 'tifeddion Gras,
Yn beraidd maes o law,
Wrth weld yn boddi'r *Aipht*
A hwythau'r ochr draw,
Fy enaid hed i ben y bryn,
I weld y concweſt rhyfedd hyn.

2 Yn uchel fry ar fryn,
Rhwng daear gron a Nef,
Holl rwyſg *Gehenna* fawr,
A'i grym orchfygodd ef;
Tan hoelion dur, goddefodd glwy,
Pa ſut ymffroſtia uffern mwy.

3 Wel daccw'r ffordd yn rhydd,
Agorwyd hi o bob tu!
O ddyfnder daear las
I uwchder Nefoedd fry;
O dring, o dring fy enaid mwy!
Mae nerth iw gael mewn dwyfol glwy.

4 Wel deuwn yn y blaen,
Fe gwympodd ofnau mawr,
Ar y gelynion hy,
Oedd am ein cael ni lawr:
Fe gawd y dydd mi glywa'r nen
Yn canu'r concweſt, ar y pren.

## HYMN XVI.

1 NI chefais i yma erioed,
Ond gwaetha cnawd a byd,
O mewn o maes bob awr,
Yn curo arnai ynghyd;
Mi ffo, mi ffo, ryw ddydd i'r lan,
Cair gweld fod concweſt gan y gwan.

2 Mi flinais gan fy chwant,
Mae fy ferchiadau i'n bwn,
Rwy 'n gryddfan bron o hyd,
O tan yr archoll hwn;
O doed yr awr, na bo yn fy mryd
Ond caru Mhrynwr mawr o hyd.

3 Wel dere foreu ddydd,
Diwrnod gorau yn fyw,
Ac na bo genni ddim,
Iw garu ond fy Nuw;
Efe a'i groes, efe a'i wae,
Wna i'm henaid egwan lawenhau.

4 Mae ei groes e'n well na'r gwin,
Mae'r hoelion fel y mel,
Mi ymbortha ar y rhai'n,
A doed hi fel y del;
Mae mwy o wledd ar groes fy Nuw,
Nag allwn draethu tra fo'm byw.

5 Caned brenhinoedd gwych,
Am rwyfg a gallu'r byd;
A chaned *Indian* fyth,
Am aur a pherlau drud,
Fy enaid i bob dydd bob nos,
A gân i'r hwn fu ar y groe's.

## HYMN XVII.

1 NIS gall dyfgedigion doetha,
Er i'nt gyrraedd fry i'r Ne'.
Chwilio troion fer yr wybr,
Gweld eu maint a gweld eu lle,
Fyth i bwyfo, &c.
Gwerthfawrogrwydd gwaed dy groes.

2 Nis gall dyfg, ac nis gall doniau,
Weld y pechod drwg ei ryw,
Pwyfo ei haeddiant maith a'i fefur,
O flaen gorfedd bur fy Nuw;
Ar *Galfaria*, &c.
Gwela i e'n ei liw a'i lun.

 3 Pechod

3 Pechod yma, cariad accw,
Fu yno yn y glorian fawr,
Ac er trymmed oedd y pechod,
Cariad bwyfodd hyd y llawr,
Nawr gorphennwyd, &c.
Wnaeth i'r glorian bwyfig droi.

4 Haeddiant Duwdod a'i gydmaru,
Yn erbyn uffern fawr o'i bron,
Dafan gwaed fy'n gan mil rhagor,
Nag aflendid dudew hon;
Gwradwyddiadau, &c.
Duw ry iawn am feiau'r byd.

5 Fe ddiftewa myrdd o ellyllon,
Fe ddiftewa'r ddeddf o'r bron,
Fe ddiftewa pur gyfiawnder,
Sy'n ymddial cweril hon;
Cyntaf enwir, &c.
Sillaf prin am waed y groes.

## HYMN XVIII.

1 DAccw gariad, daccw bechod,
Heddyw'ch dau ar bren y bryn,
Hwn fy'n gryf, hwn accw'n gadarn,
Pwy ennilla'r ymgyrch hyn?
Cariad, cariad, &c.
Welai'n berffaith gario'r dydd.

2 Dringaf fynu i'r olewydd,
I gael gweled maint fy mai,
Nid oes arall is yr wybren,
Fan iw weled fel y mae;
Anwyl fy enaid, &c.
Yno yn chwyfu dafnau gwaed.

3 Gweld yr hwn fu yn prynu im' bardwn,
Prynu pardwn maith y byd,
Gweld ei wallt a gweld ei wifgoedd,
Gweld ei ruddiau yn waed eu gid,
Fe fy mhechod, &c.
Yrrodd allan ddwyfol waed.

4 Pechod greodd ynddo'r poenau,
Pechod roddodd arno'r pwn ;
Pechod barodd iddo ochain,
Fy unig haeddiant i oedd hwn ;
O na welwn, &c.
Forau ſyth na phechwn mwy.

5 Profed hwnnw nad yw'n medru,
Caru Prynwr mawr y byd,
Beth o'r dw'r a'r gwaed a liſodd,
Gyda'r biccell fawr ei hyd ;
Hwn ſy'n magu, &c.
Fflammau o gariad heb ddim trai.

6 Cariad oll i mi oedd yno,
Chwer'der ydoedd i ſy Nuw,
Lle dioddefodd un diwrnod,
Boenau o amrywiol ryw ;
O'r winwydden, &c.
Gwaſgwyd pechod i mi yn win.

## HYMN XIX.

1 FY meddyliau i ſydd yn hedeg,
Weithiau i'r Dwyrain weithiau i'r De,
Treulio'm dyddiau gwerthfawr goreu,
Bob munudyn oddi'tre ;
Lleng nol lleng olynol ganlyn,
Ynwi o feddyliau gau,
Heddyw yn newid, ddoe yn dryſu,
Ddoe a heddyw yn parhau.

2 Bryniau mawr uwch pwys o wagedd,
Am un meddwl nefol pur,
Mwy yw'r *Aipht* o flaen ſy ngolwg,
Nag yw'r *Canaan* nefol bur ;
O amſeroedd tyred bellach,
Coded haul a gwawried dydd,
I'r cadwynau pres a haiarn,
Sy am ſy enaid ſynd yn rhydd.

3 Nid yw'm ffydd ac nid yw'm cariad,
Os ynt gadwedigol ras,

 Ond

Ond y mymryn lleia welwyd,
Yn ſath lu o lygredd cas ;
Etto mae o fewn dy allu,
I roi'th ddelw arnai nawr,
A daroſtwng mewn munudyn,
F'anwireddau i oll i lawr.

4 Prin rwi arnat yn ochneidio,
Gan cyn drymmed yw fy mai,
Pe cawn gyfoeth maith yr *India*,
Fyth ni allwn lawenhau :
Etto traid i ti ond munud,
Munud i'm concwero bair,
Mae crediniaeth wedi ei gwneuthur,
Gyntaf bryd lleſaroſt air.

5 Ti ſcrifenaiſt gynt ar gerrig,
Ddeddſau cywir ſanctaidd pur,
Nid anhawſach it' ſcrifennu,
Etto nawr ar galon ddur ;
Os buoſt farw tros un ffiaidd
Aflan, Arglwydd, fel myfi,
O nad immi fod yn ddierth,
I raſuſau'r Nefoedd fry.

6 Rho i mi heddwch fel yr afon,
Rho faddeuant fel y mor,
Rho im' ronyn bach o brofi,
Nawr o'th anorchſygol ſtor ;
Na bwi'n newynu yn yr anial,
Lle nad oes na dw'r na gwin,
Ond cael teimlo'r pur gawodydd,
Ac addewaiſt ti dy hun.

## H Y M N XX.

1 PWY ſy'n abal ſy anwylyd,
Rhiſo'th boenau mawr o'i bron ?
Pun a'i dail y coed gydmara,
Neu ynteu'r glaſwellt ſy ar y don ?
Mae'th ryddfannau, &c.
Yn fwy nag allant bwyſo'r byd.

2 Seren ddaeth i gyfarwyddo,
Attat rai o eitha'r byd,
Ac mae ser y nef hyd heddyw
Yn dangos dy allu mawr ynghyd;
Mi fy hunan, &c.
Sydd yn ddiffrwyth a difudd.

3 O na byddai oriau'm bywyd,
Yn ymborthi ar oriau'th boen,
Fel y gallwyf fi gyd-redeg,
A chystuddiau'r addfwyn Oen;
Fe ga'i 'mhechod, &c.
Felly yn fuan golli'r dydd.

4 Felly cawn gan f' enaid ddilyn,
Ei ofidiau hyfryd ef,
Fel mae goleu'r dydd yn cadw
Cwmpni disglair haul y nef;
'Chai'm gorddiwes, &c.
Gwmmwl du na thywyll nos.

5 Fel bo'r dorf ddirif o feiau,
Wybod hyn yn ddi neccad,
Ymha glwyf ac ymha ofid,
Ymha archoll mae'm iachad,
Fel y gallwyf, &c.
Heb hir oedi fod yn lân.

## HYMN XXI.

1 O Na b'ai cystuddiau f' Arglwydd,
Yn fy nghalon i gael lle,
Pob rhyw loes a phob rhyw ddolur,
Pob rhyw fflangell gafodd e';
Fel b'ai mhechod, &c.
Ildio'r dydd a mynd i maes.

2 Ti dy hunan yno'n frenhin,
Ti dy hunan yno'n Dduw,
Dy eiriau dy hunan yno'n uwcha,
Dy eiriau gwerthfawroccaf ryw;
Ti wnai felly, &c.
Bydew du yn deml lân.

3 Yno

3 Yno gwna dy drigfan hyfryd,
Trigfan croeshoeliedig Oen,
Ac na chilia maes oddiyno,
Tra fo ana'l yn fy ffroen ;
Rhag i'm pechod, &c.
Ffiaidd geifio d'od yn ol.]

4 O fcrifenna'n eglur, eglur,
Mewn llythrennau llawn eu gid,
Bob rhyw fillaf bach o'th gyfraith,
Ar fy mynwes yma 'nghyd ;
Fel na anghofiwyf, &c.
Fyth dy eiriau mawr eu pris.

5 Gwaed fcrifennodd ar y croesbren,
Gariad nerthol dwyfol rhad,
Ni fcrifennir ar fy nghalon
Fyth dy eiriau ond a gwaed,
Dyma'r fcrifen. &c.
Beru yn hwy nag paro'r byd.

## HYMN XXII.

1 MI feddyliais cawn i f' Arglwydd,
Ynghwmpeini mawrion byd,
Ymhlith mwrddwyr, ymhlith lladron,
Gwelais gynta ei wynebpryd ;
Ar y croesbren, &c,
Nid yn llys brenhinoedd byd.

2 Daccw lofrydd ar ei affwy,
Daccw leidr ar ei dde'
Draw fe hoeliwyd yn y canol,
Frenhin daear frenhin Ne',
Mi appelia, &c
At yr orfedd ar y groes.

3 Nid rhaid efgyn fry i'r nefoedd,
Y mae'r nefoedd ar y pren ;
Fe ddaeth mynydd hen *Galfaria*,
Nawr ers dyddiau'n un a'r nen ;
Daeth *Moriah*, &c.
Nawr yn yfgol fownd i'r Nef,

4 Dring

4 Dring fy enaid i'th orphwysfa,
Y mae'r nefoedd wrth dy glŷn,
'Rhwn a greodd haul a lleuad,
Nawr a wisgodd natur dyn;
Edrych arno, &c.
Credu ydyw pen y daith.

## HYMN XXIII.

1 WEL f'enaid hed ymlaen o hyd,
Ymhell, ymhell o war y byd,
I'r gwledydd sydd heb wae na phoen,
Ond canu Cariad addfwyn Oen,
Canu, canu, canu, canu,
Canu cariad addfwyn Oen.

2 Lle'r eiste'r Seintiau yn gytun,
Tan eu gwinwydden ber eu hun;
A'r melus-win yn ffrydio lawr,
Yn llonni eu hyspryd bob yr awr.
Llonni, &c.

3 Y manna o'u cylch, y manna o'u blaen,
Mor wynned a'r Coriander mân;
A dw'r o'r graig i gael bob pryd,
Fy Jesu ydyw y rhai'n eu gid,
Jesu, &c.

4 O wleddoedd hyfryd eu mwynhad,
Mor hyfryd eilwaith eu parhad;
Gwleddoedd na ŵyr y byd eu dawn,
Gaiff lonni'm henaid foreu a nawn,
Llonni, &c.

5 Ffowch holl bleserau'r byd i maes,
Rhowch le i'effeithiol fywiol ras;
Mae'r dydd yn d'od pan cai fwynhau,
Fy anwyl anwyl i barhau,
Anwyl, &c.

## HYMN XXIV.

1 MAE'r ffordd yn awr yn rhydd,
O'r ddaer i entrych ne',

Er

Er pan y daeth fy Nuw,
I ddiodde yn fy lle;
Mae'r Nef, mae'r Nef o led y pen,
Cans hi ddioddefodd ar y pren.

2 Wel bellach ffown i maes,
Edrychwn yn y blaen,
Mae golwg hyll yn ol,
*Sodoma* ſydd ar dân;
Ymlaen, ymlaen i'r creigydd byw,
Y *Soar* fach lle mae fy Nuw.

3 Yn y mynyddau hyn,
Cai roi fy mhen i lawr;
A gorphwys byth yn iach,
Oddiwrth y ſtorom fawr,
Ni all dw'r na than i gloddio'm ſail,
Er curo arnai bob yn ail.

4 Daeth y llinynnau i mi,
A rhan ddedwydda o'r wlad,
Lle rwi'n cael weithiau weld,
Wynebpryd hedd fy Nhâd;
Fe ddaeth y Nef i mi ynghyd,
A'i thlyſau gwerthfawrocca eu gid.

## HYMN XXV.

1 BOed bryn y groes boed *Calſari*,
Yn uwch na'r bryniau mwya eu bri,
Am mae yma collwyd gwaed fy Nuw,
Ac yma rhedodd cariad pur,
Yn afon ddifrycheulyd glir,
I'm golchi 'r ffiaidd, dua ei liw.

2 Na boed i'm feddwl ddydd na nos,
Ond cariad perffaith angau'r groes,
Hwn alwai mwy yn orſedd gras,
Ar *Galſari* mae maingc y Ne',
Yn agos at ei groesbren e',
Oddiyno rhoddir hedd i ma's.

3 Beth bellach wna i a'r anial fyd.
Sydd yn demeſtloedd trwyddo gid.

Bwyſtfilod

Bwyſtfilod rheipus ynddo o'r bron,
Mae genni fil hyfrydach lle,
Mae'm Jesu eiſioes ynddo fe,
Ond rhoi ffarwel i'r ddaear hon.

4 Dwi'n ofni ond yr afon ddu,
Sy rhyngwi a fy ngartre fry,
Yr angau glas wnaeth myrdd yn wan,
Fy enaid mafel yno yn llaw,
Yr hwn ei hun aeth trwyddi draw,
Ac yn ei law mi ddof i'r lan.

## HYMN XXVI.

1 MI wela fyrdd yr ochr draw,
O rai maflaſant yn ei law,
Yn canu heddyw yn beraidd iawn,
Mae ofnau yn darfod yn y wlad,
Lle mae fy Nuw lle mae fy nhad,
Ac yn eu lle llawenydd llawn.

2 O hyfryd ddedwydd nefol le,
Gwynfyd bob rhai ſydd yntho fe,
Y ddinas ddiſglair nefol glir,
Y man na fu, y man nad oes,
Na phoen, nag ing, na gwae, na loes,
Ond heddwch llawn a chariad pur.

3 A thyma'r wlad y ffy pob gradd,
O'r ofnau mawrion ſy am fy lladd,
'Ddaw aeth, nag arſwyd yno ddim,
Y gelynion ſy yma yn y byd,
A rwymir y pryd hynny 'nghyd,
Er maint eu rhwyſg er maint eu grym.

4 'Ddaw anghrediniaeth cadarn cry,
Fyth, fyth o'i fewn i'r *Ganaan* fry.
Na chariad chwerw câs y byd,
A miloedd mwy gyndeiriog râdd,
Sydd yn yr anial bron fy llâdd,
Yn ſcubau rwymir yno nghyd.

HYMN

# HYMN XXVII.

1 NID o'r ddaear mae fy mhleser,
Nid o'r ddaear mae fy ngrym;
Nid o'r ddaear mae'm llawenydd,
Tlawd w'i yma feddai ddim:
Draw'r *Jorddonen*, &c.
Mae fy nghyfoeth a fy ngwlad.

2 Nef yw meddiant yr Angylion,
Daear ydyw meddiant dyn;
Ond fe ddarfu'm ffydd i wneuthur,
Nef a daear fawr yn un:
'Rwyf yn claimio, &c.
Hawl i oll fydd gan fy Nuw.

3 Mae fy Enaid yn ehedeg,
Ac yn dringo fynu frŷ;
Mae fy esgyrn yn ymdrwsio
I lechu yn y ddaear ddu:
Mi ddo'n gryno, &c.
Etto 'nghyd ryw ddydd a ddaw.

4 Cnawd yw'm fylwedd, 'dyw ond falw,
Hardd yw'r wisg fy arno'n bod;
Honno wnaeth Tywyfog Bywyd,
Pan yr hongiodd ar y co'd:
Fil o weithiau, &c.
Werthfawroccach na *Pheru*.

# HYMN XXVIII.

1 PAN bwi'n profi pleser yma,
Buan rhaid im' godi mhen;
Nid oes le i mi 'mddifyrru,
Wrth un pleser îs y nen:
Mi gaf ar fyrder, &c.
Yfed hedd heb ddiwedd mwy.

2 Mae 'mhleserau i nawr yn ddwbl,
Yma beth, ac yno fwy;
Mae'm cystuddiau aml eilwaith,
Oll yn gonglog megis hwy:
Ond fe â heibio, &c.
Ryw bryd gwppan chwerw'r Groes.

3 Fe

3 Fe ddaw'm gwarr i etto yn union,
Heddyw ſy'n ymgrymmu lawr,
Byd, ac angau yn cludo arnaf,
'R un diwrnod feichiau mawr:
Yn lle gruddſan, &c.
Mi gaf ganu maes o law.

4 Dere hyfryd forau tawel,
Dere happus ddedwydd ddydd;
Pan bo'r dorau prês i agor,
A'r carcharon ſynd yn rhydd:
Rho arwyddion, &c.
I fod hynny yn agoſau.

## HYMN. XXIX.

1 MAE dydd at ddydd yn d'od i ben,
A'm taith drafferthus îs y nen,
Fe ddirwyn amſer at y nod,
Ac yno 'mhechod fe gaiff friw.
A thyna'r pryd conewera'm Duw
Bob rhyw ffieidd dra ynwi erio'd.

2 O ddedwydd nefol hyfryd awr,
Ca'i roddi meichiau trwm i lawr,
Ac ſy'n fy mlino i foreu a nawn;
A mynd i wlad lle nad oes bai,
Ond cariad perffaith i barhau,
Llawenydd pur a heddwch llawn.

3 'Rwi bron a gorfoleddu nawr,
Wrth feddwl daw fy meiau lawr,
A bod y dydd yn agoſau;
Dydd o orphwysfa berffaith yw,
I'r neb ſy'n blino ei guro'n friw,
Gan nerth trachwantau a phob gwae.

4 Wel dere ddedwydd hyfryd ddydd!
Rho fy ngadwynau tynn yn rhydd,
Gad imi brofi'r hyfryd wledd,
Lladd angrhediniaeth ſydd yn awr,
Yn curo f' enaid bach i lawr,
Ac ymaith tynn holl ofnau'r bedd.

## HYMN XXX.

1 DAU ryw aiaf maith, a chwerw,
Drefnodd f' Arglwydd imi yn un,
Temeſt' oer yn fy meddyliau,
Ac oddi-allan yn gytun;
Dwy farwolaeth, &c.
Drefnodd gras imi fynd trwy.

2 Etto fy nghyſtuddiau mawrion,
Sydd yn feddiginiaeth lym,
Ac fe fedr gras i wneuthur
Croeſau hyll yn ganu im':
Mwya nghroeſau, &c.
Mwya ryw bryd fydd fy nghân.

3 Rwyfi ar y ce'nſor garw,
'N mentro edrych drwodd draw,
Ac o gefn y don yn canfod,
Tir y Bywyd pell gerllaw:
Mewn addewid, &c.
'Rwyf mor agos at y wlad.

4 Mae fy nghred wedi'm afaelu,
Yn y ſtorom am y tir;
Y mae'r ce'nfor hyll mewn undeb,
Heddyw a'r *Baradwys* bur:
Dewch yn eon, &c.
Tir y Bywyd daccw fe.

## HYMN XXXI.

1 FEL y rhed llifogydd mawrion,
Fel anadla'r awel gref,
Bydded felly fy ochneidiau,
I dderchafu tua'r Nef;
Gwn na's gellit attal rhagof,
Gwn na's gellit roi neccâd,
O un fendith îs y Nefoedd,
Ag fydd imi er jachâd.

2 Mae temeſtloedd er daioni,
Er eu bod yn gweithio braw,
Magu dychryn cas, ac ofnau,
Ofni ſy, ác ofni ddaw;
Galw beiau pell i'r golwg,
Rhwymo pechod ſyrdd ynghyd;
Coſio henaint, coſio je'nctyd,
Etto bendith ynt eu gid.

3 Mae rhyw ſtormydd mewn naturiaeth,
Ca's goreuon byd y rhai'n;
Caſodd ſeintiau, a merthyron,
Caſodd Jesu goron ddrain;
Mae cydwybod mewn ymderfyſg,
Mae yſbrydoedd ſo mewn poen
Wedi chwilio gylch o gwmpas,
Yn lleteua ynglwyfau'r Oen.

4 Uffern yn ſy enaid euog
Sydd er bod y fflam yn gry,
Yn ſy nghyrru at borth y Bywyd
Trwy'r cymylau dua ſy;
Tân y pydew a'm dihunodd,
Tawch y ffwrn gyndeiriog gref,
Wnaeth i'm henaid yn y ſtorom,
Ymafaelu'n llyn a'r Nef.

5 Yno mae e' nawr yn curo,
Yno mae e'n pledio yn hy,
Ac ni's goſteg hyd ni's caffo,
Ei dderbyn gan yr orſedd fry;
Ac ſel pura'r ſtormydd mawrion,
Drygau yn yr awyr lâs,
Felly holl gyſtuddiau'm bywyd,
Chwerwon meithion bura'n gras.

## HYMN XXXII.

1 BETH yw'r achos bod ſy Arglwydd,
Hawddgar graſol yn pellhau,
Neu yn guddiedig, neu yn gyhoedd,
Mae rhyw bechod yn parhau,

Tyr'd yn awr, torr i lawr,
Fy anwiredd fach a mawr.

2 Gallai f'Arglwydd yw fy'm hatteb,
Gallu ei hunan ydyw ef;
Cariad ni's gall ballu hefyd,
Pe bawn geisio ganddo'r nef;
Ond fy mai fy'n parhau,
Hynny fy'n chwanegu'm gwae.

3 Chwilia f'Enaid gyrrau'th galon,
Chwilia'r llwybrau maith o'u bron,
Chwilia bob rhyw ftafell ddirgel,
Sydd o fewn i gonglau hon;
Mynn i maes, bob peth câs,
Sydd yn attal nefol ras.

4 'Nawr rwi'n gweld y mae'n ehedeg,
Mewn i'm calon ac i maes,
Fil o bethau fydd wrthwyneb,
I egwyddor dwyfol ras;
Uffern lid, ynt eu gid,
Sydd yn erbyn f'Enaid dryd.

5 Dyma ryfig yn ei allu,
Daccw anghrediniaeth mawr,
Bob yn ail yn curo f'enaid
Yn cyttuno 'ngael i lawr;
Dal fi i'r lan, 'dwyf ond gwan,
Mi gaf goncweft yn y man.

6 'Rwyf yn ffeindio mil o elynion,
Yn fy mynwes yn parhau,
Oll am lethu f'enaid euog,
Bob yn un, a phob yn ddau,
Nid oes dim, ond dy rym,
All bod yn gynhorthwy im'.

## HYMN XXXIII.

1 O Bob tryforau tan y Nef,
Y penna yw ei heddwch ef;
Ei fath ni fedd yr *India* fawr,

Yn unig hwn am ceidw'n hy,
Yn erbyn gelynion mwya cry,
Na chaffont byth mo mhen i lawr.

2 Heb ofni dim mi deithia 'mla'n,
Tros rofydd rhew, a bryniau tân,
Tan gyfgod cryf dy nefol hedd,
Y gwyntoedd cyndeiriocca eu rhyw,
A'r demeft' gryfa erioed yn fyw,
Ni'm hattal fynd i'th nefol wlêdd.

3 O gariad uwcha fu erioed!
Neu fry o warr, neu îs y rhod;
Blaen ffrwyth o'r gwleddoedd nefol pur;
Ni cheifia i byth trw'y tan y Ne',
Ond teimlo ei awel hyfryd e',
Digonir fi yn y nefol dir.

4 O dewch ymlaen yn ddineccâd,
Mi glywa fwn caniadau'r wlad,
Peth o'r gorfoledd, peth o'r clod;
Difyrrwch ynghwmpeini'm Duw,
Nad oes o tan y fer yn byw,
Adnabu am ei fath erioed.

## HYMN XXXIV.

1 O Dyma ddyfais fwya i ma's,
Y fwya ei chariad, fwya ei gràs,
Agorodd ffordd, o'r ddaer i'r Nêf,
Cariad heb gymmar iddo'r un,
A nofiodd yn ei waed ei hun,
Trwy angau oedd ei gariad ef.

2 Fe gonc'rodd trwy angheuol glwy,
O elynion creulon nerthol fwy,
Nag all'fai byd i goncro yn un:
Fe faeddodd Uffern ehang lawn,
Ar ben *Calfaria* un prydnhawn,
Yn lân heb neb ond ef ei hun.

3 'Doed bellach *Indiaid* pella'r byd,
'Doed *Gogledd*, *Dwyrain*, *De'* ynghyd,

2 'Rwi'n profi mod i'n myn'd mewn hwyl,
Tu a'r man mae'r ſaint yn cadw gwyl;
Mae ar fy enaid ſyched mawr,
Am wledda gyd â hwy bob awr.

3 'Rwi'n credu 'nawr ca'i ras i fyw,
A gwneud pob peth er clod i'm Duw;
A chwedi gorphen hyn o daith,
Ca'i foli e'n nhragwyddoldeb maith.

4 Dewch greaduriaid o bob rhyw,
Trwy'r ddae'r a'r nef rhowch glod i'm Duw;
Gan's mewn cyfyngder bu im' yn dda,
Rhof iddo glod heb orphwys, gwna.

---

## HYMN XL.

*Dymuniad y Saint.*

1 PE cawn adenydd borau wawr,
Ehedeg wnawn dros foroedd mawr
Nes bawn yngolwg *Seion* wiw,
Lle mae fy Mhriod innau'n byw.

2 Pe cawn ond teimlo'r awel gref,
Aeth ag *Elias* gynt i'r nef;
Gadewn yn ol fy ngwiſg o gnawd,
Ac *Eliſeus* f'anwyla frawd.

3 Pe cawn fel *Iago* yſgol gref,
Gyrhaeddai o'r ddae'r i entrych nef
Dringo a wnawn o'r byd i ma's,
Heb orphwys liw ar garreg lâs.

4 Gwynfyd gai rodio gyd â Duw,
Fel *Enoch* ffyddlon, tra fw'i byw;
Ehedeg wnawn o'r byd i ma's,
Heb ofni briw yr angau glâs.

5 Yn *Peniel* 'rwyt, fy enaid clyw,
Ymdrecha yn dêg ag angel Duw,
Pwy ŵyr nas cai cyn codi'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr.

## HYMN XLI.

*Hiraeth am y Nefoedd.*

1 DRAW 'r wlad,
O'r lle 'rwi'n difgwyl llwyr ryddhad,
O law'm gelynion mawr eu brad;
Trwy rinwedd gwaed fy IESU gwiw:
'Does gelyn mwy a ddaw i'r lan,
I'r hyfryd fan ar fyr cai fyw.

2 Y llen,
Sydd rhyngwi 'nawr â'r nefoedd wen,
A rwyga NUW o'r ddae'r i'r nen,
I'r wlad uwch ben fe'm harwain ef,
Caf ddringo i'm gorphwysfa fraf,
Sy'm monwes Naf o fewn i'r nef.

3 A byw,
Gai'n dawel fry heb boen na briw,
A'm cynnes nyth ynghoel fy NUW,
Lle mae pob rhyw ddiddanwch llawn;
Yn rhydd i'r llwch mi ro'wn fy nghnawd,
Fyn'd at fy Mrawd, yn awr pe cawn.

4 Mor fawr,
Yw'r fyched f' ar fy enaid 'nawr,
Am wel'd dy wedd o hyfryd wawr,
Boreuddyd tragwyddoldeb pur;
'Madewn yn rhŷdd â châr a ffrynd,
I mi gael mynd i'r nefol dir.

## HYHN XLII.

1 COR. i. 30.

*Sanctëiddrwydd im' yw'r Oen dinam,*
*'Nghyfiawnder, a'm Doethineb,*
*Fy Mhrynedigaeth o bob pla,*
*Fy* NUW *i Dragwyddoldeb.*

CRIST, *Doethineb y Saint.*

1 FE 'm gwnaeth i weld fy hun yn ddall,
Yn fab i'r fall wenwynig;

Ac

Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy mraint,
A'm noddfa lawn yw ef.
*A'm noddfa lawn yw ef.*

3 Fe'm denodd i yn ddirgel iawn,
A distaw ar ei ol;
Ac mewn afonydd dyfnion llawn
Fe'm cymrodd yn ei go'l.
*Fe'm cymrodd, &c.*

4 Na foed fy mywyd bellach mwy,
Yn eiddo im' fy hun;
Ond treulier fy munudau gid,
Yn glod i'm Harglwydd cun.
*Yn glod i'm, &c.*

5 A gad i'm brofi'th nefol hedd
Ymhob anadliad pur;
Ac felly mynd o'r byd i'r bedd,
Mewn hûn nefolaidd wir.
*Mewn hun, &c.*

6 Pe cawn bob munud dy fwynhau,
Mwynhad o'th gariad bair,
I'm fod yn fodlon mado a'r byd,
Yn union wrth dy air.
*Yn union, &c.*

## HYMN XXXVIII. *Ar yr un Don.*

1 PAN byddo f'Arglwydd imi'n rhoi
Ond golwg arno ei hun,
Mae oll a weler tan yr haul,
Yn ddiddim wrth ei glŷn.
*Yn ddiddim, &c.*

2 Mae ardderchawgrwydd, rhwysg a grym,
Y ddaear fawr ei gid,
Wrth deimlo'r gronyn lleia o'th hedd,
Oll yn diflannu nghyd.
*Oll yn, &c.*

3 A gwellt yw'r bobl oll o'u bron,
A gwywo mae eu dawn;

Ac

Ac nid oes tegwch a barhâ,
Ond yn sy Jesu'n llawn.
*Ond yn, &c.*

4 Mi ro fy ymddiried ynddo ef,
Mae'n noddfa lawn i'r gwan;
Ac er y curo sy arnai lawr,
Fe g'od fy mhen i'r lan.
*Fe g'od, &c.*

## HYMN XXXIX. *Yr un Don.*

1 NI feddai ar y ddaear fawr,
Ni feddai yn y Ne',
Neb ag a beru yn anwyl im',
Yn unig ond efe.
*Yn unig, &c.*

2 Mae ynddo ei hunan drysor mwy,
Nag fedd yr *India* lawn;
Fe brynodd imi fwy na'r byd,
Ar groesbren un prydnhawn.
*Ar groesbren, &c.*

3 Fe brynodd imi auraidd wisg,
Trwy ddiodde marwol glwy,
A'i angau fe a guddia'm gwarth
I dragwyddoldeb mwy.
*I dragwyddoldeb, &c.*

4 O na allwn rodio er ei glod,
Ac iddo bellach fyw,
A phob anadliad fynd i maes
I ganmawl gras fy Nuw.
*I ganmawl, &c.*

## HYMN XL.

1 AC er bod draw afonydd mawr,
Holl ofnau angeu loes,
Mi â trwyddynt er eu grym, a'u maint,
Tan gysgod gwaed y groes.
*Tan gysgod, &c.*

2 Mi glywa lais merthyron lu,
A ſeintiau yn y bla'n ;
Nawr wedi cyrrhaedd pen y daith,
Er gwaetha dw'r a thân.
*Er gwaetha, &c.*

3 Fy Enaid diangc tua'r lan,
Na ofna'r drygau hyn ;
A chadw dy olwg yn y blaen,
Yn union at y bryn.
*Yn union, &c.*

4 Mi 'drycha ar y croesbren trwm,
Fu ar ei yſgwydd e' ;
A'r goron ddrain fu ar ei ben
Pan brynodd imi'r Ne'.
*Pan brynodd, &c.*

5 Mae'n eiriol heddyw o flaen y faingc
Yn cofio ei boen a'i wa'd :
Ac wedi gwneud tragwyddol hedd,
'N awr rhyngof fi a'm Tâd.
*'N awr rhyngof, &c.*

## HYMN XLI.

1 FY meiau aml mawr eu grym,
Yw ſail fy ofnau i nghyd :
Ond gweld fy Nuw yn diodde loes,
A'u concra hwynt eu gid.
*A'u concra, &c.*

2 Galluoedd Uffern fawr o'u bron,
A'u nerthoedd mwya croes,
Sydd fyrdd o weithiau yn rhŷ wan,
I wrthſefyll dwyfol loes.
*I wrth ſefyll, &c.*

3 Diſgwiliaf wrth y ddedwydd awr,
Mae'r oriau yn d'od ymlaen ;
Pan byddo angau'r groes i ladd,
Fy meiau i fawr a mân.
*Fy meiau, &c.*

4 Trech yw un gair o enau'm Duw,
Na'r pechod cryfa erioed ;
Pan dwedo'r gair, fe gwymp fy mai,
Yn chwilfriw tan fy nhroed.
*Yn chwilfriw, &c.*

5 Am hyn mi arhoſaf wrth ei faingc,
Mi ymgrymmaf wrth ei draed;
Ac fyth ni phledia i yno ddim,
Ond iddo golli ei waed.
*Ond iddo, &c.*

## HYMN XLII.

*Ar y Don elwir* Aldrich.

1 O Cymmer fy ſerchiadau i'n glau,
Fy Jesu bob yr un ;
A gwna hwy yn eiſteddfod bûr,
*A gwna hwy yn eiſteddfod bur,*
Sanĉteiddiaf it' dy hun.
*Sanĉteiddiaf it' dy hun.*

2 A gwna bob meddwl, a phob chwant,
I dynnu fynu fry ;
Na's gwthio holl derfyſgau'r byd,
*Na's gwthio holl derfyſgau'r byd,*
Fi maes o'th gariad cu.
*Fi maes o'th gariad cu.*

3 Gorchymmyn imi yno fynd,
Yno mi af yn hy ;
Heb flino ar un gair a ddel,
*Heb flino ar un gair a ddel.*
O'th enau ſanĉtaidd cu.
*O'th enau ſanĉtaidd cu.*

4 A doed deniadau'r byd yn lli',
O'r *Dwyrain* faith a'r *De'*,
Ni thry fy ſerch i fyth ynol,
*Ni thry fy ſerch i fyth ynol,*
Er neb o ganol Ne',
*Er neb o ganol Ne'.*

5 Rwi'n

Dadſeinient gân trwy'r nef a'r llawr,
Am ei fawr ryfeddodau.

2 Rhai ſel yn feirw fu yn hir,
Mewn tywyll dir yn trigo;
Yn griddfan dro heb lewyrch gras,
I dd'od i maes oddi yno.

3 Mewn pydew dwfn du hwy gaed,
Yn rhwym eu traed a'u dwylo;
Dan bwer Satan fore a hwyr,
Nes cael eu llwyr anrheithio.

4 Fel cadarn wedi yfed gwin,
Yngwaſg ei glyn â'i gleddau;
Daeth tirion Frenhin nef o'i blâs,
I rwygo teyrnas angau.

5 Trôdd Iesu maes yr arfog cry',
O'r neuadd bu'n llettya;
Y carcharorion ddaeth o'u pla,
O canent *Aleluia.*

---

## HYMN XLVIII. *Y Drydedd RAN.*

Adn. 3, 4. *Ac a gaſglodd efe o'r tiroedd, &c.*

1 Y Rhai a gaſglodd Duw ynghyd,
O eitha'r byd a'i gyrrau;
O dir y dwyrain mewn mawr hedd,
Gorllewin, gogledd, dehau.

2 Rhai o bob man, rhai o bob iaith,
Cenhedloedd maith ac achau;
Yn ddoeth, yn ffol, fe dygodd Duw,
'Nghyd o bob rhyw gyflyrau.

3 Trwy yr anialwch wyr-draws hynt,
Y buont gynt yn c'rwydro;
Allan o'r ffordd, heb dref na llan,
Lle caent hwy fan i drigo.

4 Digyſur iawn flynyddau hir,
Mewn cras dir anghynefin;

Bob pryd mewn ofn mawr a braw,
  Rhag cwympo 'n llaw eu gelyn.

5 Yn 'mofyn am yr hyfryd wlad,
  Tir *Gilead*, yr hen *Eden*;
A'u tyb o hyd eu bod gerllaw,
  Yr ochr draw 'r *Iorddonen.*

6 Mewn ofn mawr dan *Sinai* lym,
  Demheſtlog heb ddim heddwch;
Tarth, tân a mwg, echrydus bla,
  Sain udgórn a thywyllwch.

---

## HYMN XLIX. *Y Bedwaredd RAN.*

Adn. 5, 6, 7. *Yn newynog ac yn ſychedig*, &c.

1 MEWN newyn mawr, a ſyched tyn,
  A'u henaid yn llewygu;
Oll i anobaith ymron mynd,
  Heb ganddynt ffrynd i'w helpu.

2 Yn yfed dyfroedd llwyd o'r llyn,
  Yng ngwreſog ddyffryn *Baca*;
Yn gorfod yfed, nid o'u bodd,
  O chwerwon ddyfroedd *Mara.*

3 Gwaeddaſant ar yr Arglwydd nef,
  Yn eu cyfyngder enbyd;
Am gael eu dwyn cyn dyddiau hir,
  I mewn i dir 'r addewid.

4 Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
  O'u holl orthrymgaeth foddion;
'Rhyd yr iawn ffordd fe'u dug mewn hedd,
  I dref gyfannedd dirion.

5 Goſtegodd d'ranau *Sinai* draw,
  Yr yſpryd braw a'r ofnau,
Daeth â hwy i *Seion* dêg i fyw,
  At Iesu gwiw a'i glwyfau.

# HYMN XLV. Ar yr un Feſur.

1 MAE gofid yma yn cadw ei le,
'Does ſan i ymguddio rhagddo fe;
Fe chwilia maes bob twll o'r bron
Sydd yn fy nghalon ddyrus hon;
Ac yna yn ddirgel gwna ei nyth,
I'm blino i yn feunyddiol fyth;
Nid oes, fy Jeſu, ond dy Ras,
All taflu ngofid oll i maes.

2 Pan del fy Nuw i ben a'i awr,
I roi cyſtuddiau i mhwyſo i lawr;
Rhaid i ergydion pur y Ne
I gadw eu pryd, a chadw eu lle:
Nis rhowd i'm lladd ond i gael byw,
Mi a innau trwyddynt yn fy Nuw,
Tros byth caiff gennyf gân ddi goll,
Am iddo 'm dwyn i trwyddynt oll.

3 Mae'n perthyn immi bob rhyw bla,
O'r pridd y des, i'r pridd yr â;
Fe yrr cyſtuddiau maith ryw bryd,
Fy enaid lleſc i maes o'r byd:
Ac mi gaf ymhob chwerw loes,
I weld yr hwn fu ar y groes;
A chael cydymaith ymhob man,
A ddeil fy yſbryd lleſc i'r lan.

4 Fy enaid tua 'r nefoedd hed,
A thann dy galon yno ar lled;
A doed cyſtuddiau mewn yn lli,
Mi a'u tafla i dy fynwes di,
'Does unrhyw ofid, unrhyw boen,
Na waſcodd ar yr addfwyn Oen;
Ac yn oſyd ef a'i gri
Mae holl eſmwythder fy enaid i.

5 Mi wn mae'm beiau duon dryd
Yw 'r achos o'm cyſtuddiau gid,
Symmud fy mai, fe gwymp y ffon,
O'th ſanctaidd Law y funud hon;

'Does

'Does yn dy galon ond llefhad,
Maddeuant, Hedd, a gwir Jachad ;
Cymmer dy ffordd, ynot yr wyf
Yn credu 'nawr, jacha fy nghlwyf.

## HYMN XLVI. Ar Fefur *Calfari*

1 LLawn o ofyd, llawn o wae,
A llawn o euogrwydd du,
Byth y byddaf yn parhau
Heb gael dy gwmpni cu ;
Golwg unwaith ar dy wedd
A'm cod i'r lan o'r pydew mawr ;
O fy Nuw na oeda 'n hwy,
Rho 'r olwg immi nawr.

2 Gwel y truan, gwel y tlawd,
Yn gorwedd wrth dy draed ;
O *Samariad* bydd yn frawd,
Adfera im' jachad :
Dyro olew yn fy mriw,
A chod fi ar dy anifail cun,
Ac nis gall fyth fyth i fy nwyn,
Ond dy allu di dy hun.

3 Mofyn am orphwysfa glyd,
Heb gwrdd a ftormydd mwy ;
Lloches nid oes yn y byd
At hyn ond yn dy glwy :
Tro fy ngolwg at y fan,
Y llaefa fy ofnau i oll a mraw,
Fyth na ddychrynwi weld
Y borau ddydd a ddaw.

4 Jefu anwyl dos o'm blaen,
Mae ofnau o bob tu ;
Llid weld eiddil gwan yn mynd,
O'r Byd i'r Nefoedd fry,
Bydd yn nerth, a bydd yn Dŵr ;
Rhag pob rhyw drallod ddel i'm cwrdd
Yn nyfnderoedd tân a dw'r,
Nad y tân a'r dw'r i'm cwrdd.

## HYMN XLVII. Ar yr un Fesur.

1 PWy all nabod faint fy mai?
Pwy rifa 'm hofnau gid?
Fyth ni ddeil mo ddynol fraich,
Un radd o ddwyfol lid:
Brysia fy Nuw, brysia yn glau,
Neidia tros bob bryn, bob nant:
Dim ond gweld dy wyneb llon
A yrr fy ofnau i bant.

2 Collais y *Baradwys* wiw,
A'm nerth at oll fydd dda;
Llawn wyf heddyw, gŵyr fy Nuw,
O bob uffernol bla:
At y Nef appelio rwyf,
Cans yno mae fy ngrym o'i fron;
Ac ar Fynydd *Calfari*
Mae dechreu'm taith i hon.

3 Dyrus daith, a mi fydd wan,
A bryniau maith o'm blaen;
Mi frawychais lawer gwaith
Rhag grym y fflammau tân;
Mae 'r *Jorddonen* heddyw yn fawr,
Os gwir ddychymy f' enaid gwan;
Dere Arglwydd iddi lawr,
Ac yno dof i'r lan.

## HYMN XLVIII.

1 RWyt ti nabod oll fy Nuw,
Mae nghanol anial rwyf yn byw,
Sydd lawn o ofyd, lawn o wae;
Rhyw brofedigaeth fawr gerllaw,
Yr ochr hyn a'r ochr draw,
Yn peri 'm hofnau i barhau.

2 Mae Satan gyfrwys lawn o lid
Yn chwareu yn ddewr o blaid y byd,
A'm cnawd gwrthnyfig yn gytun;

Pob

Pob un yn ffyddlon yn ei ryw,
I lawn wrthsefyll gras fy Nuw,
A choncro 'r Nefoedd faith ei hun.

3 Am hynny daeth yr oriau i ben,
Pan taro 'n rhaid fy o blaid y nen,
A chredu gyda dwyfol Ras;
Galluog iawn yw geiriau 'r Nef,
'Does neb ddiddyfna ei feddwl ef,
A'i air fydd fiwr o gario 'r maes.

3 Am hynny f' enaid dos ymlaen,
'Does ar dy ffordd na dw'r na thân,
Nac unrhyw rwyftr nad a'i trwy:
Mae gwedd yr hwn fydd o dy dŷ,
Yn ddychryn i'r uffernol lu,
Fe ddarfu am eu hofni mwy.

4 Wel Arglwydd arwain fi 'n dy law,
A doed bryd del yr hyn a ddaw,
Rwyt ti dy hun yn fwy na 'r Byd;
Yn fwy na'r holl uffernol lu,
A'r drygau yn fy nghanlyn fy,
Pe byddent i gytuno nghyd.

## HYMN XLXI.

1 WEl f' enaid dos ymlaen,
'Dyw 'r bryniau fydd gerllaw,
Un gronyn uwch, un gronyn mwy,
Na hwy a gwrddaift draw;
Dy anghrediniaeth caeth,
A'th ofnau maith eu rhi,
Sy 'n peri it' feddwl rhwyftrau ddaw,
Yn fwy na rhwyftrau fu.

2 'R un nerth fydd yn fy Nuw,
A'r un yw geiriau 'r Nef;
'R un ras a'r un ffyddlondeb fy
'N gartrefu ynddo ef,
Fy ngwendid o bob math,
A'm Llygredigaeth cry,
Ddiffoddant er eu natur gas,
Hyd fyth mo'r gras fy fry.

3 Mi wela fyrdd tan ſel
Fu yn ofni fel fy hun,
Nawr wedi dringo 'r creigydd ſerth
Eu gid, trwy nerth yr un;
Yn canu 'r ochr draw,
Heb arnynt fraw na phoen,
Ganiadau hyfryd *Calſari*,
Dioddefaint addfwyn Oen.

4 'Does modd im' fynd ymlaen,
Heibio bob Gelyn llym,
On' fyddi di yn niwl a thân,
Yn gledd a tharian im',
A rhwygo 'r mor yn ddau,
Palmenta 'r tywod mân,
Ac yna ei gaead ar fy ol
I rwyſtro *Pharaoh* ymla'n.

5 Mi ddihanga ar yr *Aipht*
Fel yma wrth dy glŷn,
Ac mi ro 'r clod, ac mi ro'r mawl
Yn gyfan it' dy hun:
Ynghyd a'r dyrſa faith
O'r dyfroedd ddaeth i'r lan;
Cawn ſeinio Anthem bur ynghyd
Yn hyfryd yn y man.

## HYMN L.

1 RWi'n ofni 'm nerth yn ddim,
Pan elwi i rym y don,
Mae terfyſc yma cyn ei dd'od,
A ſyndod tan fy mron;
Mae ofnau o bob rhyw
Oll fel y Diluw nghyd,
Yn bygwth i fy nhorri lawr,
Pan del eu hawr ryw bryd.

2 A minnau ſydd am ffoi,
Neu ynteu droi yn ol,
Yn methu credu ſaif i'r lan
Un truan gwan a ffol;

Ac

Ac etto rwyf o hyd
Yn ſymmud peth ymlaen,
Nid fi yw 'r cyntaf eiddil wr
Goncwerodd dw'r a thân.

3 Rwi yn terfynu nghred
Nol pwyſo oll ynghyd,
Mae cyfnewidiol ydyw Dyn,
Ond Duw ſydd un o hyd :
Ar ei ffyddlondeb ef
Sy 'n Noddfa gref i'r gwan,
Mi greda doi mhen gronyn bach
O'r tonnau 'n jach i'r lan.

4 Cyfiawnder marwol glwy,
A haeddiant dwyfol Loes ;
Y pris, y gwerth, yr aberth dryd,
A dalwyd ar y groes ;
A gliria meiau i yn llŵyr,
A'm golch i yn hyfryd lân,
Ac od oes dim o tan y Nef,
A 'm nertha i fynd ymlaen.

## HYMN LI.

1 WEl deuwch tua'r wlad
Y ffordd a gad yn rhydd,
Ar ol rhyw noſwaith dywyll gaeth,
Nawr gwawrio wnaeth y dydd,
Oddiyma i *Peru* :
Mae Efengyl Duw'n rhoi bloedd,
Yn cyhoeddi i'r *Negroes* dua eu lliw
Drugaredd Duw argoedd.

2 Dioddefaint pur y groes,
Angheuol loes fy Nuw ;
Sy fwy o fewn y Nef mewn co'
Na 'm beiau o bob rhyw :
'Dyw pechod er ei rif,
Ei goncweſt cryf a'i rym,
Yn abl ſefyll funud awr
I'm Harglwydd mawr i ddim.

3 Aed bellach bawb o'u bron
Yn eon tua'r nen,
Mae 'n jechydwriaeth werthfawr ddryd
Yn awr ei gid ar ben;
Mae *Calfari* a'i ddawn
Yn rhyfedd lawn o faeth,
Ar fyrr cawn brofi gwleddoedd hael
Nad oes iw gael mo'u bath.

4 Y *Manna* pur ar goedd,
Diferion nefoedd fry,
Sydd yn dihidlo forau a nawn
Yn beraidd iawn i ni;
Y diliau hyfryd hyn
Gawn brofi yn y man;
Afonydd gloyw felus win
O nefol rin i'm rhan.

5 Fe nertha hyn ein traed
Fynd tua gwlad ein Duw,
Na bo 'r Gelynion i'n gwanhau,
Na 'n llwfrhau tro 'm byw;
Ond morio yn ein hynt
Gyda 'r Deheu-wynt clir,
A chyn gostyngo haul brydnawn
Meddiannu gawn y tir.

## HYMN LII. Ar Fesur a elwir *Galarwyr*.

1 CLaf wyf a llesc, bron llwfrhau,
Dy absenoldeb sydd fawr iawn,
Dy fod di cyhyd yn pellhau,
Sy 'n peri im' ruddfan forau a nawn;
Rho weld dy wedd fy Arglwydd cun,
Neu cymmer fi 'th breswylfa 'th hun.

2 Wedi it' ddiodde marwol glwy,
P'odd gelli attal nefol ras?
A chuddio 'th gariad fwy na mwy,
Rhag llifo 'n genllif pur i maes;
Rho weld, &c.

3 Ond

3 On'd trofwyf fi fy Arglwydd mawr,
Daeth dafnau tros dy ruddiau pur;
Ac er fy mwyn ce'ft goron ddrain,
Dwfn glwyf y biccell ddur,
Rho weld, &c.

4 Dy Gariad 'drychodd gynta lawr,
Pan ydoedd dyn yn lân ar goll;
'Doedd help iw gael mewn Nef na Llawr,
Ond ynot dy hunan oll yn oll,
Rho weld, &c.

5 Dy drigfan yn y Nef a gair,
Ond ti ddeft i gyftuddiau heb ri;
Gan ado 'r holl delynau aur,
Er mwyn gwaredu f' enaid i:
Rho weld, &c.

6 A fyddi mwy yn ddieithr im,
A all cariad dwyfol pur di drai
Fy ngadael i elynion llym?
Neu ynteu newid, neu lefcau;
Rho weld, &c.

## HYMN LIII. Ar yr un Mefur.

1 OS oedi rwyt, beth wna i a'r byd,
'Does dim ond triftwch, och a gwae
O gwrr i'r llall gael ynddo gid,
A rhyw ofidiau fy 'n parhau;
Nerth bellach rho rhag im' lefcau,
Dy ras yw 'm feilfaen o barhau.

2 Rhoift yn fy nghalon ruddfan cry,
Nad oes ai tynn ef allan ddim;
Pob plefer îs na 'r nefoedd fry
Sydd heddyw wedi colli eu grym:
Nerth bellach rho, &c.

3 Pellhewch freuddwydion gwag eu gid,
Nid breuddwyd ydyw marwol glwy,
A phlefer, neu ac elw 'r byd;
Byth na watwerwch o honwi mwy:
Nerth bellach rho, &c.

3 Galar

4 Galar a phechod, colled poen,
Yw oll a welwn yma yn un ;
Gorphwysfa nid oes yma iw gael,
Mewn dim ond ynot di dy hun,
Nerth bellach rho, &c.

5 'Does yma un cynhaua iw gael;
Yn nhragwyddoldeb mae e' draw ;
Pan del y Sabbath perffaith hael,
Cawn addfed ffrwythau maes o law.
Nerth bellach rho, &c.

## HYMN LIV. Ar Fesur Gwel yr Adeilad, o waith *Evan Powel* o *LANFRYNACH*

1 FEl ar y môr o wydyr
Rwi 'n brysio oddiyma o brysur,
Tua Thragwyddoldeb :
Duw dwg fi o'r dyfnderoedd,
I nofio tua 'r Nefoedd
Mewn Prysurdeb ;
Mae'm taith, trwy 'r tonnau mawrion maith ;
A'r tán a'r dwfwr
Sydd fel yn Bentwr;
Dwg fi sydd wanwr,
Yn llwfwr ac yn llaith :
A'r ochr draw cai ganu,
Ac fyth ryfeddu 'th waith.
Un ran, wi'n geisio i f' enaid gwan,
Sef Arch i'm cadw
Trw'i ar y Diluw,
Cai glod i'th enw
Nol landio o'r llif i'r lan,
Ac yna Haleluia
Mi gana yn y man.

2 Nid wrth im' rwyfo 'n rhywfodd
Y dewa i o'r dyfnderoedd
I ben fy siwrneu,
O dwg fy enaid clwyfus

O'r

O'r dyfroedd dyfnion dyrus
I'm tirion artre ;
At y llu, sydd yna gyda thi,
Mewn gwiscoedd gwynion,
A'u tannau yn dynnion
Yn canu yn eon
I'r Oen farw fry,
Gwyn fyd f'ai yn eu cwmpni
Mi ganwn innau yn hy ;
Trwy 'r loes, gadd Jesu ar y groes,
Mae yna filoedd
Nawr yn y nefoedd,
Ddaeth o'r dyfnderoedd
Yn canu ddydd a nos,
Er gwaetha eu holl dywyllwch,
A'u tristwch yn eu hoes.

3 Duw boed i'th 'Fengyl dirion,
I ddwyn i maes newyddion
Da etto inni ;
Cyrhaedded eu pherth'nasau
Sy heb weld eu diffigiadau
O'r Arglwydd Jesu :
Bob un, cyn del yr amser blin,
Y dua 'r haulwen
Sy'n y Ffurfafen,
Ac syrth pob seren,
Oleuwen lan ei llun.
Pan delo dydd Dadcuddiad;
Dyfodiad Mab y Dyn :
Fe gân, yr Utcorn o dy fla'n,
Nes clywo 'r Meirw
O'r bedd yn groyw,
Lef yn eu galw
Ger bron yr Orsedd lân ;
A'r Byd yn wenfflam oleu,
A'r Môr a'r donnau 'n dân.

4 Defnyddiau gid a doddant,
A'r Ddaer a'r Nef a grynant
Trwy ddirfawr allu ;
Bydd Ser y Nef yn syrthio,
A'th Air yn cael ei wirio

Yn eglur inni:
Bydd rhai, 'r pryd hyn na allant lai,
Mewn synnus eiriau
'N dweud wrth y Creigiau,
Dewch am ein pennau,
Och ninnau gan y gwae,
Yn awr 'r ym ni yn ofni,
Mae 'r JESU yn agoshau:
'Doe s Le, i ni yna yn y Ne,
Mae 'n Lampau yn diffod
Nid oeddem barod
Waith inni wrthod
Ei hynod alwad e',
Er dim ni ddeu'n i dreio
Ar droed i maes o dre.

5 Ond Priodas-ferch Jesu,
Mae'r dyled wedi ei dalu,
A gwaed ei hanwylyd:
Cánt ganu am yr uwcha
Fry yn llawen Haleluia,
Yn beraidd hyfryd;
Fe sych, er saeled yw eu drych,
Duw ymaith ddagrau
Hwy gant Delynau
Oddiar eu gruddiau,
Fo 'n glochaidd fel y clych,
I seinio maes Hosanna
Y gwanna fel y gwych;
I'r Oen, ni's gallant dewi a son,
Ond rhoi Gogoniant,
Mewn felus Foliant,
Hwy a gyd unant,
A chanant am ei boen,
A'i werthfawr ddioddefiadau,
Mewn hyfryd nefol don.

## HYMN LV.

1. MAe, mae,
Diwrnod hyfryd yn nesau.

Wna

Wna perffaith derfyn ar bob gwae,
O'r bron i'r rhai ſy'n wylo nawr,
Eu g'lynion hyll er maint eu rhi,
A'u hofnau'n llu a gwymp i'r llawr.

2 Fe ſydd,
Myrddiynau ar y borau ddydd,
O ſeintiau a merthyron fydd
Yn canu'n rhydd o fewn i'r Nef,
Wedi adgodi nawr mewn hedd,
Yn ſynnu wrth wedd ei wyneb ef.

3 Fe bair,
I'r Nef wahanu wrth ei air,
Ac uffern fawr yn crynu cair,
O flaen yr hwn fu ar y groes,
Anfeidrol barch fydd yn y man,
I'r hwn fu tan angeuol loes.

4 Fe ſſy,
Elfennau 'r ddaer a'r awyr fry,
O flaen ein JESU mawr y ſy
Yn pledio trofom yn y Nef,
Y gwaith gymerodd arno ei hun,
Wrth brynu dyn a'i c'rona ef.

5 Fath fri,
Pryd hynny gaiff fy anwylyd cu,
Pan na allo angel rifo 'r llu,
O'r nef, o'r ddaear, ac o'r bedd,
Fe dywylla'r haul fe ddua'r lloer,
Fe ſych y môr wrth weld ei wedd.

6 Fe gryn,
Gan ofn bob annuwiol ddyn,
Wrth edrych heddyw ar ei lun,
A'i fyddyn ddiſglair gadarn gref,
Fe yſſa'r pryf 'r annuwiol ryw,
Wrth weld mae Duw mawr ydoedd ef.

7 Fe gân,
Myrddiynau blith dra phlith o'i flaen,
Cerubiaid, Saint, Angylion glan,
Eu gid yn dân o gariad gwir,

F O'r

O'r awyr fry tua phorth y Ne,
Oll gydag E'n gwmpeini pur.

8 A rhai'n,
A wisgir oll a lliain main,
A th'lynau aur o beraidd sain,
A ganant anthem saith o glod,
I'r hwn sydd yn teyrnasu mwy.
Fe gafodd glwy, fe oedd erio'd.

9 Eu cân,
Fydd am *Galfaria* fel o'r blaen,
Ac oll yn gariad oll yn dân,
Yn gweld yn lân fod yn cwplau:
Bob gair a ddaeth o'i enau ef,
A'u bod na'r Nef yn hwy'n parhau.

10 A dydd,
Yw hwn na welir neb yn brudd,
O'r rhai a roddodd Jesu 'n rhydd,
Eu g'lynion sydd wedi cael clwy,
Holl uffern fawr a phechod cas,
Gan ddwyfol ras na chodant mwy.

11 Wel doed,
Yr hyfryd forau gorau erioed,
I'r sawl sy'n dilyn ol dy droed.
Pob ofn ffoed darfydded braw,
Rho'th gariad im' addfwynaf Oen,
Mi gara fon am ddydd a ddaw.

## HYMN LVI.

1 Ti'm gwaredaist rhag fy meiau,
Beiau oedd yn tynnu 'mla'n,
Ac fel stormydd yn addfedu
F'enaid gwan i uffern dân;
Fe'm achubwyd, &c.
Dim ond gallu'r Nef ei hun.

2 Draw mi wela'r tân yn ennyn,
Draw mi wela'r ffwrn, a'r fflam,
Ac yn rhodio yn ei hymyl
Gwelai rai o blant fy mam.

Jesu,

Jesu, Jesu, &c.
Caea rhwng dy ŵyn a'r tân.

3 Rhed i'r canol, dangos dy allu,
Cofia'th chwerw angau loes;
Nad i'th ddefaid fynd yn sclyfaeth,
Achub, achub cyn del nos,
Ti gai'r canu, &c.
Ti gai'r mawl a thi gai'r clod.

4 Dangos imi na's gall angeu,
Dangos imi na's gall dyn,
Dangos imi na's gall uffern
Faith, a phechod cas ei hun,
Fyth i friwio, &c.
Cymmal bach o ammod hedd.

5 Ser y nen o'r bron a syrthiant
Haul a lleuad gyll eu lle,
Cyn yr el sylefftyn heibio,
Fyth o eiriau pur y Ne';
Ar dy ammod, &c.
Rad rwi'n bwrw gid fy mhwys.

## HYMN LVII.

1 BOED fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle;
Ni wna gwaredigaeth ragor
I greadur îs y Ne',
Gallu'r Nefoedd, &c.
Oedd a'm daliodd I i'r lan.

2 Ar y dibyn bum yn chwareu,
Lawr pe aethai'm henaid gwan,
Nid oedd bossib imi godi,
Fyth o'r dyfnder hwnnw i'r lan;
Jesu, &c.
Ti sy'n trefnu oll dy hun.

3 Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddistaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref,
Yn fy rhwymo i heb im' wybod

Wrth golofnau pur y Nef;
O ragluniaeth, &c.
Ti sy'n trefnu'r ddaear faith.

4 Rhyfedd Arglwydd yw'th ddoethineb,
Rhyfedd Arglwydd yw dy rym!
Nid oes îs y Nef luosog
Ag all dy wrth'nebu ddim;
Try'r greadigaeth, &c.
Ol a gwrthol wrth dy air.

5 Dy air sy'n gwneud y byw yn farw,
Eilwaith gwneud y marw'n fyw;
Dy air a greodd ag sy'n cynnal
Y greadigaeth o bob rhyw;
Ti dy hunan, &c.
Ydyw bywyd maith y byd.

## HYMN LVIII.

1 Gweld dy gariad anorchfygol,
Gweld dy chwerw angeu loes!
Gweld dy ofal maith diflino
Attai'n gysson yn fy oes!
Sydd yn dofi, &c.
Grym fy nwydau cryfa eu rhyw.

2 O na welwn ddydd yn gwawrio!
Borau hyfryd tawel iawn,
Haul yn codi heb un cwmwl,
Felly'n machlyd y prydnhawn;
Un diwrnod, &c.
Goleu eglur boed fy oes.

3 Heb euogrwydd dudew tywyll,
Na dim nwydau ffiaidd croes;
Nag un pleser sy'n cyfnewid
Goleu ddydd yn dywyll nos;
Ti a minnau, &c.
Dyna geisia i trw'i byw.

4 Digon, [illegible]gon fyddai hynny,
Dim ond gweld dy wynebpryd,
A chael fy Ysbryd llesg i ddringad

Fry

Fry ymhell uwch ſŵn y byd;
Mewn ardaloedd, &c.
Nad oes teimlo beth yw poen.

5 Yno canu cawn yn waſtad,
Ynghwmpeini'm Harglwydd cun,
O fewn golwg heb ddim ammau,
I ſy nefol wlad ſy hun,
Dere, dere, &c.
Dere yn fuan hyfryd haf.

6 Nid oes genni ond diſgwyl wrthit,
Gwynſyd a gai dy ſwynhau;
Ynot ti y mae ſy nhryſor,
Tryſor bythol i barhau,
O nad imi, &c.
Edrych ſyth ond tua'r Ne'.

## HYMN LIX.

1 MI feddylia 'th ſod di yno
Pan na b'ech ti yno ddim,
Mae dy eiriau mor feluſed,
Mae dy gariad o'r ſath rym;
Diliau mêl oll tan zêl,
Minnau greda doed y ddêl.

2 Mae dy air yn abal ſy arwain,
Trwy'r anialwch mawr ymlaen,
Mae e'n gloſen oleu eglur
Weithiau o niwl, ac weithiau o dân,
Mae'n ddible ynddo fe,
Fwy na'r ddaear mwy na'r Ne'.

3 Rwyf fi'n meddwl am yr oriau
Caffwi ſunud o'th ſwynhau,
Ac mae adſain bell dy eiriau
Yn peri imi lawenhau,
O'r ſath wlêdd draw i'r bêdd!
Fyth cael edrych ar dy wêdd.

4 Dyna'r pryd rwi'n dechreu mywyd,
Pan y caffwi weld yn glîr,

I'm gael prawf, ac y cai ragor
O rawn Syppiau'r *Ganaan* bur.
Dyma ngwledd, dyma fy hedd,
Dyma'm concweſt ar y bedd.

5 O gad imi 'n fuan Arglwydd
Glywed geiriau diſtaw'r Ne',
Rhag i'm redeg heb i'm wybod
Ar ryw law i maes o'm lle;
Yn dy law heb ddim braw,
Cerddai'n union yma a thraw.

## HYMN LX.

1 MAE fy Nuw yn fy ngheryddu,
Ond fy ngharu y mae ef,
Ergyd ddoe, ac ergyd heddyw,
I fy nghofio I am y Nef;
Nid oes awr o boen, a dolur,
Nid oes munud fach nad yw,
Fel ffynnonau'n tarddu allan
O dragwyddol hedd fy Nuw.

2 Rhaid cael rhyw beth i fy nghofio,
Onite mi winga o hyd,
Mi gofleidia ddelw yn union,
Pleſſer cnawd, neu bleſſer byd:
Rhaid fy ngoglais a chyſtuddiau,
Onite mi gyſga hûn,
Ac mi heppia mewn eſmwythder
Pan fo Angau wrth fy nghlŷn.

3 Etto nid yw fy Ergydion,
Ond Ergydion yſgafn jawn,
Ac awelon pur o gariad
Sydd yn gymyſg a hwy'n llawn;
Cariad, heddwch, pur, a cherydd,
A gydblethwyd mewn un we',
Rhaff dair cainge yw ſy'n fy nhynnu
Maes o'r ddaear tua'r Ne'.

4 Mae fy nghroeſau, am cyſtuddiau,
Oll yn chwilio maes fy mai,

Ac mewn cydſain i ddiwreiddio
'R ddelw hynny ſy'n parhau;
Ymladd rwyf a'm gorthrymderau,
Ond mae'n debyg jawn mae gras,
A phob cyſtudd bach oi ochor
Yn y diwedd garia'r maes.

5 Mi gaf weld deg cymmaint rhagor,
Mewn un cyſtudd bach ond un,
Nag a ddyſgai mewn blynyddoedd
Maes o eiriau gorau dyn;
Mi ga' weld dichellion lawer,
Mi ga' weld uffernol dân,
Mewn llocheſau yn ſy nghalon
Na chydnabum i o'r blaen.

6 Ar ſy ngwely mewn cyſtuddiau,
Ce's i gynta olwg lawn,
Ar holl ſwynion cnawd, a natur,
Mewn goleuni rhyfedd jawn,
Yno gwelais y creadur
Faint ei ddichell, faint ei rym,
Ac nad oedd ond Gras y Nefoedd
Allai ei ddangos imi ddim.

## HYMN LXI.

1 DYdd yw hwn ſy'n paſſo heibio,
Dydd o alar, dydd o wae,
'Nol ei gilydd o flinderau,
Fel y tonnau ſy'n parhau;
Jesu cun, ef ei hun,
Yw ſy nghyſur oll yn un.

2 Draw mae'r gwynt yn chwythu'n arw,
Ac y mae ei ſŵn ef bron,
A chenhedlu mil o ofnau
Yn ddirgelaidd tan ſy mron;
O ſy Nuw! yn ſuan clyw,
Brudd ochneidiau Calon friw.

3 Agor ddrws rwi bron llewygu,
O'm cyſtuddiau ſynd i ma's,

Nid yw'm cadwyn er mor gryfed,
Ddim at etholedig ras;
Dy unig air imi bair,
Dd'od i maes o'r berw bair.

4 Mi ddof allan ond fy nhrafod
Fel yr aur o ganol tân,
'Nol y faif y fcwm, a'r forod,
Dyna'r dydd cai fynd yn lân,
Dere'n glau at fy mai
Nad i'm pechod i barhau.

5 Fel y gallwyf orfoleddu
Byw yn waftad yn dy hedd,
Edrych angeu yn ei wyneb
Ymhyfrydu yn y bedd;
Croncro'n lân, mynd ymlaen,
Mewn rhyw ddwyfol nefol dân.

## HYMN LXII.

1 RHO imi yfed rwi'n fychedig,
Ddwr y ffynnon loyw lawn,
Darddodd allan o dy yftlys,
Ar *Galfaria* un prydnhawn;
Gwaed fy Nuw unig yw,
Ylch fy meiau dua o ryw.

2 Mae fy anwireddau'n gwaeddi,
Am ddialedd, ac am lid;
Am bentyrru barn ddychrynllyd
Ar fy Enaid bach ynghyd;
Dadleu nawr, Jesu mawr
Nad y dial gwympo lawr.

3 Edrych arnai mewn tangnefedd,
Dy dangnefedd hyfryd mae,
Fel rhyw afon fawr lifeiriol,
Yn llifeiriol fo'n parhau;
Môr o hedd yw dy wedd
Sy'n goleuo'r byd a'r bedd.

4 Maddeu

4 Maddeu fel y cyfeiliornais
Weithiau i'r Dwyrain, weithiau i'r De,
Maddeu drachwant cas fy nghalon,
I ymado maes o dre;
Dwg ynol fy Yſbryd ffol
I dy dirion dawel gol.

5 Nad i'r bleiddiaid fy ngwaſgaru,
Nad i'r arth fy ngael i lawr;
Palfau llew, a ſafan uffern,
Sydd yn ehang, ac yn fawr;
Feddai ddim, o bydd im',
Yn achubydd, ac yn rym.

## HYMN LXIII.

1 MEwn anialwch rwyf yn trigo
Alltyd unig wrthyf fy hun;
Llewod rheipus oll oddautu
Am fy rhwygo i bob yr un;
Minnau ſydd yma'n brydd
Yn hiraethu am y dydd.

2 Mi wnes rhyw longddrylliad creulon
Pan y colles oleu'r dydd,
Creigydd celyd hyll a drawodd
Yn ddiſymmwth wrth fy ffydd;
Des i'r lan, 'd own ond gwan,
Am fod Jesu ar fy rhan.

3 Nawr rwi'n tramwy yma ac accw,
Methu etto dd'od ir man,
Crwydro'r anial dyrys garw
I gael gorphwys mewn rhyw fan;
Nid oes le îs y Ne',
I mi ond ei fynwes E'.

4 Dyna'r man y byddai'n ddedwydd,
Yna byddai wrth fy modd;
Yna ofnai unrhyw elyn
Nag yn ddirgel nag ar goedd;
Jesu gyd yn y byd,
Yw fy amddiffynfa glyd.

5 Dere

5 Dere Arglwydd rwyf yn dryſu,
Ac mae arnai ofn mawr,
Ffynnon wyf yn chwilio allan,
Dangos imi 'r fan yn awr;
Ti yw'r gwir Fanna pur,
Ti yw'r ffynnon loyw glir.

## HYMN LXIV.

1 MI ges concweſt heb ddymuno,
Ar y pechod gwaetha ei ryw,
Gelyn mwy nag i fy Enaid,
Oedd ef i Ogoniant Duw,
Enw fy Arglwydd, &c.
Gaffo'r clod o oes i oes.

2 Nad i'm beiau cas ei natur,
Byth i ddyfod yn eu hol,
Na foed imi gymryd pleſſer,
O un natur yn fy nghol,
Ti dy hunan, &c.
Llanw le holl ddelwau'r byd.

3 Boed fy nghalon iti'n deml,
Boed fy Yſbryd iti'n nyth,
Ac o fewn y drigfan yma,
Aros Jesu, aros byth,
Gwledd waſtadol, &c.
Fydd y breſenoldeb im'.

4 Awr o dy gymdeithas felus,
Awr o weld dy wynebpryd,
Sy'n rhagori fil o weithiau,
Ar bleſerau gwag y byd,
Mi ro'r cwbwl, &c.
Am gwmpeini pur fy Nuw.

5 Dadrys dadrys fy nghadwynau,
Gad i'm hyſbryd fynd yn rhydd,
Rwyf fi 'n blino ar y tywyllwch,
Deued deued goleu'r dydd,
Yn y goleu, &c.
Mae fy Enaid wrth ei fodd.

6 Gwawrddydd gwawrddydd yw fy mywyd,
Gweld y wawrddydd rwyf yn jach,
Mi arofa hyd nes delo,
Hi ddaw hi ddaw mhen gronyn bach,
Dere, dere, &c.
I'm gael gweld fy ngwlad fy hun.

## HYMN LXV.

1 MAE fy meiau fel mynyddau
Amlach hefyd yw ei rhi,
Nag yw gwlith y borau wawrddydd,
Nag yw Ser y Nefoedd fry;
Gwaed fy Arglwydd, &c.
Sydd yn abal golchi mai.

2 Golchi du Gydwybod aflan
Lawer gwynnach eira mân;
Gwneud y brwnt ganwaith ddifwynodd
Yn y Dommen fel y gwlân;
Ni ellir meffur, &c.
Led a dyfnder maith ei ras.

3 Mae ei gyrraedd ef môr ehang
Mae e' i gwmpaffu'r byd,
Fe ddaw'r *Indiaid* tywyll deillion
Tan ei gyfgod ef ryw bryd;
Yn ei frigau, &c.
Llecha 'r adar oll ynghyd.

4 Deng mil lawnion o dalentau,
Deng mil eilwaith faith pe bai,
Ynghlorianau pur y Nefoedd
Fy ynfydrwydd i am bai;
Hyd yr hatling, &c.
Fe a'i talodd ar y Groes.

5 Ei ryddfannau ar y Croesbren,
Oedd yn pwyfo beiau'r byd,
Poenau Pechod oedd ofnadwy
Poenau f'Arglwydd oedd fwy dryd,
'Nawr mae cariad, &c.
Yn concwero dwyfol lid.

## HYMN LXVI.

1 MEwn rhyw ânialwch rwyf yn byw,
Ar llesga un erioed o'm rhyw;
Peryglon mawrion ymhob man;
Mae yma *Anak* yn ei rym,
A thraw *Goliah* gadarn lym,
Ei gyd am goncro'n hysbryd gwan.

2 Ac oddifewn mae mwy na mwy,
O nwydau croes i'th farwol glwy,
Pob nwyd yn gadarn, ac yn gref,
Yn curo'n danbaid bob yr awr,
Fy Ysbryd egwan llesg i lawr,
Fy unig Noddfa yw y Nef.

3 Dy fraich sydd gadarn jawn o rym,
Ni all uffern iw gwrthnebu ddim;
Mwy nerth dy aír, na dwr, na thân,
O dere i'r frwydr mae'n brydnhawn,
Mae saethau'r fall yn llymion jawn,
O dal fi i'r lan, a dwg fi mla'n.

4 Danfon imi'r diddanydd pur,
Y golofn dan mewn anial dir
Sy'n ledio'r praidd o'r *Aipht* i'r Ne';
Yr hwn a'i oleu perffaith sydd,
Yn gwneuthur nos yn ganol dydd,
Fy holl ddiddanwch ydyw ef.

## HYMN LXVII.

1 FY Enaid llesg sy'n llwfrhau,
Gan fy nhrychwantau sy'n parhau,
Am beiau maith yn llaesu dim;
O ble mae effaith dwyfol waed,
Y Balm o *Gilead* ry Jachad,
Ac dyrr y nwydau mwya eu grym.

2 O ble mae'r Manna perffaith gwir?
A'r dyfroedd tawel sanctaidd pur?

Mae'm fyched Argl[illegible] parhau,
Rwi'n methu tynnu dw'r yn awr,
Fy anghrediniaeth fy mor fawr,
Agor y graig rw'i bron llefgau.

3 Rw'i oll yn friw, rw'i oll yn wan,
A neb ond ti a'm deil i'r lan;
Dy hunan rwyt yn fwy na'r byd,
Yr olwg leia ar dy wedd,
Sy'n drech nag angau, trech na'r bedd,
Dy hunan wi'n ddymuno gid.

4 Na phall fy ngais, mae yn brydnhawn,
A minnau'n llefg ac eiddil jawn;
A'r afon fawr heb fyned trwy;
Rwi'n ofni ei lled a'i dyfnder du,
A'i thonnau maith cyndeiriog fy,
Yn magu ynwi ofnau mwy.

5 Pa bryd cai'n lân i gario'r maes?
Ar holl derfyfgoedd angau glâs?
Heb mwy frawychu wrth ei wedd;
Dy gariad dyro o'r fath rym,
Ag wnelo wyneb angau'n ddim,
Dy unig gariad goncra ei gledd.

## HYMN LXVIII.

1 PAM Arglwydd yma, pam mae draw?
Rhyw elyn marwol ar bob llaw?
Pleffer a gofyd bob yn ail;
Yn tynnu'm llygad tynnu'm bryd,
At ryw wrthddrychau fy'n y byd,
Rhyw dwyll difylwedd [illegible] difail.

2 Trwy darth trwy niwl mi wela'r fan,
Ddumunai'm Henaid gael iw ran;
Ardaloedd Gras, ardaloedd hedd,
Y wlad mae cariad pur didrai,
Fel afon yn ei dyfrhau,
Tu hwnt i Angau du a'r bedd.

Er faeled yw fy nrych,
Er tlotted wyf yn awr,
Fy llenwi caf â llawnder Duw,
A'm gweled fel y wawr.

2 Mi brofais Dduw yn dda,
Fy nhirion raslon Dad,
Yn maddeu im' fy meiau mawr,
Yn rhwydd o'i gariad rhad;
Fe'm feliodd i mewn hedd,
Ond rhyfedd yw ei ras,
Fe'm bwydodd i â'r manna pur,
Mewn gwledd o hyfryd flas.

3 Mi wn i Grist, mi wn
Fy ngharu cyn bod byd,
Parhau fy ngharu gwn y gwna,
Yn ddidrai yr un o hyd:
Fe yw 'm Tywyfog hardd,
Efe yw'r Meddyg mawr,
Efe yw'm Harchoffeiriad gwych
Sydd drofwy'n pledio 'nawr.

4 Fy Mrawd yw'r Iesu da,
Fy Mherl o uchel bris,
Fy Nghyfaill yw a'm Cariad mwyn,
Fy Ngobaith yn ddilys:
Fy Mhren y bywyd mawr,
Fy Nrws i fynd at Dduw,
Fy Ffordd i fyned tu a'r wlad
Lle mae fy Nhad yn fyw.

5 Fy Rholyn *Saron* gwych,
Yw'r hyfryd Iesu mwyn,
Fy Mugail yw; a mi fydd un
O'i dirion, anwyl wyn.
Fy Mhrynwr yw heb lai,
Fy Offeiriad yn ddigel,
Fy Nharian gref, a'm 'Fforddwr da,
Fy ficr Ran, a'm Sel.

6 Omega, Alpha mawr,
A'm Hawl yw'r anwyl Grist,

Efe

Efe yw'm Hamddiffynfa lon,
Efe yw'm ffyddlon Dyst;
Fy Mhen, fy Nghorn, a'm Twr,
Fy auraidd Allor lân,
Fy Aberth drud, a'm Prophwyd mawr,
Fe'm tywys yn y blaen.

7 Fe'm portha i â'i ras,
Nes mynd i ben fy nhaith;
Fe ladd fy holl elynion cas,
Caf gongcro uffern faith:
Fy Arch a'm Hysgol yw,
I'm codi tu a'r nen,
Caf ddringo 'mlaen o nerth i nerth,
Nes dod i *Seion* wen.

---

## HYMN LXXX.

CRIST *y Gwrthddrych gorau i'w garu.*

1 NID oes un gwrthddrych yn y byd,
Sydd deilwng o fy serch o'm bryd:
Mae tynfa f' enaid cannaid cu,
At drysor tragwyddoldeb fry.

2 Pe cawn y byd i gyd yn grwn,
A byw flynyddau fil yn hwn;
Ni fyddai hyn ond gofid blin,
Heb gaffael ffafr Duw ei hun.

3 Wrth fyned trwy borth angau du,
Dan ymladd â gelynion lu;
Ni thyccia cyfoeth, bri na gwaed,
Na brawd, na phriod, mam, na thad.

4 Wel IESU garai yn ddilai,
Efe a'm gwared i o'm gwae;
Fy Mhriod hynod yw o hyd,
A'm Cyfaill gorau yn y byd.

5 Duw yw efe i'm dwyn ymlaen,
Trwy ddyfroedd mawr a fflammiau tân;
O'r nefoedd fry rhoiff i mi nerth
I ddringo creigydd mawrion serth.

# HYMN LXXI.

1 PAN elwi maes yn erbyn llu
Boed ar fy ne' dy allu di;
Boed dy ddoethineb mawr dilyth,
Drachefen ar fy affwy byth.

2 Fel gallwi'n wrol fynd ymla'n,
Trwy ganol dw'r, trwy ganol tân;
Ac edrych yn wynebau llu,
Yn eon yn dy allu di.

3 'Does îs y Nef a ddeil i'r lan,
Ond ti dy hun fy Yfbryd gwan;
Nerth yw dy Air, mae'n fwy ei rym,
Nag ellir ei wrth'nebu ef ddim.

4 Mi af ymlaen er t'wylled yw,
Tua'r wlad rwi am fynd iddi fyw;
Fe go'd y wawr, mae addewid bur
O weld fy ngartre cyn bo hir.

5 Rwi'n ofni'r brynniau uchel draw,
Ar ffoefydd fy ar fy Neheu-law;
Ac nid oes ond dy Yfbryd Glan,
A'm harwain trwyddynt oll ymla'n.

# HYMN LXXII.

1 NAD fi adeiladu'n yfgafn
Ar un feilfaen îs y Ne',
Na chymmeryd Craig i orphwys
Tu yma i Angau yn dy le;
Ti fy Nuw, tra fwi byw,
Gaiff bod fy ngorphwysfa wiw.

2 Dyma'r Maen fydd yn y gongl,
Dyma'r garreg werthfawr bur,
Gloddiwyd allan yn y brynniau,
Brynniau tragwyddoldeb dir;
Nid oes le îs y Ne',
Iw adeiladu ond efe.

3 Byth

3 Byth ni dderfydd canu am dano,
Byth ni dderfydd am ei glôd;
Tra fo caru, peru canu,
Caru fydd heb ddechreu'n bod;
Nefoedd fry 'n gyffon fy
Oll yn canu i'm Harglwydd cu.

4 Minnau'r gwaela o bechaduriaid
Yn y diwedd ro fy nhroed,
Ar y graig fydd yn y moroedd,
Craig gadarna fu erioed;
Ceidw hon rhag pob ton,
Ofnau ffwrdd o tan fy mron.

5 Ni all hwnnw fy'n dy adnabod
Lai na dilyn ol dy droed;
Ac ni chadd a welodd dy wyneb
Weld cyffelyb iddo erioed;
Tyr'd yn glau, Jesu mae
F'Enaid euog bron llefgau.

## HYMN LXXIII.

1 DAccw'r ffynnon wedi ei hagor,
A ddifgwyliwyd amryw oes;
'Nawr yn llifo fel y grifial
Maes o'i yftlys ar y Groes;
Dw'r a Gwaed ry Jachad
I'r Pechadur mwya gad.

2 Daccw'r hoelion geirwon llymion,
Wedi eu curo nawr i dre',
Daccw'r biccell yn trywannu
I mewn o tan ei yftlys E';
Daccw boen addfwyn oen
Yn rhoi 'r Nefoedd dewi fon.

3 'Nawr mi glywa'r Gair gorphenwyd!
Gorphen Jechydwriaeth wir!
Ac mi wela'r gwaed yn hidlio
Tros ei ruddiau fanctaidd pur!
Wele'r Nef gadarn gref
'Nawr yn tywyllu wrth ei lef.

 4 Dyma

4 Dyma'r creigydd ſerth yn rhwygo,
Dyma'r meirw 'n codi'n fyw;
Pwy greadur ag all ddiodde
Gruddfan chwerw f' Arglwydd Dduw;
Ochain mae, fe gadd wae,
Fel cawn ninnau fy rhyddhau.

5 Minnau bellach a obeithia,
Gobaith ag all eſtyn fy oes;
Gobaith wedi ei ſeilfaenu
Ar ochneidiau pur y groes;
Dyma wlad caf jachad,
Ac caf gyflawn wir ryddhad.

## HYMN LXXIV.

1 MAE cyflawnder maith o haeddiant
Anherfynol yn dy waed;
Sawl a'i teimlodd ſy'n rhyfeddu
Ac yn caru'r ddyfais râd,
Cariad dryd tros y byd,
Ddaeth yn genllif coch ei gid.

2 Dwyfol Waed, a dwyfol boenau,
Haeddiant ydoedd hwn mor ddryd,
Ac oedd dafan bach o hono
'N abal ddigon brynu byd.
A phe bai faint ei fai
Gan mil drwmach nag y mae.

3 Bod Creawdwr Nef yn diodde!
Rodd anfeidrol werth a rhin,
Ymhob gwŷn, ymhob ochenaid
O ddioddefaint Mab y Dyn;
Nid yw llid euogrwydd byd,
Ddim i bwyſo ei haeddiant dryd.

4 Yma tardd Cyfiawnder allan
Fel rhyw ddiluw mawr didrai,
Ac er golchi miloedd ynddo
Nid yw'r dyfroedd ronyn llai;
Gwaed fy Nuw, haeddiant yw,
Trech na'r beiau dua eu lliw.

5 Yma

5 Yma rhedeg fel yr afon,
Ryw gyssuron perffaith gwiw,
Gyda'r Dw'r a'r Gwaed rhedegog
Maes o ystlys bur fy Nuw;
Ddeil i'r lan f' Enaid gwan,
Ac am nertha I ymhob man.

## HYMN LXXV.

1 ER nad ydwyf ond anifail,
Aflan jawn er pan ce's fyw;
Etto mwy na'm holl aflendid
Yw Cyfiawnder maith fy Nuw;
Yma mae ffrwd ddidrai,
Sydd yn golchi pob rhyw fai.

2 Pe bai dengmil lawn o ddynion
A'u heuogrwydd oll yn un,
Dengmil eilwaith faith o fydoedd,
Ffiaidd euog yn gytun;
Yma cawn un prydnhawn,
Aberth berffaith dâl y jawn.

3 Pe bai'm pechod fel y porphor,
Ac yn pwyso'r brynniau mawr;
A'i rhifedi hwynt mor amled
A rhifedi gwlith y wawr;
Mae dy waed, dwyfol rhad,
Yn abal maddeu rhai'n yn rhad.

4 Yn y dommen ce'st fi ganwaith,
Yna eilwaith de'st im'hol;
Golchaist f'Enaid o'i ffieidd-dra,
Ac a'm cym'raist yn dy gôl;
Neb ond ti, Arglwydd cu,
Yw fy amddiffynfa hy.

## HYMN LXXVI.

1 O Tyred i lawr,
Fy Arglwydd yn awr,

Rho

Rho i'm nabod dy Enw,
Dy Enw ſydd fawr.

2 Mae ynot dy hun,
Well cyfoeth ei rin,
Na ffeindiodd marſiandwyr
Yr India yn gytun.

3 Plant dynion ni chas,
Un tryſor i ma's,
O'r dwyrain i'r gogledd
Cyffelyb i'th ras.

4 Is wybr ni bu
Fath fendith i ni,
A'n Jesu i farw
Ar Galfari fry.

5 Rhyfeddod y bŷd
Yw Angau mor ddryd,
A gwreiddyn caniadau
'R ffyddloniaid eu gid.

6 Af bellach yn hy
Tua'r Ganaan ſy fry,
Mi wela'r addewid
Yn gadarn o'm Tŷ.

7 A Geiriau fy Nuw,
Sy'n gadarn o ryw;
Fe ddwedodd cawn goncro
Ngelynion bob rhyw.

8 Er bod imi lu
O greulon rai cry,
Mi ſafaf yn wrol
Mae'm Jesu o'm tu.

## HYMN LXXVIII.

1 RWI bron, rwi bron a llwfrhau,
Wrth weld graſuſau yn lleſgau,
A'm temptaſiynau yn parhau,
Yn danllyd yn y bla'n;
O tyr'd awelon ſanctaidd dir,

Tan

Tan adain dawel Yſbryd pur,
Deſgynwch arnai cyn bo hir,
Diffoddwch Uffern dân.

2 Mae'r ffwrnes fawr yn awr yn llawr,
O las ddydd borau hyd brydnhawn,
O nwydau croes cyndeiriog jawn,
Amrywiol faith eu rhyw;
O tyr'd dy hun i ganol tân,
Gwna 'r aflan ffiaidd cas yn lân,
Gwna rhyngwi heddyw yſgar glân,
A'm beiau rwyt ti'n Dduw.

3 Rwi'n blino eiſiau gweld y wlad,
Rowd imi mewn addewid rad,
A phrofi cyflawn wir fwynhad,
O ſyppiau'r Ganaan wiw;
Awn tros fynyddau mawrion maith,
A'r brynniau mwyaf ar fy nhaith,
Heb flino dim, na gorphwys chwaith,
Nes awn i dŷ fy Nuw.

4 Rhaid imi gael rhyw faint o'r grawn,
Sy'n werthfawr, ac yn felus iawn;
Yn tarddu o'r Winwydden lawn
A waſgwyd ar y Groes;
Does dim a ddeil fy Yſbryd gwan,
I ddringo creigydd hyll i'r lan,
Nes teimlwi imi brofi rhan,
O'r ddwyfol farwol loes.

5 Fel hyn mi a 'mlaen tua'r Ganaan fry,
Rhwng maith dorfeydd o elynion hy,
Heb ofni eu ſaethau o un tŷ,
Ond canu am y wledd
Mhen gronyn bach a gai fwynhau
Ar frynniau o heddwch heb ddim trai,
Llawenydd bythol i barhau
Diſgleidiau draw i'r bedd.

HYMN

## HYMN LXXIX.

1 MAE'r graig, mae f'Enaid arni'n byw,
Yn well na'r perlau gorau eu rhyw,
Cyfiawnder bythol dwyfol dryd,
A bwysa ei hunan fwy na'r byd.
Bwysa, bwysa, bwysa, bwysa,
Bwysa ei hunan fwy na'r byd.

2 Ni fedd Angylion er eu bri,
Na neb o'r holl Seraphiaid fry,
Na holl alluoedd maith y nef,
Un haeddiant fel ei haeddiant ef.
Haeddiant, haeddiant, &c.

3 Os daw y gyfraith yn ei grym,
A gofyn am berffeithrwydd im,
Does genni ond dangos Angau loes,
A gwaed yn llifo ar y Groes,
Gwaed yn, gwaed yn, &c.

4 Rwi'n dlawd gofynned deddf ei hiawn,
Ar ben *Calfaria* caiff hi e'n llawn,
Fy Jesu'n feichiau llawn aeth im',
Sy'n abal talu hyd at ddim.
Abal, abal, &c.

5 Fe ettyb ei Gyfiawnder ef,
Berffeithrwydd Cyfraith Brenhin Nef,
Fe ddeil ei Waed ar groes-bren îr
Bob gofyn i sancteiddrwydd pur.
Gofyn, gofyn, &c.

6 Pe delid f'Enaid gwan ynghyd,
Gan ddwyfol burdeb dwyfol lid,
Mi rho hwy i gwympo yn eu grym,
Ar Jesu sydd yn feichiau im'.
Jesu, Jesu, &c.

## HYMN LXXX.

1 FY haeddiant mawr ynghanol Ne',
Yw Jesu 'n Feichiau yn fy lle;

A'u

A'u boenau ef yn unig fydd,
Yn gwneud yr orfedd wen yn rhydd.
Gwneud, gwneud, &c.

2 Tyftiodd fy Nuw o ganol Nef,
Ces lawn fodlondeb ynddo ef,
A bod ei Saint o fawr i fân,
Yn haeddiant JESU oll yn lân.
Haeddiant, haeddiant, &c.

3 Mae ynddo hefyd allu mawr,
I gael fy meiau mwya lawr;
Ei holl ddoethineb ef a'i ras,
O rwydau 'r ddraig a'm tyn i ma's.
Rwydau'r, rwydau'r, &c.

4 Ac er i bechod ymhob man,
I wreiddo yn fy Enaid gwan,
A dyblu ei afel fwy na mwy,
Fe a maedda rhinwedd marwol glwy.
A maedda, a maedda, &c.

5 Er plethu o bechod cas ynghyd,
A phob rhyw ewin imi gyd,
Fei dedrys ef rhy tan ei droed,
Y nwydau cryfa fu ynwi erioed.
Nwydau, nwydau, &c.

6 Fe waftadha 'r mynyddau maith,
Fe fymmyd tramgwyddiadau'r daith;
Fe wna'm ferchiadau gwyrgam cas,
Yn waftad bur i nefol ras.
Waftad, waftad, &c.

7 Lleng o elynion cas eu rhyw,
A nwydau croes gwymp i fy NUW;
Fe leinw'm calon cyn bo hir,
A ffrydiau gloyw o gariad pur.
Ffrydiau, ffrydiau, &c.

## HYMN. LXXXI.

1 TRuenus wyf o Arglwydd cu,
Ymhlith gelynion o bob tu;

Beunydd

Beunydd yn ymddiwyno'n gas,
Gan feiau o mewn, a beiau o ma's.
Feiau, feiau, &c.

2 Rhyw nifer faith o elynion fydd
Yn cwympo arnai yn y dydd;
Yn tynnu euogrwydd ymhob man,
Fy Jesu wyt bydd imi'n rhan.
Jesu, Jesu, &c.

3 Estyn dy anfeidrol fraich i ma's,
Datguddia nerth dy ddwyfol ras;
Dangos imi, dangos i'r byd,
It' brynu f'Enaid bach yn ddryd.
Brynu, brynu, &c.

4 Nad i'r tywyllwch gario'r dydd,
Tywyllwch ynwi gid y fydd;
Bydd im' dy hun yn g'lofn dân,
I'm ledio I trwy'r holl ddryfni mla'n,
Ledio, ledio, &c.

5 Rwy'n llwyr ymddiried yn dy ras,
I'm cadw mewn, i'm cadw ma's;
A gwneud fy nyrus ffordd yn glir,
O'r dywyll *Aipht* i'r *Ganaan* bur.
Dywyll, dywyll, &c.

6 Rhaid iti dy hunan gwympo lawr,
Elynion creulon nifer fawr;
A thorri eu rhwydau dyrus du,
Neu gwympo ar y ffordd wnaf fi.
Gwympo, gwympo, &c.

7 Does neb a welwyd îs y rhod,
Fu dlottach eiddil na mi erio'd;
Rhaid iti roddi'r cwbl im,
Dy roddion di yw'm nerth, a grym.
Roddion, roddion, &c.

8 Ar fyr rhaid fefyll o dy fla'n,
Fe brofir fy yfbryd gwan trwy dân;
Fe chwilir gwraidd pob nwyd a dawn,
Fe nithir, pwyfir fi yn llawn.
Nithir, nithir, &c.

9 Dy

9 Dy Yſbryd fel'y fflammiau pur,
Sy'n gweld fy nghalon trwyddi'n glir;
Yn tremio mewn, yn canfod bai,
Does arall neb wyr ſan y mae.
Arall, arall, &c.

10 Am hynny Arglwydd rho dy waed,
I guddio meiau mawr yn rhâd;
A golch fy mhechod oll yn wyn,
Mewn afon lifodd ar y bryn.
Afon, afon, &c.

11 Rwi'n ofni grym fy meiau maith,
Rwi'n aflan ymhob cam o'm taith,
Rwi'n ddwl, rwi'n ddall, mae arnai fraw,
I glywed gwys i'r farn a ddaw.
Clywed, clywed, &c.

12 O trugarha, cans heddyw mae,
Fy ngobaith oll mewn trugarhau;
Trugaredd lawn, yn unig yw,
A geidw f'Enaid bach yn fyw.
Geidw, geidw, &c.

13 Does ond rhyw faith anfeidrol ras,
A'm dwg o'm holl bechodau ma's;
Nid oes ond haeddiant Duw yn ddyn,
Ry nefoedd bur i aflan un.
Nefoedd, nefoedd, &c.

## HYMN LXXXII.

*Ar Don' elwir* Love Feaſt.

1 MAE ein taith i'r nefol fyd,
Trwy anialwch mawr ei hyd;
A bwyſtfilod ynddo'n llawn,
Oll eu gid yn greulon iawn;
JESU nid oes ond dy ras;
Ddeil fy Enaid trwyddo maes.

2 Daccw'r llew ſy'n gwilio o hyd,
Temptaſiynau maith y byd;

Tannu ei rwydau ymhob man,
Cwympo'r cadarn cwympo'r gwan;
Jesu dyro allu'r Nef,
Gair o'th Enau maedda ef.

3 Nid yw'm pechod mawr ei rym,
At dy anfeidrol allu ddim:
Mwy dy bwer, mwy dy ras,
Na chyfrwysdra Uffern gas;
Ti goncweraist er dy glôd
Y gelynion cryfa erio'd.

4 Draw bur fuddugoliaeth lawn,
Ar *Galfaria* un prydnhawn;
Rhwng y ddaear fawr a'r nef
Ildiodd Satan iddo ef;
Gwerthfawr Air ei goncwest dryd,
Wel gorphenwyd dwyfol lid.

5 Do gorphenwyd diodde mwy,
Poenau hoelion, marwol glwy;
Es trwy'r llid, fe ddarfu ngwae,
Prynais haeddiant i barhau;
Ffrwd i mhobol bur ddilyth,
Rhed cyssuron honi byth.

6 Dyma'r dw'r, a thyma'r Gwaed,
Seilfaen Jechydwriaeth rad;
Dyma'r llê mae'r Nef ei hun,
Anfodloni yn y dyn;
Dyma fy hawl i am ple,
I feddiannu Teyrnas Ne'.

## HYMN LXXXIII.

*Ar yr un Mesur.*

1 DAccw'r ffynnon heddyw caed,
Dwfr gloyw pur a gwaed;
Daccw hi'n tarddu ar y bryn,
Ylch fy Enaid bach yn wyn;
Dyma'm nerth i fyn'd ymla'n,
Dyma Seilfaen bur fy nghan.

2 Gair o'i Enau ſanctaidd ef,
Nawr a'm dwg i ganol Nef;
Yn eu eiriau mae'r fath rîn,
Dodant Nef a Daer yn un;
Gwrando ei lais, a gweld ei wêdd,
Yw fy mywyd tu yma i'r bedd.

3 Tegwch hardd ei wynebpryd
Can hawddgarach yw na'r byd;
Mae tryſorau nefol ras,
O dy Enau'n d'od i ma's;
Ac ar wedd dy wynebpryd
Mae'm happuſrwydd oll ei gid.

4 JESU gorphwys yn dy glwy,
Wna fy Enaid bellach mwy;
Dyma'm noddfa werthfawr lawn,
Fyth o forau hyd brydnhawn;
Dyma nghyſſur oll ei gid,
Dyma'm nerth i'r nefol fyd.

5 Yn dy allu âf ymla'n,
Concraf ddw'r, a choncraf dân,
Er eu meithder, er eu grym,
Ni all ofnau imi ddim;
Mae dy allu'n fwy ei rîn,
Na'm rheſymau bob yr un.

## HYMN LXXXIV.

*Ar yr un Meſur.*

1 RWI'n diffygio ar fy nhaith,
Hir yw'r anial dîr a maith;
Drygau mawrion ar bob llaw,
Sydd o'r *Aipht* i'r *Ganaan* draw;
Llewyrch niwl, a llewyrch tân,
Unig all fy nwyn ymla'n.

2 Ti dy hunan JESU mawr,
Yw fy noddfa ar y llawr,
Ni ddaw fyth, ni fu erio'd,
Dy gyffelyb îs y rhôd;

Dere'n glau 'does îs y Nef
Arall un a leinw 'th le.

3 Dyma y ffieiddia gaed,
'Nawr yn gorwedd yn ei waed;
Nid oes neb all fy jachau,
Concro'm pechod, maddeu mai;
Ond a roddodd gadarn lef
Rhwng y ddaear fawr a'r Nef.

4 Fe fu'n hongian ar y pren,
Fe ddiffoddodd lid y nen,
Fe ddioddefodd hoelion dur
Trwy ei gnawd ar groesbren îr,
Nid oes uwch y nen ond ef,
Gliria'm ffordd i ganol Nef.

5 Ti wnai fyddo yn dy fryd,
'Does a'th rwystra yn y Byd;
Cadarn, cadarn yw dy law,
Gweithio yma, gweithio draw;
Daear fawr a Nef yn un
It' fy'n cwympo yn gytun.

6 Rhoffyn *Saron* tecca ei ddawn,
Seren forau ddifglair jawn,
Sydd yn arwain hyfryd wawr,
Trwy'r anialwch dyrys mawr,
Yn goleuo'r llwybr maith,
Tua'r Wlad o fel a llaeth.

7 Tyr'd o 'mlaen trwy 'r tywyll nos,
Dwg fi tros bob anial ffos;
Dal fi'r lan, o nad fi lawr,
Serth yw'r graig mae'r cwymp yn fawr,
'Nol fy nghlwyfo 'does Jachad,
Ond yn unig yn dy waed.

8 O bydd im' yn nerth bob pryd,
Yn holl gyfyngderau'r byd;
Nad fy yfbryd fyrthio lawr,
Wrth wynebu Angeu dewr;
Cadw yn dy fynwes gu,
F'enaid yn y frwydr ddu.

HYMN

# HYMN LXXXV.

*Ar yr un Mesur.*

1 DYma'r tlawd, a'r llesga erioed,
Fethodd dilyn ol dy droed;
Llwybrau pur yw'th lwybrau di,
Oll yn sanctaidd oll yn gu,
Rhaid fy ngolchi'n hyfryd wyn,
Cyn y teithiwi'r llwybr hyn.

2 P'odd ger bron dy orsedd fawr
Gallaf dd'od, rwi'n ofni'r awr,
Golch f'euogrwydd yn dy wa'd,
Bodd bob bai, rho im' Jachad,
Yno deuaf ger dy fron
Heb ddychrynu gan y don.

3 Miloedd o feddyliau gau
Yn fy nghalon sy'n parhau;
Nes dwi'n treulio'm dyddiau gid,
Yn gystuddiol yn y Byd;
Neb ond anfeidroldeb yw
Ddeil fy Enaid gwan yn fyw.

4 Mae 'nghymmalau fel ei gid,
Gan fy ofnau'n curo 'nghyd;
Angau, Uffern fawr, a'r bedd,
Llid y Barnwr mawr, a'i wedd
Sydd yn gwneud im' lwfrhau,
Daeth dy amser drugarhau.

5 Danfon imi'r olew gwir,
Ysbryd y llawenydd pur;
Dangos dy fod im' yn Dduw,
Gwella'r esgyrn wnest yn friw;
Prawf o'th hedd rho im' ar frys,
Ffrwythau 'th waed, a ffrwythau 'th chwys.

6 Mae nghydwybod forau a nawn
Yn fy marnu'n euog jawn;
Gwaeddi maes mae'r ddeddf yn hy,
Na faddeuwyd imi fry;

O cy-

O cyhoedda'r dawel hedd,
Jesu'r ochor yma i'r bedd.

7 Dwed maddeuwyd iti'n lân,
D'anwireddau fawr a mân;
Nad anghredu gael ei le,
Ar orseddfa Brenhin Ne';
Tawl y Prynwyr oll i ma's,
Pura heddyw Deml Gras.

## HYMN LXXXVI.

*Ar yr un Mesur.*

1 'DOes gyffelyb iddo ef,
Ar y ddaear yn y nef;
Trech ei allu, trech ei ras,
Na dyfnderau Calon gas;
A'i ffyddlondeb sydd yn fwy,
Nag angeuol ddwyfol glwy.

2 Caned cenhedlaethau'r byd,
Am ei Enw mawr ynghyd;
Aed i gyrrau pella'r Ne',
*India*'r Dwyrain, *India*'r De';
Bloeddied moroedd gyda thir,
Ddyfnder Jechydwriaeth bur.

3 Na foed un dyn îs y rhôd,
Heb ddatseinio maes ei glôd;
Na foed neb îs awyr las,
Heb gael prawf o'th nefol ras;
Doed y ddaear fawr yn gron,
Yfent ddw'r y ffynnon hon.

4 Deffro f'Enaid edrych draw,
Gwel *Galfaria* bell gerllaw;
Daccw'r hoel, a'r biccell fain,
Daccw'r goron bigog ddrain;
'Nawr yn gorwedd ar ei ben,
Cryned daer a dued nen.

5 Wele f'Arglwydd sydd mewn poen,
Ffrynd trofeddwyr addfwyn Oen;

Poen i Angau, poen at wa'd,
Balm o *Gilead* ry jachad;
Ti Phyſygwr perffaith Dduw,
Geidw f'Enaid bach yn fyw.

6 O dy glwyfau rhed i maes
Afon ddwyfol loyw laes,
Sydd yn achub ſy'n jachau,
Myrddiwn o'r aflanaf rai;
Ac yn rhoddi cyflawn hedd,
I rai tlotta erioed eu gwedd.

7 Na foed dafan fyth o'r gwa'd,
Gollwyd ar *Galfaria*'n rhâd;
Fyn'd yn ofer, mwy ei brîs,
Na'r ffurfafen faith fe wîs,
Dyma'r tryſor mwya dryd,
Gwell na'r Nefoedd gwell na'r byd.

T E R

---

# Hyſbyſiad.

BOED Hyſbys i'r bobl ag ſydd am wybod ychydig ragor nag a wyddant eiſioes (can's am y rhai ſydd yn gwybod y ... yma, maent yn gymwys i fyned i Fyd arall i edrych a oes yno ryw beth na's gwyddant) fy mod ar fedr argraphu rhan yn rhagor o'r *Pantheologia*. — Heblaw fod yn anhardd rhoi heibio waith mor fuddiol at ddyſgu gwybodaeth, yn ei ganol, a bod yn druenus gadael y Cymro fyth yn ei hen dyb o feddwl nad oes yn un man o'r Byd, liw wyneb, dull ymddygiad, trefn gwiſgad, natur bwydydd, a diodydd, dull adeilad, marſiandaeth,

daeth, llywodraeth, cyfraith, na chrefydd chwaith, ond sydd *Ynghymru*; heb law hyn meddaf, mae amryw bobl ddeallus ag sydd am nabod gwledydd y Byd, Gwaith Duw trwy'r Byd, Eulunaddoliaeth y Byd, a Hanes Crefydd Crist yn y Byd, yr amrywiol Gyfeiliornadau, y Sectau, yr Erledigaethau, y Diwygiadau, y Merthyrdod gafodd y Grefydd hon, o Ddyddiau cynta ei Phlaniad hyd yn awr, yn fy nghymmell yn daer i fyn'd ag ef yn y blaen, ac nid oes braidd ddyn ystyriol, pwysig, ag sydd yn caru darllen, ac am ymhelaethu ei ddeall mewn hanesion, nad yw am gefnogi'r Gwaith; ond am ddynion pen ysgafnion, diddarllen, ag sydd yn cymmeryd y cwbl ar yr wyneb, nid wyf yn disgwil llai nad [illegible] arno fel rhyw [illegible], ond barnent fel y mynnont os caf fi fywyd tros ychydig amser, fe ry'r *Pantheologia* gam ymlaen, ac fe câr rhai, os dibrisia eraill èf. Ond yr wyf yn meddwl bod yn gallach wrth argraphu 'r hyn sydd yn ol o hono; sef peidio printio rhagor nag y dybiwyf allaf werthu ar fyr dro, a danfon allan werth Swllt ar unwaith; a mynnu enwau os gallaf eu cael, yr holl, neu y rhan [illegible] am danynt, a 6 cheiniog ymlaen H[illegible] yn Subscripsiwn, a'r llall wrth gael y [illegible] a dânfonent eu Henwau i mi ar frŷs. [illegible]wel.

# Ffarwel Weledig,

GROESAW

ANWELEDIG BETHAU.

NEU

Rhai HYMNAU o Fawl

I

# DDUW a'r OEN.

*Gan* W. WILLIAMS.

C172

CAERFYRDDIN,
Argraphwyd gan *J. Roſs*, yr unig Argraphydd yn y Parthau hyn, a ddugwyd i ſynu yn rheolaidd i'r Gelfyddyd honno. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau ar Lythyren dda, am brîs Gweddaidd.

M.DCC.LXIII.

RHAI

# HYMNAU O Fawl

I

# DDUW a'r OEN, &c.

## HYMN I. *Mawl am Iechydwriaeth.*

1 RWi'n dy garu er na's gwelais;
Mae dy gariad fel y tân,
Nis gall nwydau cryfa f'natur
Sefyll mymryn bach o'th flaen;
Fflam angherddol, &c.
Ryw bryd ddifa'm forod yw.

2 Pêll uwch geiriau, pêll uwch deall,
Pêll uwch rhefwm gorau'r bŷd,
Yw cyrhaeddid perffaith gariad,
Pan ennyno yn fy mrŷd;
Nid o's tebig, &c.
Gras o fewn y Nef ei hun.

3 Rhaid im adel ei ddirgelion,
Hyfryd heb eu traethu gyd,
Am na's gallai, maent mor ddwfn
Nes im' dreiddio maes or bŷd:
Tragwyddoldeb, &c.
Mi gaf wel'd ei wreiddau maes.

4 Mi ga' iaethodd, mi gaf ddeall,
Mi gaf yno berffaith ras,
I gael ffeindio hen ddyfnderoedd
Pen *Calfaria* yn well i ma's:
Tyred wyntoedd, &c.
I gael chwythu'r nôs i bant.

5 Yno caf fi ddweid yr hanes
P'odd y dringodd eiddil gwan,
Trwy afonydd, a thros greigydd
Dyrus anial serth i'r lan:
Jesu ei hunan, &c.
Gaiff y clod trwy eitha'r Nêf.

6 Nid oes yno ddiwedd canu,
Nid oes yno ddiwedd clod,
Nid oes yno ddiwedd cofio
Pob cystuddiau ag fu'n bod;
Byth ni dderfydd, &c.
Canmawl Duw yn nhŷ fy nhad.

7 Dechreu canu, dechreu canmawl,
Ymhen mil o filoedd maith,
Jesu bydd y pererinion,
Hyfryd draw ar ben y daith;
Ni chair diwedd, &c.
Fyth ar sŵn y delyn aur.

## HYMN II. *Jesu ei hunan yn ddigon.*

1 GWyn a gwridog yw fy Arglwydd,
Gwyn a gwridog yw ei wêdd,
Brenhin y brenhinoedd ydyw
Ymma a thu draw i'r bêdd;
Mae dy degwch, &c.
Wedi'm hennill ar dy ol.

2 Cant ffarwel i bob peth arall
Rwyti'n ddigon mawr dy hun,
Derfydd nefoedd, derfydd daear,
Derfydd tegwch wyneb dŷn;
Sawl dy gaffo, &c.
Gaiff y cwbl oll yn un.

3 Sawl dy gaffo gaiff bleserau,
Pleser ymma îs y rhod,
Ei ddyfnderoedd ni ddeallodd
Cnawd na rheswm etto erioed;
O gad i mi, &c.
I mi yn fuan dy swynhau.

4 Paid a 'ngado i yn yr anial
Dyrus mawr wrthyf fy hun,
Rwyt ti nabod aml ofnau
A gwendidau natur dŷn;
Dal dy afel, &c.
Y mae'r gelyn mawr gerllaw.

5 Mae dy wedd yn drech na'r fyddyn,
O elynion mawr eu grym,
Nid oes yn y nef a'r ddaear
Saif o flaen dy wyneb ddim;
Gair o'th Enau, &c.
A wna'r tywyll nôs yn ddŷdd.

## HYMN III. *Gweddi.*

1 RHyw anifail wyf heb ddeall,
A rhyw eiddil llesg heb rym;
Tywyllwch dudew a ffieidd-dra
Nid os genni arall ddim;
Iechydwriaeth, &c.
Râd i mi neu golli'r nêf.

2 Torr fy nghalon galed gyndyn,
Torr hi nawr yn ddrylliau mân;
Torr bod rhwystr fydd yn attal
I ti 'th hunan dd'od ymlaen;
Eistedd ymma, &c.
A'th deyrwialen yn dy law.

3 Ti agoraist di fy llygaid
I gael gweld fy nwfn glwy,
P'odd gall ymffrost p'odd gall hunan
Lechu yn fy nghalon mwy?
Rho dy allu, &c.
Cadarn gyda goleu'r dydd.

4 Pam rwi'n temptio Duw wi'n garu?
Duw a'm carodd cyn fy mod?
Ble creadur mwy gwrthnyfig
Ellir ffeindio îs y rhod?
Maddeu, maddeu, &c.
Trwy it' faddeu byddai byw.

5 Er it' wifgo corph am danat,
Er it' farw ar y pren,
Er it' agor ffordd o'r ddaear
Trwy dy gnawd i'r nefoedd wen;
Dim ond pechod, &c.
Wyt ti etto ynwi yn gael.

## HYMN IV. *Gras wedi amlhau.*

1 NID oes munud fach o'm bywyd,
Na fuoft ARGLWYDD i mi yn-dda;
Ti'm gwaredaift fil o weithiau
Ymma ac accw rhag rhyw bla,
Fe'm hachubwyd, &c.
Am it' fefyll o fy mhlaid.

2 Dengmil lawn o gyfyngderau
Ac o rwydau cyfrwys fwy,
Fy gan Satan i fy maglu
Cwmp'fwn innau iddynt hwy;
Ti dy hunan, &c.
Oedd am daliodd i i'r lan.

3 Mi dueddais gant o weithiau
O ochor fy ngelynion cas,
Gwell oedd genni golli'r frwydr,
Nag oedd genni gario'r maes;
Ti'm hachubaift, &c.
Pan rown innau'n mynd i'r tân.

4 Mi wrthnebais bur ragluniaeth
Oedd yn dodi'm traed yn rhydd;
Gwell oedd genni gadw mhechod,
Pa mor felus bara cudd;
O fy anfodd, &c.
Deu'ft am beiau i tan fy nhraed.

5 Rwyt ti 'n drech na'm calon galed
Rwyt ti 'n drech na'm pechod cas ;
Ti wnai i'm hanwyl chwant a minnau
Pryd y mynnoſt gwympo 'maes ;
Croeſa mhechod, &c.
Croeſa'r peth w'i am ſwynhau.

6 Dy ddoethineb a dy allu,
Sydd yn abal torri lawr ;
Dryſu, mwrddro, a newynu
'R pennaf un o'm meiau mawr ;
Gwna i mi ganu, &c.
Concrwyd gelyn ſwy nar byd.

## HYMN V. *Yr Arglwydd yw ſy Nerth.*

1 CYmmer IESU fi ſel ydwyf
Fyth ni allai fod yn well ;
Dy allu di a'm gwna i yn agos
Fy ewyllys i yw myn'd ymhell ;
Yn dy glwyfau, &c.
Byddai'n unig fyth yn iach.

2 Mi ddyffygiais teithio'r craſdir
Dyrus anial wrthyf fy hun,
Ac mi fethais a choncwero
O'm gelynion lleiaf un ;
Mae dy enw, &c.
Yn abal rhoddi'r cryfa i ffoi.

3 Gwaed dy groes ſyn codi ſynu,
'R eiddil yn goncwerwr mawr,
Gwaed dy groes ſydd yn daroſtwng
Cewri cedyrn ſyrdd i lawr ;
Gad im' deimlo, &c.
Awel o *Galſaria* ſryn.

4 Mwy yw dy eiriau ar y croes bren
Geiriau gwerthfawr, geiriau drŷd,

Mwy

Mwy yw'r ſylafft leia o honynt,
Na'm holl ddyledſwyddau i gyd;
'Drychaf yno, &c.
Yno mae ſy nerth a 'ngrym.

5 Clywed dy ruddſannau chwerwon
Wnaiff im henaid lawenhau,
Teimlo'th gariad wna i'm gelynion
Cyndeirioccaf lwfrhau;
Yna, yna, &c.
Mae ſy nhrigſa ſyth i ſod.

## HYMN VI. *Cariad Duw fflam angherddol.*

1 RWi'n dy garu, ti ai gwyddoſt,
Rwi'n dy garu ſ'ARGLWYDD mawr,
Rwi'n dy garu yn anwylach
Na'r gwrthddrychiau ar y llawr;
Darllen ymma, &c.
Ar ſy YSPRYD waith dy law.

2 Nid oedd dim o ſewn y ddaear,
Nid oedd dim o ſewn y nêf,
Nid oedd bys wnai'r ſath adeiliad
Unig ond ei ſyſedd ef:
Dymuniadau, &c.
Y'nt a ddaeth o ſynwes Duw.

3 Fflam o dân o ganol nefoedd
Yw ddeſcynnodd ymma i'r bŷd,
Tân i loſgi'm natur gyndyn
Tân i lanw'm ehang frŷd;
Hwn ni's diffodd, &c.
Tra parhao Duw mewn bod.

4 F'enaid gwag oedd gynt yn crwydro
Weithiau i'r dwyrain weithiau i'r de',
Nid oedd dim ai gwnae e'n eſmwyth
'N unig ond ei gariad e';
Anfeidroldeb, &c.
Allſai'm llanw i oll yn llyn.

5. Ond

5 Ond bai 'th fod di'n lân dy hunan
Arglwydd i mi yn ddigon mawr,
Mi addolwn ac a garwn
Greaduriaid gwag y llawr;
Dy 'rdderchawgrwydd, &c.
Barodd im' dd'od ar dy ol.

6 B'le ennynodd fy nymuniad?
B'le cas fy ferchiadau i dân?
B'le daeth hiraeth im' am bethau
Oeddwn yn gafau o'r blaen?
Iesu, Iesu, &c.
'R cwbl ydyw gwaith dy law.

7 Dymuniadau pêll eu hamcan
W'i yn ei deimlo ynw'i ynglun,
Daccw'r ffynnon bur tarddafant
Anfeidroldeb mawr ei hun:
Dyma 'ngobaith, &c.
Bellach byth cant i barhau.

## HYMN VII. *Duw gwir wrthddrych cariad.*

1 NID o's ar y ddaear lydan
Ond breuddwydion gwag i gyd,
Twyll fydd ymma, twyll fydd accw,
Yn cyttuno dynnu mryd;
Mi grwydrafwn, &c.
Rhwng gwag ddelwau ond bai ti?

2 Aml yw gwrthddrychiau teimlad,
Agos y'nt im' natur wan;
A hwy'm denent heddyw i'w caru
Ond bai ti fyn nal i i'r lan;
Dened, dened, &c.
Anweledig bethau mryd.

3 Ar fy neheu mae teganau,
Tegan ar fy affwy law,

Pleffer

Pleſſer hyfryd melus ymma
Rhwyſg ac ardderchawgrwydd draw;
Dangos i mi, &c.
'Th fod dy hun yn well nag oll.

4 Ty'n fy llygaid n'ad hwy wibio,
'D yw gwrthddrychiau teimlad ddim;
Gradd o'th gariad ſydd fwy bwyſau
Gradd o'th gariad ſydd fwy rym;
Mae dy degwch, &c.
Uwch y welwyd îs y nef.

5 Ffarwel, ffarwel i bob pleſſer
Welodd dyn o tan y rhod,
Ffarwel i bob rhyw deganau
Ag feddyliodd neb i fod;
Digon, digon, &c.
Digon byth ſydd yn fy Nuw.

## HYMN VIII. *Gras yn gorchfygu.*

1 LLwch wyf fi, o'r llwch y daethym,
Pryf yw mrawd, y ddae'r yw mam,
Etto rwyf fi'n mofyn teyrnas,
Ddiſigledig bur ddinam;
Pryf y ddaear, &c.
A ddaw hwnnw mewn i'r nef.

2 Dof, mi ddof, trwy'r anial garw,
Dof er gwaetha'r moroedd glas;
Dof trwy'r cenllyſg a'r temeſtloedd,
Sydd yn curo ar fy ngras;
Am mae cadarn, &c.
Yw'r hwn ydwyf yn ei gol.

3 Fe ennynwyd ynwi fflammiau
Tân mor hyfryd, tân mor grŷ,
Nid o'r ddaear daeth ei wreiddyn
Cariad pur y nefoedd frŷ;
Awel beraidd, &c.
O ſynyddau hyfryd ras.

4 Chwi

4 Chwi angylion sydd yn edrych
Ar ei wyneb gwridog gwyn,
Traethwch i mi p'odd dechreuodd
Fflam mor berffaith bur a hyn;
Nef ei hunan, &c.
'Nynnodd ynwi ei helfen bur.

5 Fe 'rhwn roddodd i mi ana'l
Eilwaith roddodd i mi ras,
Ac a beru pan dihango'm
Hana'l llesg o'm ffroenau ma's:
Neb ond JESU, &c.
Wnaethai'r marw hen yn fyw.

## HYMN IX. *Anian gras yn diystyru pob peth tu ymma i Dduw.*

1 DYNA pam rwi yn hiraethu
Beunydd tu a'r nefoedd fry,
Am oddiyno yr anadlwyd
Bywyd pur im henaid i:
P'odd gorphwysaf, &c.
Rhaid im' Hysbryd fynd ir lan.

2 Anian nef a dyr trwy rwystrau,
Anian nef a dyr trwy'r tân;
Ceidw ei gyrfa trwy'r creadur
At ei gwreiddyn pur ymlaen:
Heibio i degwch, &c.
At y tegwch gwir ei hun.

3 Nid yw harddwch maith y ddaear,
Harddwch o amrywiol ryw,
Tegwch disglair y ffurfafen
Ddim yn ochor IESU 'm DUW:
Mae'n diflannu, &c.
'R holl greadigaeth wrth dy glun.

4 Dirmigedig yw gogoniant
Oll a welais i etto yn un,

Pan

Pan edrychwi ar ogoniant
  Fy nghreawdwr mawr yn ddyn;
Diddim, diddim, &c.
Oll a enwir ond efe.

5 O na allwn gau fy llygaid
  Rhag pob gwrthddrych yn y bŷd,
Ymddangosent fel y mynnont
  Er mwyn ceisio denu mrŷd;
Mae fy mhlesser, &c.
Uwch y ser ar ddeheu 'nhad.

## HYMN X. *Gwlad yr addewid.*

1 NID o's dim erioed a welwyd,
  Nid o's dim a deimlodd llaw;
Dim a glywad son am dano,
  O eitha 'r de i'r dwyrain draw;
Yn ddigohol, &c.
Wneid fy Enaid llesg yn llawn.

2 O na ddeu'r amseroedd bellach
  I mi gael mwynhau o hyd,
Pethau leinw fy nymuniad
  Pethau nad y'nt yn y bŷd;
Ni ddaw'r ddaear, &c.
Fawr a minnau fyth yn un.

3 Mae fy Enaid yn ehedeg,
  Ar adenydd ysgafn ffydd,
Ac yn syllu trwy'r ehangder
  Uchel maith at bethau fydd;
Nawr mi wela, &c.
Wlad o hêdd yn agosau.

4 Rhwng cymylau duon tywyll
  Gwelai i draw yr hyfryd wlad;
Mae fy ffydd yn llefain allan,
  Daccw o'r diwedd dŷ fy nhad;
Digon, digon, &c.
Mi anghofia 'ngwae a 'mhoen.

5 Y mae

5 Y mae anghrediniaeth gadarn
Pan bo'r goleuni yn mynd yn wan,
Yna yn haeru yn ſy wyneb
Rhwyſtra'r tywyllwch ſi i'r lan;
Nid yw'r glofn, &c.
Dan ymhell ynghanol nôs.

6 O gwaſgerwch dew gymylau,
I'r addewid rhoddwch le;
Nid i'r ddaear ymma nganwyd,
Tragwyddoldeb yw ty lle;
'Nol tywyllwch, &c.
Cod o'r diwedd foreu wawr.

## HYMN XI. *Nêf y Nefoedd.*

1 O'S yw tegwch dy wyneb ymma
Yn rhoi myrdd i'th garu nawr,
Beth y wna dy degwch hyfryd
Yna yn nhragwyddoldeb mawr?
Nêf y nefoedd, &c.
Dy ryfedda fyth heb drai.

2 Pa fath uwchder rhêd ſy nghariad?
Pa fath ſyndod y pryd hyn?
Pan y gwelw'i dy ogoniant
Perffaith llawn ar *Seion* fryn?
Anfeidroldeb, &c.
O bob tegwch maith yn un.

3 Pa feddyliau uwch eu deall
Gaf fi yno ynnof ſy hun?
Wrth yſtyried bod y Duwdod
Perffaith pur a minnau yn un?
Dyma gwlwm, &c.
Nid o's iaith a'i dod e' maes.

4 Cwlwm wnaed yn nhragwyddoldeb
Siccr cadarn mawr ei rym,
Na's gall miliwn o flynyddau
Ei dorri, neu ei ddadrys ddim;
Gwna, ſe beru, &c.
Tra parhao'm Duw mewn bod.

5 Clymmau natur oll a friwir
A'i chyfreithiau hi ant yn ddim;
Ond fy undeb i a'r nefoedd
Sydd yn llawer mwy ei rym;
Digyfnew'd, digyfnew'd, &c.
Yw yn gymmwys fel fy Nuw.

6 Ni's gall einios, ni's gall angeu,
Ni's gall angel cadarn crŷ,
Cherubim nag auderdodau
Na holl luoedd nefoedd frŷ;
I'm gwahanu, &c.
Fythoedd fyth o'i gariad e'.

## HYMN XII. *Concweſt y Groes.*

I

DEwch, gwelwch y preſeb a choſiwch yr awr,
Eſcynnodd Creawdwr y nefoedd i lawr;
'Doed ſaint, a cherubiaid a chanent yn un
I'w crêwrhwy wiſgo naturiaeth y dyn.

2

Cymerodd ſabandod, cymerodd ein poen,
Fe ddug ein doluriau mor wirion a'r OEN;
Diöddefod ein tlodi, gorchfygodd ein câs,
Fe aeth an calonnau o'r ddaear i mâ's.

3

Dioſgwyd ei wiſgoedd, e brenhin y ne',
O watwar rhowd mantell o ſcarlet i'w lle,
Rhowd iddo'n deyrnwialen, ryw gorſen las ſain',
Fe wiſgodd ei goryn ef goron o ddrain.

4

Fe holwyd e'n galed ni's cawd ynddo ſai,
Yn eirwir yn ffyddlon rodd fyth yn parhau,
Fe hoeliwyd eu ddwlo, fe hoeliwyd ei draed,
Fe redodd o'i yſtlys ef ddwfr a gwaed.

5

yn awr fe orphennodd fe grymodd ei ben,
Mae nes yn perch'nogi'r holl ddaear ar nen,
Mae'r meirw'n cyfodi, fe goncrodd y bêdd,
Gwnaeth ſeibion digofaint yn ſeibion o hêdd.

6 Mae

6

Mae angeu mewn cadwyn ni's gall ef roi clwy,
Dos gelyn all bostio ei goncwest byth mwy ;
Ni all Satan er cryfed er colled yw ef,
I rwystro credadyn y llesgaf i'r nêf.

## HYMN XIII. *Neu yr ail ran.*

1

FE hoeliwyd y gyfraith pan duodd y nen,
A haeddiant fy JESU yn sicer wrth bren ;
Ni's gall hi gondemnio er cymmaint ei chri,
Fe dorrwyd ei gallu ar *Galfari* frŷ.

2

Cas pechod fath archoll ar groesbren yn awr,
Er cymmaint ei ddichell na's gall efe fawr ;
Fe glwyfodd fy IESU, ac yntau ga's glwy
Na's gall ef ddifetha fy enaid i mwy.

3

Wel' bellach mi greda er nad wyf ond gwan,
Mi 'drychaf o ddyfnder y ddaer i'r lan ;
Fe wnaethpwyd o'r diwedd ffordd newydd a byw,
O gauol tywyllwch i fynwes fy NUW.

4

Rho nerth i mi 'madel a thywyllwch y nôs,
A cherddded yn wrol 'r hyd angeu dy groes,
Gwna i mi ymddifyrru oddiymma i'r bêdd,
Am ddyfnder dy gariad a dyfnder dy hêdd.

5

Nàd i mi ym deimlo achystudd a loes,
Ond cerdded tan ganu am angeu dy groes,
Heb edrych o gwmpas, na gwibio o un tu,
Ond gwrando a disgu'r caniadau fy frŷ.

## HYMN XIV. *Neu y drydedd ran.*

1

FE'm llyngcwyd i fynu mewn fyndod i gŷd,
Wrth feddwl am angeu Iechawdwr y bŷd,
Tryforau o gariad tryforau o râs :
Na fedr angylion eu mesur hwy mâ'e.

2

O henffych ddirgelion anfeidrol eu rhyw!
A ddaeth i'r goleuni trwy glwyfau fy NUW;
Ni fydd tragwyddoldeb ddim gormyd ei hun,
I chwilio dyfnderoedd fy ARGLWYDD yn ddŷn.

3

Y forydoedd rhai cyfiawn ddihangodd o'r bŷd,
A hyn fy'n di fyrru eu hunain o hŷd,
Gan edrych i'r orfedd ddifgleirwen o'i blaen,
A dyblu fyth eilwaith, ac eilwaith eu cân.

4

Ei can fydd am gariad yn gwared y bŷd,
Am undeb angylion a feintiau ynghŷd,
Am ddeniau'r MESIAH am faithder ei loes,
Ac am anfeidroldeb holl bwrcas y groes.

5

" Y nerth ar gogoniant ar gallu ar clôd,
" Fo ir hwn fydd yr awrhon ar hwn fydd erioed;
" I'r *Alpha*, *Omega*, ir Drindod yn un,
" I'r OEN a fu farw tros bechod y dŷn.

6

" 'Does neb ar y ddaear ni ddaw ac ni fu,
" Yn deilwng i dderbyn yr enw ond ti;
" Ti brynaist y cwbl ti a'i rhoddaist yn rhâd,
" Ti a'i prynaist a'th fywyd ti a'i prynaist a'th waed.

## HYMN XV. *Neu y bedwaredd ran.*

1

SER difglair y boreu wel' bellach na thewch,
Rhyfeddod a newydd ar fyrder chwi gewch;
Fe godiff plant dynion o'r ddaear yn fyw,
Cawn dra phlith a chwythau i ganmawl ein DUW.

2

Cawn weled ein HARGLWYDD heb glwyfau na briw
A gweled ein natur mewn undeb a'n DUW:
Y Duwdod yn Ddrindod a'r Drindod yn un,
Uwch cyrrhaedd pob deall ymherfon y dŷn.

3

Fe ddaw i'n meddyliau ei wradwydd i gŷd,
Pob loefau ddioddefodd am bechod y bŷd;

Ad-

Adgofio ei archollion a'i gystudd erio'd,
A wna ini ei garu tro nefoedd yn bôd.

4

Ni gofiwn y croesbren o newydd pryd hyn,
Ni gofiwn *Golgotha* a *Chalfari* fryn;
Ni gofiwn yr hoelion ac archoll y rhain,
A phigau plethedig y goron o ddrain.

5

Ni gofiwn y bustl ar Finegr-sûr,
Rowd iddo fe i'w ufed tan hoelion o ddûr;
Yn nyfynder ei boenau ni gofiwn ei gri,
'Dad maddeu ni's gwyddant hwy pwy ydwy fi.

6

O ddedwydd ddioddefaint cysuron y bŷd!
Ddechreuodd ddilifo ar groesbren i gŷd;
Gwaed seliodd ein bywyd gwaed brynodd y ne',
Gwaed rwymodd priodas fyth rhyngom ag e'.

## HYMN XVI. *Yn yr Arglwydd mae fy nerth.*

1 Y Mae'm nerth i yn deffygio
Ofni moroedd mawr o'm blaen,
Llynnoedd ac afonydd dyfnion,
O mynyddau maith o dân;
Grâs diderfyn, &c.
Ddeil y gwan heb ofni dim.

2 Ti wnai wrthiau o's bydd achos
Cyn yr clo'r llesg i lawr,
Mae dy enw er y cynfyd
Wedi swnnio maes yn fawr,
Torr fy ofnau, &c.
Mae fy ofnau yn waeth na'r tân.

3 Tueddiadau drwg fy natur.
Sy'n rhoi i fy ofnau rym,
Ond bai'r tywll sydd yn fy ewyllys
Ni wnai'm ofnau i mi ddim;
Trwy bob arswyd, &c.
Yn dy law mi gerdda mlaen.

4 Gwel'd fy meiau fel y gwyntoedd
Oll yn rythro arnai yn un,
Rhai'n fwy nerthol, rhai'n fwy cyfrwys
Rhai yn ficcrach ynwi nglun:
Mhechod pennaf, &c.
Gwymp mewn mynyd wrth dy air.

5 Pan y gwelwi neb a'th bobl
Trwy demptafiwn pleffer gau,
Wedi colli eu gafel arnat
Ac yn awr yn llwfrhau;
Swn y daran, &c.
W'i yn ei ofni draw o bêll.

6 Foru yw'm diwrnod innau
Foru medd fy enaid gwan,
Lawr i ddwylo Saul y fyrthiaf
Oni ddeli di fi i'r lan;
B'le mae'r gallu, &c.
Sydd yn arfer trugarhau?

## HYMN XVII. *Neu yr ail ran.*

1 F'Enaid egwan paid ag ofni
'Dyw dy elynion bob yr un,
Ond rhai eifioes wedi eu conc'ro
Gan a wifgodd natur dŷn;
Fe fynn gweled, &c.
Pob rhyw elyn tan fy nhraed.

2 Nid all Satan a'i holl allu
Yfpryd cyfrwys mawr ei rym,
Am ei fod o fewn y gadwyn
Heb ei gennad wneuthur dim;
Hollalluog, &c.
Ydyw enw mawr fy Nuw.

3 Pam yr ofnau meiau mawrion,
Trymmach ydyw marwol glwy,
Mwy yw gair o enau f' Arglwydd
Na mwrddiwnau o honynt hwy;
Gwna mi greda, &c.
Rhued mor, terfyfged tir.

4 Heddyw nid a cynta' i minnau
Lynnoedd dyfnion fyned trwy,
Cant rhyfeddod im' fy hunan
Fod yn awr y man y rwi;
Mi af etto, &c.
Trwy bob rhwyftrau yn fy Nuw.

5 Mi ga' deimlo chwant yn colli
Cyn yr clo'm haul i lawr;
Mi gaf flino at fy mhechod
Cyn y codo'r foreu wawr;
Rwyf yn fodlon, &c.
Rhwng y faethau nes del dydd.

6 Gwaith y nefoedd yw diodde
Ynwi nwydau croes eu rhyw,
Cennad Satan i'm cernodio
Ac i'm cadw i byth yn fyw,
Grâs berffeiddir, &c.
Yna pan b'wi leia 'ngrym.

7 Swmbwl yn fy ngnawd adewid
Yw i'm cadwi yn ddihun;
Dolur ddoe, a dolur heddyw
Gai oddiwrtho tra fo 'nglŷn;
Goruwchafiaeth, &c.
Fŷdd yn hyfryd pan y del.

## HYMN XVIII. *Nefoedd.*

1 NAwr rwi'n gwel'd yr ardal hyfryd,
Hên artrefle fy anwylyd;
Gwlad lle mae pob rhyw gyfuron,
Yn llifeirio fel yr afon.

2 Ffarwel bellach hên bleferau,
Dwyllodd fy Yfbryd fîl o weithiau;
Nawr rwi wedi ffeindio hawddfyd,
Nad oes ynddo râdd o ofyd.

3 Mi g'es berl gwell nag o'r *India*,
Nêf a ddaear fyth na phrifia,

Iesu

Iesu ai dryfor dyna ei fylwedd,
Nêf y nefoedd yn y diwedd.

4 Fe ddangofodd i mi yn oleu,
Fod fy mhechod wedi faddeu,
Ac ca'i nerth i wir goncwero,
Pob rhyw elyn fy'n fy mlino.

5 Er bod Satan hên yn barod,
Heddyw i foftio ei faith awdurdod;
Ond fe droir ei holl orfoledd,
I mi'm goncweft yn y diwedd.

6 Fe ddaw'r dydd y caf fi ganu,
Concweft bai oedd yn fy maeddu,
*Haleluia* nefol hyfryd
Diwedd pechu, diwedd gofid.

7 Blwyddau hirion o ryfela,
Yn oruwchafiaeth a derfyna;
Fe dry galar am bob beiau,
Yn *Hofanna* ond ei maddeu.

## HYMN XIX. *Neu yr ail ran.*

1 F'Enaid cred, anghofia 'th ofid,
Edrych i'r ardalodd hyfryd;
Hêd o'r bŷd fy mron o'th orfod,
Y mae gwleddoedd i ti 'n barod.

2 D'accw'r gwfedydd hyfryd helaeth,
Roddwyd i mi yn etifeddiaeth;
Lle mae cariad pur yn llifo,
Tros ardaloedd grâs heb flino.

3 D'accw'r wlad caf fi deyrnafu,
Gyd a'm hanwyl brynwr Iesu,
Gwledda o'i gariad, gwel'd ei wyneb,
Draw i derfyn tragwyddoldeb.

4 O na fedrwn nawr i ddringad,
Hanner gynted a'm dymuniad;
Mi awn gyda'r awel hyfryd,
Maes o'r bŷd i dir y bywyd.

5 Rwyf fi'n clywed myrdd o feintiau,
Nawr yn cwyro eu telynau,
Ac yn taro ar *Hofanna*,
Dechreu *Anthem* pen *Calfaria*.

6 Deng mîl o delynau'n canlyn,
Cân heb ddechreu, cân heb derfyn;
Y Cerubiaid gyda'r feintiau,
Yr un fylwedd eu caniadau.

7 Minnau gaf fod yn ei cwmp'ni,
Cyn pen gronyn yno 'n canu,
Edrych gyda hwy yn wyneb,
Difglair Brenhin tragwyddoldeb.

## HYMN XX.

1

WEl' f'enaid c'od fefydla 'th wammal fryd,
Mae heibio 'n myn'd bleferau penna'r bŷd;
O dring i fynu, ac anghofia nawr,
Bob peth a eilw'r ddaear ymma fawr.

2

Draw, draw, ymhell tu hwnt i'r dwfn fêdd,
Maeth 'th gyffur oll dy bleffer a dy hêdd;
Maeth Iesu yno, fe ei hunan yw
'R cwbl a feddi yn farw a byw.

3

Nid o's dim trai nid o's dim eifiau'n bôd,
O neb rhyw beth a enwir îs y rhôd;
Mae nêf a ddaear wrthyf ynglun,
Er pan y rhoddaift i mi gynt dy hun.

4

Ffarwel mi af mwy tu'ar wlad o hêdd,
Mi anturia 'mlaen er dychryniadau'r bêdd;
Mi wela mriod pur addfwynaf draw,
Ynghyfgod angeu ar fy neheulaw.

5

Wel' tyr'd ymlaen alluoedd uffern faith,
Rwi 'r awr hon bron debennu ar fy nhaith;
D'wi ddim yn ofni 'ch faethau o un rhyw,
Tra fyddo gydaf un ag fydd yn Dduw.

6 Mae

6
Mae enw'm Iôr fel yſſol, nerth ol dân,
Dim tan y nêf ni ſefyff fyth o'i flaen ;
Y Iechydwriaeth werth fawroccaf ddrud,
Sy'n gwneuthur uffern i grynu ei gŷd.

## HYMN XXI. *Neu yr ail ran.*

1
O'R enwau gyd a roddir i fy NUW,
Hwnnw ei hun y gwerthfawroccaf yw,
Hwnnw a gafodd ef ar *Galſari*,
Pan y dioddefodd tros fy enaid i.

2
Wel', *Calſari* boed dy Enw tra fo bŷd,
A phan yr êl yn danllwyth gôch ei gŷd:
Boed iddo bara tra fo nêf y nêf,
Am i fy IESU farw arno ef.

3
Gerubiaid pûr derchafwch bellach glôd,
Yn llawer uwch nag can'ſoch etto erioed;
A cnyda'r awel rhoddwch yn awr,
Atſein eich geiriau i ninnan lawr.

4
Pe byddai'r nêf a'i lluoedd maith o'i bron,
Ynghyd a'r dorf ſydd a'r y ddaear hon ;
A chanu cydſain dragwyddol yn un,
Digon ni ſyddai i'r DUW mawr yn ddŷn.

5
Rho allu im fy NUW o hyn y maes,
I ddweid yn dda am dan dy anfeidrol râs,
Na byddo nages genni ymma mwy,
Ond ymhyfrydu yn dy farwol glwy.

6
*Hoſanna* byth y fo'ngwaſtadol gân,
*Hoſanna* i'r hwn am tynnodd i o'r tân,
*Hoſanna* hyfryd o'r ddaear i'r nen,
Tafod na thawed heb dd'wedyd *Amen.*

7

Fe ddarfu poen, fe ddarfu gofid mwy,
Ar *Galfari* 'r un awr concwerwyd hwy;
Torrwyd yr ofnau i lawr gantho ef,
Nid o's ond canu oddiymma i'r nêf.

## HYMN XXII. *Gweddi.*

I

O Dere fy anwylyd, fy Arglwydd yn ddŷn,
Prefwylia mewn teml a godaist dy hun;
Dy lais fy mor beraidd, mor hyfryd dy wêdd,
Dy olwg fy'n conc'ro marwolaeth a'r bêdd.

2

Ti wne'ft ymma adeiliad, trig ynddo dy hun,
Gwna nghalon fod wrthit bob amfer ynglŷn,
Na's gallo na phechod, na Satan, na'r bŷd,
Fyth fyth i wahanu'r hyn glymmaist ti nghŷd.

3

Ynghanol pob cyftudd rho i mi dy law,
Na's collwi mor llwybr tu ymma, tu draw,
Saf rhyngwi a'r gelyn bob brwydr a fŷdd,
Fel na bwyf i ofni ym mhoether y dŷdd.

4

O nad i mi gwympo nid ydwyf ond gwan,
Bydd rhyngwyf a'r faethau a chynnal fi'r lan;
Fe'th glwyfwyd di unwaith ar *Galfari* frŷ,
Oddiyno 'doed rhydddid yn unig i mi.

5

Ffoed ymmaith fy ofnau fintoedd diri,
Rho adfein maddeuant yn eglur i mi,
A dyfg i mi ganu caniadau o glôd,
Am farw ar groesbren tro 'm tafod mewn bôd.

6

Boed cof am y mynydd, boed caf am yr awr,
Daeth ffrydiau o yftlys fy Arglwydd i lawr;
Gwaed gwedi gymyfgu a dwfr ynghŷd,
Mwy gwerthfawr bob dafan o hono na'r bŷd.

7
Boed i mi 'n hyfrydwch o foreu hyd nôs,
I ganu am gariad a choncwest ei groes;
Gogoniant ei berson, rhinweddau pob grâs,
Trwy boenau ofnadwy yn ennill y ma's.

## HYMN XXIII. *Neu yr ail ran.*

1
MEwn anial rwi'n trigo dieithr yw'r wlâd,
Rwi'n mosyn ardaloedd a brynwyd a gwaed,
Cyfrwydda fy llwybr yn union i'r nê',
Heb ŵyro ar alswy, na gŵyro ar dde'.

2
Pho i mi 'r ddoethineb sydd ynnot ti 'n bôd,
Ni chollodd a'i meddodd y llwybr erioed;
Goleuni yd dy eiriau pob sylafft y sŷdd,
Yn gwneid y tywyllwch yn ganol y dŷdd.

3
Gad i mi gael heddwch y perl sy'n fwy drŷd,
Na meddiant holl *India* gorllewin i gŷd;
Mae gradd o dangnefedd fy Iesu mor fawr,
Fe bwysiff ei hunan y nefoedd a'r llawr.

4
Cyrwydro sydd chwerw mae cwympo'n gwneid briw
Lle goreu im' gerdded yn ochor fy Nuw,
Rwi'n ofni pob gŵyro mae'r g'lynion yn grŷ,
Dy ddilyn dy hunan sydd orau i mi.

5
Boed dy ysbryd i'm harwain trwy ddrysni mor fawr,
Gwlad seirph a scorpionau, a llewod yw'r llawr;
Fe'm brathir, fe'm clwyfir, fe'm gyrrir o'm lle,
Ond ddoi dir diddanwr a'm harwain i'r nê'.

6
Rwi'n ofni diodde, ac etto rwi'n hu,
I ddiodde pob gwradwydd yn agos i mi;
Dioddefir yn dy ochor er chwerwed yw rhain,
Yr hoelion âr wrmwd, a'r goron o ddrain.

## HYMN XXIV. *Jesu yn bob peth.*

1

O Nad i mi garu fy Jesu yn dy le,
Un gwrthddrych sy'n trigo o'r ddaear i'r ne;
Mae ynnot dy hunan bob tegwch ynghyd,
O uwchder y nefoedd i ddyfnder y bŷd.

2

Mae 'th nabod yn ddigon, dy ffeindio di maes,
Yw cyflawn ddymuniad pob nwyd a phob grâs,
Mae ynnot dy hunan drysorau mor fawr,
Dy gaffo ddiystyra ogoniant y llawr.

3

Tydi wi'n briodi, dy gael di dy hun,
Wna'm holl ddymuniadau i yn gyflawn bob un,
Darfydded fy ewyllys, darfydded fy ngrym,
Boed ymffrost am Iesu, neu ymffrost am ddim.

4

Dy orch'mynion boed felus a melus y boed,
Pob cymmal a redodd o'th enau di erioed;
Gwna im' garu dy eiriau a'u perchi o hyd,
Yn fwy na gorch'mynion brenhinoedd y bŷd.

5

Na fydded un pleser tan wybren y sy,
I dywyllu munudyn rhyngof a thydi;
Na dim rhyw eulunod o'r Dwyrain i'r De',
I wneuthur un cwmmwl fyth rhyngof a'r ne'.

6

Na fydded llawenydd trangcedig a ffol,
I dwyllo fy enaid un amser i'w ol;
'Tangnefedd, tangnefedd, pur gariad a hedd,
Fo'm gwleddoedd gwastadol nes myned i'm medd.

## HYMN XXV. *Gweddi.*

1 DYchwel Arglwydd i'th orphwysfa,
Pam y cuddi di wynebpryd?
Pwy hyfrydwch gaiff y rhei'ny
Sy'n dy garu yn y bŷd?

Poen a gofid o'r boreu-ddydd
Dû cymylog hyd yr hwyr,
Rhyw gyſtuddiau yn cyttuno,
'N llyn i'm digaloni 'n llwyr.

2 Colli 'th gariad yw pob colled,
Colli 'th heddwch yw pob gwae,
Fyth ni allai heb dy gwmp'ni
Ond och'neidio a llwfrhâu:
Tyr'd gan hynny tros fynyddau,
Tyr'd trwy 'fonydd, tyr'd trwy dân;
Dere ARGLWYDD etto atta'i
Fel y daethoſt ti o'r bla'n.

3 Do, mi haeddais fîl o weithiau
I ti ddelio a mi yn llyn,
Darfu'm calon dy ddiyſtyru,
Eilwaith 'nol it' faddeu hyn;
Na roed dy YSPRYD o honwi fynu
Er mae fy haeddiant cyfiawn yw;
Delia a mi fel pechadur,
Dangos dy hunan megis DUW.

4 Ti'm cofleidiaiſt yn dy freichiau,
Minnau es at eulunod câs,
Yno curodd fy ngelynion
Heb fy arbed ar fy ngrâs,
Yn y llŵch rwi 'nawr yn dyfod
Ac yn gorwedd wrth y bêdd,
Maddeu, maddeu yw fy ngweddi,
Gad im' etto wel'd dy wêdd.

## HYMN XXVI. *Neu yr ail ran.*

1 PA'Odd y gallai ddweid fydd ynwi?
Pwy all deall faint yw 'nghri?
Rwyf o'r cwbl yn ymddifad;
O's ymddifad o honot ti;
Aed fy ngweddi trwy'r cymylàu
Aed a minnau gyd a hi;
Nes im' gael maddeuant newydd,
A chael gwel'd dy wyneb cu.

2 Nid

2 Nid yw ngweddi, nid yw nagrau,
Nid yw fy addunedau ddim,
Ni wna mîl o ddyledſwyddau
Un rhyw bechod lai ei rym;
Cofiâ'r hwn fu ar *Galfaria*
Tan yr hoelion llymion main,
Gwel y waywffon, a'r gorſen,
Mantell goch ar goron ddrain.

3 Ac er mwyn y gwaed a gollwyd
Cymyſg dŵ'r o'i yſtlys e',
Tynn bob cwmmwl dudew tywyll
Ag ſydd rhyngwi nawr a'r ne',
Maddeu i mi feiau mawrion,
Beiau lawer fwy na rhi',
Dim ond edrych ar *Galfaria*,
Nid wrth edrych arnaf fi.

4 O's am bechod i'th wradwyddwyd,
Ac trywanwyd gwaywffon,
Nes gwneud archoll na anghofir
Tra fo nefoedd tan dy fron:
Gad i mi gael ffrwyth dy glwyfau,
Gad i mi gael rhîn dy waed,
Maddeu 'mhechod, gwel'd dy wyneb
Ti fy mhrynwr a fy nhâd.

5 Golchi'm henaid yn yr afon,
Gwneud yr euog brwnt yn lân,
Llanw nghalon oer ddigariad
O dy nefol hyfryd dân,
A chael rhan o bob rhinweddau
Ag ſydd ynnot ti dy hun,
Ddoe yn aflan wedi'm dychwel
Heddyw 'n berffaith ar dy lûn.

6 Fel bo'm dyddiau oll yn ganu
Nid yn alar fel mae nawr,
Cariad yn concwero'm henaid
Ac yn ſoddi ſŵn y llawr.
Ar adenydd pur yn ehedeg,
Trwy bob rhwyſtrau maith ymlaen,
Credu, caru, gorfoleddu,
Yn y dyfroedd mawr a'r tân.

## HYMN XXVII. *Gwaed y groes.*

1

YR afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr,
Yw gwraidd fy ngorfoledd a 'nghyfur i nawr;
*Calfaria* rows haeddiant, *Calfaria* rows hêdd,
*Calfaria* fy'n cadw agoriad y bêdd.

2

Mae angeu ei hunan, ei ofnau a'i loes,
Mewn cadwyn gadarnaf yn rhwym wrth dy groes;
Allweddau hen uffern ddychrynllyd eu gŷd,
Sy'n hongiau wrth yftlys Iachawdwr y byd.

3

'Doedd dim all'fai oftegu pob terfyfg a loes,
Cydwybod a'i dychryn ond angeu dy groes;
Can miloedd o ofnau oedd ynnwi 'n gyttun,
Nes clywed fod crêwr y ddaear yn ddyn.

4

Wel' bellach gad i mi roi ffarwel i'r bŷd,
Ffarwel i'w dryforau a'i bleffer ynghyd;
Un gorchwyl fydd genni fyth mwyach i gŷd,
Sef caru a chanu i Iachawdwr y bŷd.

5

Fy mywyd boed bellach yn fywyd o ffydd
Dy orch'mynion i'm henaid yn bleffer bob dydd,
Na boed genni bleffer byth bellach tr'wy byw,
Ond rodio ar y ddaear i foddio fy NUW.

## HYMN XXVIII. *Neu yr ail ran.*

1

TYnn fy enaid lluddiedig fy'n crwydro pob man
I orphwys yn llonydd o'r ddaear i'r lan;
O gwna na bwy'n medru byth byth lawenhau,
Mewn pethau fy'n darfod ond pethau i barhau.

2

Gogoniant y ddaear ei llwyddiant a'i dawn,
Ddifgleiria yn y boreu, ddiflana brydnhawn;
Mae tegwch y ddaear yn diangc o hŷd,
Ar bethau tragwyddol fefydla fy mryd.

Pleferau

3

Pleſerau heb gymyſg, pleſerau heb drai,
Pleſerau diddarfod w'i am gael fwynhau,
Pleſerau wna'r ddaear ſy'n uffern i rai,
I mi 'n orfoleddu, i mi 'n llawenhau.

4

Yngwleddoedd dy gariad a'th heddwch dilith
Gorphwyſed fy enaid lluddiedig i byth ;
Uwch dwndwr creadur, uwch cynwrf pob gwae,
Mewn gruddfan a galar o bûr lawenhau.

5

Tan gyſgod dy adain mi ddyſgaf y gân,
A ddyſgodd angylion ryw oeſoedd o'm blaen ;
I'r nêf ac i'r ddaear llawenydd ynghŷd,
Fe aned mewn preſeb Iachawdwr i bŷd.

6

Wel' rhedodd fy ngariad fel aſon i maes,
At brynwr addfwynaf cyfoethog ei râs,
Diflanwch wrthddrychiau aneirif ei rhi',
Mae Iesu ei hunan yn ddigon i mi.

## HYMN XXIX. *Nefoedd.*

1

EHengodd fy nghalon 'dwi'n deall pa fodd,
'Does dim ar y ddaear wna bellach fy modd,
F' yſbryd amcana ond hynny tr'wy byw,
At bethau tragwyddol yn mynwes fy Nuw.

2

Yr ardal mae'r dyrfa bwrcaſodd y gwaed,
Yn hyfryd yn edrych, yn wyneb fy nhâd,
Mil myrdd o delynau aur melyn eu gŷd,
Yn canu heb flino i brynwr y bŷd.

3

A heibio rai oriau, daw utgorn o'r ne',
Caf alwad o'r daear i ſymud fy lle,
Fe dorrir y carchar, a'm henaid yn rhydd,
Fe'm dugir i'r ardal mae'n waſtad yn ddydd.

4

Ac yno caf aros heb archoll na chlwy,
Mewn gwledydd heb ſtorom na chwmwl byth mwy;

Duw ofn na gofid na phechod i blith,
Trigolion fy ninas fanctteiddiol i byth.

5

Caf gyda'm hanwylyd deyrnafu mewn hêdd,
Ymhell uwch cyrrhaeddiad holl ddychryn y bêdd,
Cawn wifgo coronau filiwnau ynghyd,
A chanmawl fyth fythoedd Iachawdwr y bŷd.

## HYMN xxx. *Y wlad bell.*

1 O Fy enaid gorfoledda
Er mae triftwch fy ymma 'n llawn,
Edrych tros y bryniau mawrion,
I'r ardaloedd hyfryd iawn;
Uwch tymorol, &c.
Feddiant mae fy nhryfor drud.

2 Gwel tu hwnt i fyrdd i oefoedd,
Gwel happufrwydd maith y ne',
Edrych dengmil etto 'mhellach
Digyfnewid fyth yw e',
Tragwyddoldeb, &c.
Hwn fy'n eiddo im' fy hun.

3 'Rwyf yn edrych ar y cwbl,
Ag fydd yn y bydoedd draw,
Pethau pêll yn bethau agos
Pethau fu yn bethau ddaw;
Mor heb waelod, &c.
O bleferau ddaeth i'm rhan.

4 Nid o's terfyn ar fy ngobaith
Cyrrhaedd mae ymlaen o hyd;
Gyda'r Duwdod mae'n cydredeg,
Dyddiau'r ddau fy'n un ynghyd,
Anherfynol, &c.
Ydyw fy llawenydd mwy.

5 Anfeidroldeb maith ei hunan
Sydd yn awr yn eiddo fi,
Rhâd y ca's ei rhoddi i mi
Ar fynyddau *Calfari*;
Tyr'd yn fuan, &c.
Hyfryd hâf o berffaith hêdd.

## HYMN XXXI. *Duw ei hunan.*

1 DUW anfeidrol yw dy enw,
Llanw'r nefoedd, llanw'r bŷd,
Fy enaid innau fy'n dy olrhain
Trwy'r greadigaeth faith ei gŷd;
Ffaelu'th ffeindio, *&c.*
I'r cyflawnder fy' arnai chwant.

2 D'wed a ellir neffu attat,
D'wed a ellir dy fwynhau,
Heb un gorchgudd ar dy wyneb,
Nag un gŵg i'm llwfrhau;
Dymma'r nefoedd, *&c.*
W'i am gael tu ymma 'r bêdd.

3 Ffaelu 'rwyf fi a'th orddiwes,
Ffaelu dyfod i ti 'n lân,
Er fy mod i 'n gwel'd dy gamrau,
Perffaith hyfryd draw o'm blaen,
Tyred amfer, *&c.*
Na bo awr heb dy fwynhau.

4 Yn y man boft ti'n gartrefu,
Yno 'rwi inne am gŵyro 'm nyth,
Gwedd dy wyneb fydd fy nefoedd
Ymma ac oddiymma byth,
Nid o's bleffer, *&c.*
Tan yr haul gyflawna 'th le.

5 Dallu'm llygaid mae gwrthddrychiau,
Têg yr olwg yn y byd,
Salw iawn, gwag a difylwedd
Ond eu chwilio ynt eu gyd;
Diflas, diflas, *&c.*
I mi'r cwbl ond fy Nuw.

6 Duw wi'n mofyn, Duw wi 'n chwilio,
Duw raid i mi ffeindio maes,
Nid yw'r ddae'r yn cynnig i mi,
Ddim ond fy'n enynnu nghâs,
Pob gwrthddrychiau, *&c.*
Sydd yn wagedd wrth eu trin.

## HYMN XXXII. *Neu yr ail ran.*

1 FY nymuniad paid a gorphwys,
Ar un tegan îs y ne',
Etto erioed ni welodd llygad
Wrthddrych tebig iddo fe;
Cerdda rhagot, *&c.*
Rwyt ti bron a'i wir fwynhau.

2 Ffarwel, ffarwel oll wi'n weled,
Oll sydd ar y ddae'r yn fyw,
Gadewch i mi ond munudyn
Gael yn rhyw le gwrdd a' Nuw,
Dyna lanw, *&c.*
Nymuniadau oll yn un.

3 Pam mae'r cwmmwl yn dy orchguddio?
Pam mae'm Duw yn caru bôd,
Yn guddiedig i rhai hynny
Ac a'i carodd orau erio'd?
Gwna dy orsedd, *&c.*
I'r hwn brynodd gwaed yn rhydd.

4 Dy air a wnaeth y moroedd helaeth,
Dy air a wnaeth y ddaear fawr,
Dy air a greodd lû 'r ffurfafen
Sydd yn hongian uwch y llawr;
'Mysg a greaist, *&c.*
Dim cyffelyb it' dy hun.

5 Tyr'd yr hwn wyt yn hawddgarach,
Na'th greaduriaid maith ei rhi';
'Bryd y deui, gwnai dy drigfan
Bob munudyn gyda mi?
Dere yn fuan, *&c.*
ARGLWYDD at y sawl dy gâr.

6 O's nad wi'n dy garu 'n gywir,
Fy anwybodaeth yw ei gyd;
Chwilia gonglau maith fy nghalon
Pa le arall mae fy mryd.
'Rwi'n appelio, *&c.*
I'th wybodaeth fawr dy hun.

HYMN

## HYMN XXXIII. *Neu y drydedd ran.*

1 FE gynnigodd dyfroedd lawer,
  Dyfroedd dyfnion, mawr eu grym,
Oeri 'ngharíad tu ag attat
  Grâs mae'n debig ddiffodd ddim,
Rhan o'th natur, *&c.*
Yw wi'n deimlo ynwi fy hun.

2 Eisiau 'th wel'd yr w'i mor llwfr,
  Eisiau 'th wel'd yr w'i mor wan,
Golwg ar dy wyneb hyfryd
  G'od yr eiddil cloff i'r lan;
Dwfr bywiol, *&c.*
Ydwyt i'r lludiedig rai.

3 'Does gyffelybiaeth îs y nefoedd
  Ag yn gywir draetha maes,
Ddistaw, ddirgel, bur brofiadau
  Ac och'neidiau 'th nefol râs;
Mi wn ronyn, *&c.*
Wrth beth ydwyf beth a ddaw.

4 Y mae cyfoeth a gogoniant
  A pherth'nasau yn gyttun,
A phleserau o bob rhywiau
  'N colli eu henwau wrth dy glŷn,
I dy ganlyn, *&c.*
Mi gadewa oll yn ol.

5 Rhof ffarwel i'r holl greadigaeth,
  Ffarwel faesydd gwych eu rhyw;
Ffarwel deiau teg yr olwg;
  Ffarwel ddynion gorau 'n fyw;
Gwych gyfnewid, *&c.*
Duw ei hunan yn lle 'r bŷd.

6 Beth w'i gwaeth pe llyngcai 'r moroedd
  Ddaear ehang yn ei croth?
Beth w'i gwaeth pe deu gwaelodion
  Dyfroedd mawr yn berffaith noeth?
Beth yw colli, *&c.*
Mor a ddaear ond cael Duw?

## HYMN XXXIV. *Neu y bedwaredd ran.*

1 NID o's eisiau un creadur
    Yn bresennol lle bo'm Duw,
Mae e'n fwyd, y mae e'n ddiod,
    Nerth fy natur egwan yw;
Pob happusrwydd, &c.
Sydd yn aros ynddo ei hun.

2 Gyrrwch fi i eitha tywyllwch,
    Tu hwnt i derfyn oll sy'n bôd,
I ryw wagle dudew anial
    Na fu creadur ynddo erio'd;
Happus, happus. &c.
Fyddai yno gyda thi.

3 NI's gall dychryn, ni's gall ofnau,
    NI's gall pechod yn gyttun,
I gael effaith ar fy enaid,
    Pan y byddw'i wrth dy glŷn,
Ofer, ofer, &c.
Geisio'm cwrddid yn dy go'l.

4 Nid o's un man i mi'n artre,
    Nid o's trigfan o un rhyw,
Alla'i alw yn hyfrydwch
    I mi nawr ond mynwes Duw;
Yn ei fynwes, &c.
Mae fy naear i am nêf.

5 Galla'i fyw ymlith gelynion,
    Pan bo'm henaid yn dy go'l,
Sefai 'm hun yn wyneb llawer
    Ac heb ofn tynnu 'nol,
Dy gymdeithias, &c.
Unig ydyw'm nerth a'm grym.

## HYMN XXXV. *Ymofyniad.*

1 PWy gyfarwydda wael bererin
    Dd'od o'r anial maith i'r lan?
Sydd yn mofyn 'r hwn chwenycha
    'M henaid egwan yn mhob man,

Ni's

Ni's gall feinctiau, &c.
Nag angylion i mi ddim.

2 Mi ddymunwn wel'd yn rwygo
Holl gymylau du y nêf,
I bechadur weled gronyn
A'i ogoniant hyfryd ef;
O datguddia, &c.
I mi ran o'th enw mawr.

3 Rhan o'th degwch a wnai'n dywyll
Ddifglair bethau gwych y byd,
Is y nefoedd a ddiflanna
Yn ngoleuni dy wynebpryd;
Rhai munudau, &c.
Rho i mi brofi'r hyn fydd frŷ.

## HYMN XXXVI. *Cariad Crist.*

1

NI ganwn am gariad Creawdwr yn ddyn,
Ennynodd cyn oefoedd o fewn iddo ei hun;
Na chwilia na cherub, na feraph, na faint,
Na'i ddyfnder, na'i uwchder, na'i 'hangder ei faint.

2

Rhyfeddod angylion ynghanol y nêf,
Rhyfeddod galluoedd a thronau yw ef;
Deffygia'r ffurfafen a'i fêr o bob rhyw,
Cyn blin wyf i ganu am gariad fy Nuw.

3

B'le ARGLWYDD dechreuaf, pwy ochr, pwy dû?
Ai yn nhragwyddoldeb neu *Galfari* frŷ?
Diddechreu, diddiwedd, anfeidrol a rhâd,
Yw cariad a brynwyd a dim ond a gwaed.

4

Edrychwch ar gariad yn diodde pob gwae,
Trwy ddirmyg a gwradwydd fyth fyth yn parhau;
Yn profi o'r buftl a'r finegr fûr,
Yn llonydd tan hoelion, tan hoelion o ddûr.

5

Fy enaid gwel gariad yn fyw ar y pren,
Ac uffern yn methu daroftwng ei ben;

Er marw fy IESU, er hoelio fy NUW,
Fe barodd ei gariad trwy angeu yn fyw.

6

O rhyfedd ddoethineb, rhyfeddod ei hun!
A ffeindiai 'r fath foddion i brynu'r fath un;
Fy IESU yn marw, fy IESU oedd DDUW,
Yn marw ar groesbren i minnau gael byw.

## HYMN XXXVII. *Neu yr ail ran.*

1

HEn amfer arfaethodd i mi gael Iachâd,
Trwy 'm IESU i golli pob dafan o'i waed,
'Does gelyn îs nefoedd a ddennid mwy ddim,
Dioddefaint fy anwylyd byth bellach yw 'ngrym.

2

O gyfoeth diderfyn o gariad a grâs,
A redodd fel afon lifeiriol i maes;
Grâs danna i'r Deheu a'r Dwyrain or bron,
Fe nofia mwrddiwnau i'r bywyd yn hon.

3

Bydd canu am angeu tro nefoedd yn bôd,
Yr angeu creulona ddefeifiwyd erio'd;
Caiff cariad deyrnafu o'r ddaear i'r nen,
Y cariad ddioddefodd ei hoelio ar bren.

4

Dewch bellach angylion nid ych heb eich braint,
O farw ar groesbren e' brenhin y faint;
Na attaliwch ddim chwareu'ch telynau un prŷd,
Ond cenwch am gariad Iachawdwr y bŷd.

## HYMN XXXVIII. *Tragwyddoldeb.*

1 NID o's draw gyferbyn i mi,
Ddim ond tragwyddoldeb mawr,
Minnau'n morio tuag yno,
Nes nes atto bob yr awr;
Ffarwel bellach, &c.
Bob gwrthddrychiau îs y rhôd.

2 Yno mae fy holl dryforau,
A fy nhlyfau gwycha ei rhyw;

Yno mae fy addfwynaf Iesu,
Yno yn unig mae fy Nuw,
O ardaloedd, &c.
Yno mi gaf finnau dd'od!

3 Mae llawenydd yn fy nghalon,
Er bod ofnau yn fy nghnawd,
Gwrdd a barnwr byw a meirw
Iesu 'mrhynwr, Iesu 'mrawd,
Mae'n ardderchog, &c.
Etto annwyl yw i mi.

4 Y mae'r cariad fy'n fy nghalon,
Y mae'r fflam fy tan fy mron,
Yn concwero mîl o ofnau,
Ofnau'r farn y funud hon,
Trwy bob dychryn, &c.
Iesu, Iesu yw fy rhan.

5 Ni roi ngafael arno i fynu,
Doed ellyllon fyrdd ymlaen,
A bwgwthient i fy fuddo
Lawr yn nyfnder uffern dân ;
Wrth ei orfedd, &c.
Mi ymafaela am ei draed.

## HYMN XXXIX. *Neu yr ail ran.*

1 MAE fy meiau i uwch eu rhifo,
Yn cyttuno oll ynghyd ;
A fy ofnau i'm rhoi ammeu
Fyth na welai dy wynebpryd ;
Etto credu, &c.
Credu rwyf tan lwfrhâu.

2 Fe rowd i mi ddymuniadau
Nad o's dim o fewn y byd,
Yn y Dwyrain a'r Gorllewin
Ag all hanner lanw mryd ;
Tragwyddoldeb, &c.
Yna llenwir fi yn llawn.

3 Mi gaf garu yno fynnw'i
Cariad perffaith pur didrai,
Cariad trwy ryw oesoedd mawrion,
Nad a fymryn bach yn llai,
Mor diderfyn, &c.
Byth yn berffaith, byth yn llawn.

4 Mi gaf yno wel'd a garw'i,
Gwel'd fy IESU, gwel'd fy NUW,
Gynt fu farw ar y croesbren
Heddyw yn ddifglair, heddyw'n fyw;
Nêf y nefoedd, &c.
Sydd yn fuddo yn ei hêdd.

5 Mi gaf yn y wlad rwi'n myned
Ddihengu 'n lan i maes o'm poen,
Gorphwys draw i derfyn gofid,
Gyda'r addfwyn, anwyl OEN;
Ni ddaw triftwch, &c.
Fyth i mewn tros furiau'r nêf.

## HYMN XL. *Neu y drydedd ran.*

1 DO, mi flinais ar y welais,
Twyll fydd oll o fewn y bŷd,
Twyll fydd ymma yn denu'm llygad,
Twyll fydd accw'n denu mrŷd;
O am ddarfod, &c.
A phob gwagedd îs y rhod.

2 Y mae gwagedd trwy holl natur
Y gwrthddrychiau ar y llawr,
Nid oes fylwedd yn y brofais,
Nag mewn dim ond IESU mawr;
Gradd o'th heddwch, &c.
Sydd yn well na'r *India* o'r bron.

3 Nid yw hwn ond bŷd o brofiad,
Nid yw hwn ond bŷd o wae,
Yn y wlad na rifir dyddiau
Fy nedwyddwch pennaf mae,
'Rwyf yn edrych, &c.
Trwy'r temeftloedd yno nawr.

4 YNO

4 Yno mi gaf yfed pleser,
Megis dyfroedd gloyw pûr,
I'r pererin llesg lluddiedig
Mewn rhyw wresog anial dîr;
Ffynnon bywyd, *&c.*
Tan y faingc mae'n d'od i maes.

5 Mi gaf fwytta ryfeddodau
Sydd yn natur Duw ei hun,
Ac ymborthi ar ddisgleirdeb
Crêwr nêf yn natur dŷn,
Ca'i yno ragor, *&c.*
Mewn un awr nag ymma byth.

## HYMN XLI. *Gweddi.*

1 DIsgleiria forau wawr,
'R ol nos o faith barhâd,
Datguddia i mi nawr
Ryw ran o'm hyfryd wlâd;
Lle rhedeg cariad pur i ma's,
Fel mor didrai tros faesydd grâs.
*Fel mor, fel mor, &c.*
*Fel mor didrai tros faesydd grâs.*

2 Mae dyddiau 'r *Aipht* yn faith,
Mae'r tywyllwch yno yn hir,
A dyrus iawn yw 'r daith,
I'r *Canaan* nefol bur;
O dere 'n glau a datclo'r bêdd,
Byrrhâ yr oriau sy'n dwyn hêdd.
*Byrrhâ, byrrha, &c.*

3 Rwi'n blino 'r funud hon
Tan draed pob gelyn câs,
Mi roddwn Fyd o'r bron
Am deimlo nerth dy râs;
Dim ond dy wel'd tros funud awr,
Am dod i yn fwy na chonc'rwr mawr.
*Am dod, am dod, &c.*

4 Rwi yno wrth fy môdd,
Ond edrych ar dy wêdd,

Fy nghalon galed dôdd
Wrth brofi o dy hêdd;
Ti wyt fy oll, fy ARGLWYDD mawr,
O fewn y nêf ac ar y llawr.
*O fewn, o fewn, &c.*

5 A phe darfyddai 'th râs,
Darfyddai i mi 'n llŵyr,
Gael pleſſer na chael blâs,
O foreu hyd yr hŵyr,
Ffoed tir a mor a'u tegwch gwiw,
Cyn bwi heb heddwch pûr fy NUW.
*Cyn bwi, cyn bwi, &c.*

6 Aed goleu'r dydd yn nôs,
Teyrnaſed nôs o'r bron,
Doed moroedd mawrion trôs
Holl wyneb maith y don,
Aed y greadigaeth faith i'w bêdd,
Mae'n well i mi na cholli 'th hêdd.
*Mae'n well, mae'n well, &c.*

7 Am hynny dere nawr
Ti IESU aeth a'm bryd,
O'th lyſoedd têg i lawr
I elyniaethol fŷd,
Nad fi ar ŵyr, nag ymma a thraw,
Arwain bob mynyd fi yn dy law.
*Arwain, arwain, &c.*

8 Pan denir fi o'r ffordd
Gan elyn îs y rhôd,
Yn fuan tynn fi 'n ol
Yn agos at dy droed,
Dos a fi mlaen mae rhwyſtrau'n faith,
A phell i'r llefg yw pen y daith.
*A phell, a phell, &c.*

## HYMN XLII. *Ffydd.*

1 O'R *Ganaan* hyfryd wiw
Addewyd i myfi,
Gartrefle bur fy NUW
Uwch y ffurfafen fry;

Mi

Mi ddof, mi ddof i'r lan ryw awr,
Er maint sydd am fy nghadwi lawr.
*Er maint, er maint, &c.*
*Er maint sydd am fy nghadwi lawr.*

2 O luoedd uffern faith,
Er cymmaint yw eich grym:
Tro f' ARGLWYDD o fy mhlaid
ni thiccia 'ch gallu ddim;
Un olwg fynn, un gair o'i lid,
A dyrr i lawr eich rhwysg eu gyd.
*A dyrr, a dyrr, &c.*

3 Mi wela'r nef yn awr
Yn cwympo o flaen un DUW,
Fyth fyth anfeidrol fawr
A'm IESU innau yw;
Duw yw efe am dwg i mlaen,
Er llid y ddraig ac uffern dân.
*Er llid, er llid, &c.*

Yn ei ryfeloedd rwi,
Ei ryfel ef ei hun,
Ac ni's cai yno glwy
Tra fyddwi wrth ei glŷn;
Ei hyfryd air am ceidwi 'n fyw,
'Does dim orchfyga air fy Nuw.
*'Does dim, 'does dim, &c.*

5 'Does ofn tan fy mron,
Yn agos attat ti,
Ti gonc'raist ofnau o'r bron,
Ar fynydd *Calfari*;
Ti faeddaist fyrdd a marwol glwy,
Nid o's ond canu i mi mwy.
*Nid o's, nid o's, &c.*

6 Llawn *Halelnia* mwy
I frenhin dae'r a ne',
Ddioddefodd farwol glwy
Yn wirion yn fy lle;
O ddedwydd awr, o ddedwydd loes,
Bu'm Duw yn hongian ar y groes.
*Bu'm DUW, &c.*

HYMN

## HYMN XLIII. *Gweddi.*

1 GOlwg ARGLWYDD ar dy wyneb
Sydd yn codi 'r marw o'r bêdd,
Mae agoriad nef ac uffern
Yna iw teimlo ar dy wêdd;
Gair dy râs, pur ei flâs
Nawr a ddetclu 'nghalon gâs.

2 ARGLWYDD danfon dy leferydd
Heddyw yn ei rwyfg a'i rym,
Dangos fod dy lais yn gryfach
Nag all dyn wrthfefyll ddim;
Cerdd ymlaen, nefol dân,
Cymmer ymma feddiant glân.

3 Y mae'r ddraig yn chware 'n gyfrwys
Yfbryd yw ef cadarn crŷ,
Heb na dyfais faîth na medr
Eiddil egwan ydwyf fi;
Neb ond e' brenhin ne',
Wna i'r gelyn golli ei le.

4 Tyr'd allan yn dy arfau
O balafau teg y ne',
Achub bwrcas dy ddioddefaint
Mi ddiftrywir onite;
Mawr yw'r llid, fy'n y bŷd
I goncwero 'm henaid drŷd.

5 Rwyf yn credu na's dioddefaift
Ar y croefbren farwol glwy,
Tros ryw rai nad o'it yn garu
Nag yn nabod o honynt hwy;
Y mae brâd, di neccâd
Ymma nawr i werth dy waed.

6 Dere bellach, dere yn ebrwydd
Ac anadla'r gwyntoedd crŷ,
Sydd yn nerthu'r pererinion
I wynebu g'lynion hy;
Yn gwneud grym, Satan lym,
Mewn munudyn fyn'd yn ddim.

## HYMN XLIV. *Llwyddiant yr Efengil.*

1 DEre Iesu i'r ardaloedd
Lle teyrnaffa tywyll nôs,
Nad fod rhan o'r byd heb wybod
Am dy chwerw angau loes;
Pam bydd poen, addfwyn Oen
Am dano yn eitha'r byd heb Son.

2 Aed i'r Dwyrain a'r Gorllewin,
Aed i eitha'r *India* draw,
I fod hoelion dur cadarnaf
Yn ei draed ac yn ei law,
Doed ynghyd, eitha'r bŷd,
I wel'd tegwch dy wynebprŷd.

3 Doed Paganiad yn eu tywyllwch
Doed y *Negroes* dua eu lliw;
Doed addolwyr yr eulunod
Weled tegwch Iesu 'n Duw;
Doed pob un, yn gyttun
Mewn i wleddoedd wedi eu drin.

4 O darfydded *Cananeaid*
Mwy i drigo yn y wlâd,
Na ddoed fyllafft bach o enau
Neb ond am rinweddau 'th waed;
Deued llu, heb ddim rhi',
Fyth i ganu am *Galfari*.

## HYMN XLV. *Dioddefaint y Mefiah.*

1 MAE grafufau pen *Calfaria*,
Mae rhinweddau marwol glwy,
Uwch eu prifio uwch eu deall
Gan angylion o honynt hwy;
Bywyd bŷd, fy ymma gŷd,
Wedi ei gafglu 'n gryno 'nghŷd.

2 Pan oedd uffern fawr yn berwi
Fflammiau maes i eitha 'r bŷd,

Ac yn bwgwth llosgi'n ulw,
Ei thrigolion oll eu gŷd ;
F' ARGLWYDD Glan, ddaeth ymlaen,
Ac am tynnodd i o'r tân.

3 Rhaid dioddef'r chwerw boenau,
Rhaid ydoedd hefyd myned trwy,
Holl wasgfeion caled angeu
Er mor greulon oeddent hwy ;
Cariad DUW, yn unig yw,
A trwy rhwystrau gwaetha ei rhyw.

4 Rhaid oedd conc'ro trwy ddiodde
Nid concwero wrth ei rym ;
Gallu'r nefoedd fawr ei hunan
Heb ddiodde 'thalsai ddim :
Talu'r iawn, ar brydnhawn
Ar y croesbren gwnaeth e'n iawn.

5 Diddig, diddig fe wradwyddwyd
Tan ei boenau fel yr OEN ;
Ni fu neb gyffelib iddo
Is yr wybr glywad son ;
Maddou 'n rhad, dymma waed,
Oedd ei weddi ar ei dad.

## HYMN XLVI. *Gweddi.*

1 TYred ARGLWYDD a'r amseroedd
Mae fy enaid am fwynhau,
Pur dangnefedd heb demestloedd
Cariad hyfryd a di-drai ;
Gwlêdd o hêdd, tu ymma i'r bêdd,
Nid oes ond dy blant a'i mêdd.

2 Rho immi arwydd crŷf disigl
Heb amheuaeth ynddo ddim ;
Gano beth fo arnai yn eisiau
Dy fod di yn briod im' ;
Gweld fy rhan, ddeil i'r lan
Ymhob brwydr f' enaid gwan.

3 Nid

3 Nid all dim o'r ftorom danbaid;
Nid all dim o'r gwyntoedd cry
Guro lawr yr enaid egwan
Welo ei dryfor ynnot ti;
Teimlo 'th hêdd, gweld dy wêdd,
Gonc'ra angeu tu ymma i'r bêdd.

4 Mi a 'r hyd fy ffordd yn ddiddig,
Mi a'r hyd fy ffordd yn hŷ.
Teithia i 'r anial mewn gorfoledd
O hyd golwg attat ti;
Dy eiriau di, melus cu
Sydd yn ddigon i myfi.

5 Pan y collwi wel'd dy wyneb,
Pan anghofiwi waed dy groes,
Dyna yn dyfod fel y diluw
Dywyll, anial, ddyrus nôs;
Grâdd o ffŷdd wedi'n fydd
Dawel dêg yn d'od a'r dŷdd.

## HYMN XLVII. *Nefoedd.*

1 DAccw 'r ardal nefol hyfryd
Pwrcas poen a gwaed fy Nuw;
Gwlâd mae hiraeth yn fy nghalon
Am fod heddyw ynddi 'n byw,
Lle nad o's poen na loes,
Nac un cyftudd chwerw croes.

2 Hawddfŷd eilwaith ar ol hawddfŷd
I fy'n gorwedd yn y bêdd;
Ac yn canu tu hwnt i ofid
Nawr ynghanol gwlad o hêdd;
Llawenhau yn ddi-drai,
Wedi anghofio eu poen a'u gwae.

3 Mae myfyrio ar fy ngartre,
Mae myfyrio ar dŷ fy nhâd
Wedi 'm gwneuthur i ddiflafu
Ar bleſſerau cîg a gwaed:
Dotts eu gid yn y bŷd.
Onid rhyw bêth a leinw mhrŷd.

4 Nid yw'r ddaear a'i thrysorau,
Eilw eu phlant yn werthfawr iawn,
Ddim yn abl llanw nghalon
Na'm digoni byth yn llawn ;
Draw i'r bêdd, mae fy hêdd,
Gyda mhrynwr hardd ei wêdd.

## HYMN XLVIII. *Yr Arglwydd yw fy nerth.*

1 IESU nid o's ond dy allu,
Iesu nid o's ond dy rym ;
Attal fy enaid tros funudyn
Bechu yn dy erbyn ddim ;
Phoddion rhad, gwerthfawr waed,
Wna im' sefyll ar fy nhraed.

2 Mi gyrwydrwn draw i'r Dwyrain,
Mi gyrwydrwn draw i'r De',
Ond b'ai 'r golofn dân fy'n arwain
Llewyrch hyfryd pur y ne',
Fe bia'r clod, byth erioed,
Iddo gyfarwyddo'm troed.

3 Dymma brofedigaeth heddyw
D'accw brofedigaeth ddo',
Fuasai yn fy llithro i 'n fuan
Oni buasai ei Ysbryd 'o,
Mae ei ddawn, distaw iawn,
Yn fy nghadwi foreu a nawn.

4 Weithiau fe ddyd ei ragluniaeth,
Weithiau dyd ei hyfryd râs,
I fy nghwarchod a fy nghadw,
Rhag fy chwantau ffiaidd câs,
Boed fy nghan, iddo'n lân,
Pan el daear fawr yn dân.

## HYMN XLIX. *Neu yr ail ran.*

1 IESU ei hunan yw fy mywyd,
Iesu yn ei farwol loes;

Y tryſorau mwy a feddaf
  Yw ei chwerw angeu loes;
Gwagder anherfynol ydyw
  Meddu daear, dâ na dyn,
Colled ennill pob peth arall,
  Os na 'nillir di dy hun.

Dymma ddyfnder o dryſorau?
  Dymma ryw anfeidrol rôdd,
Dymma wrthddrych g'es o'r diwedd,
  Ag ſydd hollol wrth ſy môdd,
Nid o's ſyched arnai mwyach
  Am dryſorau gwâg y bŷd,
Pob peth gwerthfawr a dryſorwyd,
  Yn ſy mhrynwr mawr ynghŷd.

Mi orphwyſa ſy enaid bellach,
  Ar yr anherfynol ſtor,
Ac mi gana yn y demeſtl
  Ar y graig ſydd yn y môr;
Dymma'r man na feiddia Satan
  Uffern ddwfn ſawr a'r bêdd,
Er eu dyſais ſaith a'u rhuad
  I derfyſgu dim o'm hêdd.

Do, mi ddringais uwch y gwyntoedd
  Wedi bod mewn ſtormydd mawr,
Dinas noddfa ge's o'r diwedd
  Mewn ardaloedd uwch y llawr;
Gobaith cadarn *Patriarchiaid*
  *Craig yr oeſoedd* gynt y fu,
Wnaeth yr arfaeth ſaith ddiddechreu
  Nawr ſy'n ſywyd i myfi.

## HYMN L. *Gwaboddiad.*

DEued pechaduriaid truain
  Yn ſinteiodd mawr ynghŷd,
Deu'd ynyſoedd pêll y moroedd
  I gael gwel'd dy wynebpryd;
Cloffion, deillion, gwiwedigion,
  O bob enwau, o bob gradd,

I *Galfaria* un prydnhawn gwaith
Wel'd yr OEN fydd wedi ei ladd.

2 D'accw'r nefoedd fawr ei hunan
Nawr yn diodde angeu loes,
D'accw obaith yr holl ddaear
Heddyw yn hongian ar y groes;
D'accw noddfa pechaduriaid,
Daccw'r meddig, daccw'r fan,
Caf fi wella 'r holl archollion
Dyfnion fy ar fy enaid gwan.

3 D'accw'r unig feddyginiaeth
Gadarn i druenus ddyn,
Mae pob gobaith wedi darfod
Maes o hono fe ei hun;
Trwm a llwythog yw fy meichiau
Poen euogrwydd fydd yn fawr,
Nid o's fan ond pen *Calfaria*
Gallai ddodi mhen i lawr.

4 Mi ni's gallai wneud fy hunan,
Ddyddiau maithion ronyn wêll,
Pob egwyddor yn fy enaid,
Beunydd fydd am fyn'd ymhêll;
Nid o's dim ond i ti faddeu,
Gwneud yr *Ethiop* du yn wyn,
Wna i'm henaid gofio'th angeu
Poenus ar *Galfaria* fryn.

## HYMN LI. *CRIST yn dwyn ein beichiau.*

1 FE row'd arno bwys euogrwydd,
Pwys na's gall ei ddal mo ddŷn,
Cofp pechodau myrdd o ddynion,
Heb un pechod ynddo ei hun;
Do, fei gwifgwyd a chyftuddiau
Ffrwyth fy meiau fawr â mân,
Fel cawn ninnau wael bechadur
Aflan euog fod yn lân.

2 Ac

2 Ac yn nyfnder grym ei boenau,
Tan ergidion angeu loes ;
Fe weddiodd am faddeuant,
Maddeu immi ar y groes ;
Fe gofleidiodd f' enaid aflan
Rhwng y ddaear fawr a'r nen :
Do, fe ngharodd, ac fe nghofiodd
Tan yr hoelion ar y pren.

3 O anfeidrol berffaith gariad !
Cariad na's gall dawn na grâs
Dynion, na'r angylion pennaf
Fyth yn hollol ddodi ma's ;
Cariad fŷdd yn feilfaen gadarn
O bob *Anthem* yn y nêf,
Seinctiau ac angylion dra-phlith
Ganant am ei gariad ef.

4 Ac ni fydd mo dragwyddoldeb
Ddim yn ormod er ei hŷd,
I ddadguddio hên ddyfnderoedd,
Cariad IESU maes ei gyd,
Holl rinweddau maith ei glwyfau,
Poenau'r hoelion meinion llym,
A wna oesoedd i fyn'd heibio
Etto heb eu gweled ddim.

## HYMN LII. *Gair y Bywyd.*

1 ARGLWYDD ynnot ymddiriedais
Tywysog cadarn wyt o rym,
Ni's gall uffern gall na'r ddaear
I wrthnebu dy ewyllys ddim ;
O's o mhlaid fe ddarfu fy ofnau
Ti wnai i'm gelynion ffoi,
Gyntaf bryd gosodant arnaf
Bob yn un neu bob yn ddau.

2 Dyn nid wyt ti fy'n edifaru
'R gair a dd'wedost ddaw i ben,
Seliwyd dy arfaeth, feliwyd dy eiriau
Pan fuost farw ar y pren ;

Nid oes fylafft o'th fygwthion
   Nid oes fylafft bach o'th râs,
Pan y delo 'r dydd i fynu
   Na's caiff hwnnw ei wneud i ma's.

3 Ar dy air ymhob temeftloedd
   Y gorphwyfaf fy hun i lawr;
Ac mi greda bod dy eiriau
   Lawer trech na'r ftorom fawr;
'R unig feilfaen nawr fydd genni
   Bwyfo ar dy addewid ddrud
Yw bod ynnot ti gyflawnder
   A mod inne yn eifiau gyd.

4 O gad immi brofi welai
   Rwyf fi'n gwel'd rhyw wledydd draw,
Ag dymunwn fîl o weithiau
   Brofi eu ffrwythau maes o law,
Grym dy eiriau w'i am deimlo
   Mae dy eiriau, yn drech na'r bŷd,
Cleddyf tanllyd o dy enau
   Gonc'ra uffern faith ei gŷd.

## HYMN LIII. *Neu yr ail ran.*

1 DOed y cyftuddiedig truan,
   Sy mewn ofn bob yr awr,
Ac edryched ar y croefbren,
   Pwy fy'n hongian arno nawr,
Pam dychryna'r euog aflan?
   Heibio yr aeth cymylau'r nen,
Dymma le i gladdu euogrwydd,
   Yn y beddrod tan y pren.

2 Ymma rhed yr afon allan
   Ffrydiau ar ol ffrydiau o hŷd,
Gloyw dd'wr didrai digymyfg
   Sydd yn golchi beiau 'r bŷd;
D'accw'r ffynnon yn agored
   Dymma'r brwnt yn myn'd ymlaen,
Dymma'r aflan, dymma'r euog,
   Wedi ei gannu fel y gwlân.

3 Aed fy enaid mwy yn ddibris
    Rhwng gwrthddrychiau gwâg y bŷd,
Heb ddal ſylw ar un gwagedd,
    Heb un pleſer ſynd a'm brŷd:
Cerddaf yn fy ngwiſcoedd gwynnion
    Trwy bob dryſni yn ddi neccâd,
Ond i'r goloſn dân i'm arwain
    I gynteddoedd tŷ fy nhâd.

4 Ni thramgwyddaf yn y ffoeſŷdd
    Ond i'th YSBRYD ſynd o'm blaen,
Na 'r pydewau dyſnion anial
    Oſnais lawer gwaith o'r blaen;
O's ca'i ddim ond cadw llygad
    Syml, union tua 'r ne',
Heb wradwyddo 'th air a'th enw,
    Gwna, mi gerdda 'n lân i dre.

## HYMN LIV. *Yr Addewidion.*

1 GOleu a nerthol yw ei eiriau,
    Melus fel y diliau mêl,
Cadarn fel y bryniau pwyſig,
    Angeu 'm IESU yw ei Sêl;
Rhai'n a nertha 'm henaid gerdded
    Dyrus anial ffordd ymla'n;
Rhai'n a gynnal f' enaid egwan
    Yn y dŵ'r ac yn y tân.

2 Holl bleſerau maith y ddaear,
    Rhei'ny gais brenhinoedd bŷd,
Cyfoeth, rhwyſc, gogoniant, mawredd,
    A rhyw fŷrdd o bethau ynghyd;
Fŷth ni cheſſia i tra ſo bywyd
    Ddim ond edrych ar dy wêdd,
Teimlo arwyddion hyfryd cariad
    Nes eſcynw' i lawr i'm bêdd.

3 Gwêdd dy wyneb ſy 'n rhagori
    Ar dryſorau 'r *India* draw,
Mae awelon pur dy gariad
    Yn dwyn gwobr yn eu llaw;

Perffaith bleſſer heb ddim diwedd
Perffaith gyſſur heb ddim trai,
Yn y ſtormydd mawr cyndeiriog
Yw yn unig dy ſwynhau.

4 Dere gyda mi trwy'r ſyddin
Gyda mi yn erbyn llu,
Yn dy enw mi goncwera,
Pawb ſy'n ofni dy enw cu;
Dy enw di a faeddodd angau
Faeddodd uffern fawr ei grym,
Ni wyneba cnawd a phechod,
Bellach mo dy enw ddim.

## HYMN LV. *Angau'r Jeſu.*

1 WEl' weithiau cod ſy enaid cû,
Dy lygad tu ar neſoedd frŷ,
Gwel yr anfeidrol berffaith iawn,
Sy'n maddeu 'th bechod oll yn llawn,
Maddeu, maddeu, maddeu, maddeu, maddeu,
Maddeu 'th bechod oll yn llawn.

2 Y moroedd mawr ar ddaear faith,
A llu'r ffurfafen yw ei waith;
Er hynny rhodd ei fywyd cû,
I angau chwerw troſof fi.
Angau, angau, &c.

3 Y dwylo wnaeth yr wybr laes,
A all'ſe gadw angau i maes,
Ond ufudd haodd iddo 'n rhydd,
I gariad perffaith gario'r dŷdd.
Gariad, gariad, &c.

4 Dyfnderoedd anrhaethadwy mwy
Didrai difeſur ſy'n ei glwy,
Ein hanwireddau fe yn ei dwyn,
A rhyddion ninnau er ei ſwyn.
Rhyddion, rhyddion, &c.

5 Mae haeddiant ſy Iachawdwr mawr,
Yn diodde poen rhwng nêf a llawr;

Filiwnau

Filiwnau maith yn fwy ei rin
Na haeddiant feinctiau 'r byd yn un.
Haeddiant, haeddiant, &c.

6 Wel' dymma 'r awr y talodd ef
Ofynion mwya trymma 'r nef;
Yn awr mae 'r carcharorion prudd
Yn llawen hyfryd dd'od yn rhydd.
Llawen, llawen, &c.

## HYMN LVI. *Addewidion gwell.*

1 FE dalodd fŵm y dyled drud
Tros fyrdd fy etto heb dd'od i'r byd,
Pan gwelo rhai'n rinweddau ei glwy
Fyth canu iddo byddant hwy.
Canu, canu, &c.

2 Pan clywo'r *Indiaid* draw am loes,
Creawdwr nefoedd ar y groes,
Rhinweddau hyfryd marwol glwy
Fydd fylwedd eu Caniadau hwy.
Sylwedd, fylwedd, &c.

3 O na foed ardal cyn bo hir!
O'r Dwyrain draw i'r Deheu dîr,
Na byddo 'r Iachawdwriaeth ddrud,
Yn llanw cyrrau rhai'n eu gyd.
Llanw, llanw, &c.

4 O dere i ben happufaf ddydd,
Darfydded fon am bethau fydd;
Na'r bŷd, na'i rwyfg, na'i wae, na'i boen,
Ond canu byth am waed yr OEN.
Canu, canu, &c.

5 Boed IESU a'i anherfynol ftor,
Yn llanw'r tir, yn llanw'r mor;
Ei ddoniau maith a'i gariad drud,
Yn feilfaen cyffur pawb o'r byd.
Seilfaen, feilfaen, &c.

6 Dewch addewidion, dewch yn awr,
Dihidliwch eich tryforau lawr;

Myrddiwnau ar fyrddiwnau sydd,
Yn disgwyl am eich borau ddydd.
Disgwyl, disgwyl, &c.

## HYMN LVII. *Gwario'r dydd.*

1 O Deued Iechydwriaeth grâs,
A'i hael drysorau mawr i ma's;
Cymmer allweddau'r nefoedd faith,
A datclo'r carchar tywyll caeth.
Datclo'r, datclo'r, &c.

2 Rwi'n rhwym, rwi'n rhwym a'r t'wyllwch mawr
Sydd yn fy nghadwi 'n llyn i lawr;
Y leiaf radd o oleu 'r dydd,
A ddattod f'enaid bach yn rhydd.
Ddattod, ddattod, &c.

3 Pe cawn fy nhraed ar sanctaidd dir,
A gwel'd fy nghartre draw yn glir,
Er g'lynion fyrdd nid ofnwn mwy
Y cryfa un o honynt hwy.
Cryfa, cryfa, &c.

4 Fi bia'r dydd er llwfrhau,
Marwolaeth Iesu yn fywyd mae,
A phoen au'r groes anfeidrol rin'
Sy'n ddigon trech nag angeu ei hun.
Ddigon, ddigon, &c.

5 Mae lleiaf loes Iachawdwr drud,
Yn llawer mwy na beiau'r byd;
Un dafan gwaed, un dwfn glwy,
Sydd drymach na'u heuogrwydd hwy.
Drymach, drymach, &c.

6 Wel' f'enaid bellach dere mlaen,
A dechreu 'th baradwysaidd gân;
A berthwyd pasg, tywalltwyd gwaed,
Fe gliriwyd ffordd i dy fy nhâd.
Gliriwyd, gliriwyd, &c.

## HYMN LVIII. *Ffordd yn rydd.*

1 DAeth arfaeth fawr y nef i ben,
Bu'm Iesu farw ar y pren,
Agorodd ddrws trwy ei boen a'i wae,
I'r *Ganaan* nefol ſy'n parhau.
*Ganaan, Ganaan*, &c.

2 Pwy rwyſtrau ſy ar ſy ffordd i mwy,
Nad aeth ſy ARGLWYDD trwyddynt hwy?
Yr hwn ddioddefodd angeu loes,
A'm nertha inneu i ddwyn ei groes.
Nertha, nertha, &c.

3 Mi wela nawr yn oleu wiw
Fy enw fry yn llyfr DUW;
Pan llofgo 'r holl elfennau 'nghyd,
Fe beru'm hedd mewn nefol fyd.
Beru'm, beru'm, &c.

4 Wel' d'accw'r man mae'm ſeilſaen gref,
Cyfiawnder bythol brenhin nef;
A dymma'r graig gadarnaf ſyth
Na ofnai elyn arni byth.
Ofnai, ofnai, &c.

5 Doed pob rhyw demeſtl yn gyttun,
A rhuent arnai oll yn un;
Does achos braw na dychrym im',
Can's IESU cadarn yw ſy ngrym.
IESU, IESU, IESU, IESU, IESU,
IESU cadarn yw ſy ngrym.

## HYMN LIX. *CRIST mwy dymunol na'r Byd.*

1

MI rown y byd ac oll ſy ynddo nawr,
A'm dy ſwynhau un funud fach o'r awr;
Mae golwg arnat lawer iawn yn well,
Na llawnder tryſor yn yr *India* bell.

2

'Dyw colli'r ddae'r ddim colled i mi mwy,
Pan ce's i brawf o'i nefol farwol glwy;
Mae ymma dryfor nad o's tan yr haul,
O Dde' i Ddwyrain bell ddim o'r ail.

3

Ffarwel, ffarwel, i' wela i îs y ne',
Ond im' gael Duw yn unig yn eu lle;
Mae fy nymuniad yn terfynu yn un,
Heb ddim yn eisiau ynddo fe ei hun.

4

Fe w'i am gael, fe wi'n ei geisio o hyd,
'Trwy bob rhyw dŵrf a dwndwr yn y byd;
Mi fydda llonydd, cha ff creadur mwy,
Derfyfgu fy enaid yn ei farwol glwy.

5

Does dim wna fodd fy nymuniadau mawr,
O eitha'r nenn i eitha'r ddaear lawr;
Maith anherfynol fy serchiadau yw,
Nid o's a'u lleinw ond anfeidrol Duw.

6

Pam wyt fy Nuw, fy ngobaith i ei gyd,
yn sefyll draw amserau meithion cŷd?
O dere, atteb, 'does llais tan y ne',
Ag fydd yn beraidd imi yn dy le.

## HYMN LX. *Neu yr ail ran.*

1

P'Le rwyt yn mynd, pam wyt yn aros draw?
Tyr'd o fy Nuw ymafla yn fy llaw:
Tegwch heb fylwedd fydd ymma yn gyttun,
y cwbl fy'n werthfawr fy ynnot ti dy hun.

2

Fy Nuw, fy Nuw, fy mhriod, a fy nhâd,
Fy ngobaith oll, a'm Iechydwriaeth râd;
Ti fuost noddfa gadarn i myfi,
Gad immi etto wel'd dy wyneb cu.

3

Nag aed o'th gof dy ffyddlon ammod dryd,
yn ficcr wnawd cyn rhoi fylfaeni 'r bŷd;

Ti

Ti roist i'm yno dryforau didrai,
Gad imi heddyw dy gywir fwynhau.

4

O cofia 'th hedd rai prydiau roist i lawr,
I'm henaid trist mewn cyfyngderau mawr,
O edrych etto, mae fy enaid gwan,
Ar drengu o syched 'r awrhon yn y fan.

6

'Traid itti ddim, ond dweud un gair o hedd,
Fy syched dry yn dawel nefol wledd,
Fe dderfydd gofid, fe dderfydd pob gwae
Llyngcir fy nhristwch yn dy fwynhau.

## HYMN LXI. *Ffordd newydd.*

1

TI IESU mawr Iachawdwr dynol-ryw,
Yn dy wynebpryd rwi'n gweled gwedd fy Nuw;
Ti dde'ist o'r nefoedd, happus oedd yr awr,
I gyfeilliachu â ni llŵch y llawr.

2

Agoraist ffordd o'th anherfynol râs,
O fyd sydd lawn o demptasiwnau ma's;
Hyfryd yw'r llwybr balmentodd e',
O ben *Calfaria* i ganol y ne'.

3

Fe rwygodd len wnaeth pechod câs eu ryw,
Yn *Eden* gynt rhwng fy enaid i a'm DUW;
Ac er mwyn dangos im' ei gariad llawn,
Dioddefodd angeu chwerw un prydnhawn.

4

Danfon i lawr dy YSBRYD Sanctaidd mwy,
Datguddia rin dy nefol, farwol glwy;
A gwna 'mi deithio trwy wynfyd a chro's,
Canu am danat nes darfyddo'r nôs.

5

Na foed i'r ddraig i'm temptio uwch fy ngrym,
Heb dy alla di, ti wyddost feddai ddim;
Na 'r pechod ffiaidd roddi i mi glwy,
It' wenu arnaf oll a'i maedda hwy.

6

O flaen dy faingc rwi ymma yn cwympo lawr,
Bŷdd im' yn Dduw ac yn Iachawdwr mawr,
Cadw fi o rwydau pob rhyw elyn câs,
Cadw fi 'nghyfcod d' anherfynol râs.

## HYMN LXII. *Difgwiliad.*

1

O Gwawria 'n glau ddedwyddaf, happus ddŷdd,
O'r carchar caeth i'm henaid fynd yn rhŷdd,
Pan del yr oriau, deuent yn glau,
Fe dry fy nghalar yn llawenhau.

2

Difgwil yr w'i ym mron a llwfrhau,
O law fy ngelyn am gael fy rhyddhau,
Nid yw'r gwiliedydd pryfur a phrudd
Yn difgwil cymmaint am y boreu-ddŷdd.

3

Dy hyfryd wêdd pan caffwyf weld yn llawn,
Wna ynnof ryw gyfnewid rhyfedd iawn:
Dim ond cael gweld dy wyneb hyfryd fydd
Yn troi tywyllwch nos yn ganol dŷddd.

4

Pe teimlwn di a rhîn dy farwol glwy,
Colli dy hêdd ni ofnwn bellach mwy;
Nid oes a'm cadw i o tan y ne'
Ond grym dy gariad ronyn yn fy lle.

5

Tynghedwn hwy, fy eulunod o bob grâdd,
Sŷdd am fy nwyn, ac hefyd am fy llâdd,
Na boent i ddeffro fy anwylyd cûn
O rhwng fy mreichiau nes mynno ef ei hun.

## HYMN LXIII. *Gweddi.*

1 O Dychwel Arglwydd mawr,
Mae 'r oriau yn faith eu hŷd,
I'th drigfan dere lawr,
Lle dyrus iawn yw 'r bŷd;

A maglau

A maglau drwg plethedig ſy
Heb rif rhyngof a'r *Canaan* fry.
Heb rhif, heb rif, &c.

2 Rhyw drydar wyf heb rym,
Ochneidio a llwfrhau ;
'D wy 'n abl dala dim
O bŵys fy mhoen a'm gwae ;
O dere yn glau fy anwylyd pur,
Rho ffrŵd o'th hedd mewn anial dir,
Rho ffrŵd, rho ffrŵd, &c.

3 'Dyw mywyd hebddot ti,
Pe pob peth arall gawn,
Ond cyſtudd i myfi
O-foreu hyd brydnhawn ;
Dychwel fy Nuw i'm calon ſyth'
A gwna hi yn deml itti bŷth.
A gwna, a gwna, &c.

4 Darfydded pob rhyw chwant,
Ond chwant i dy fwynhau ;
Pob cariad ffoed i bant,
Ond cariad i barhau;
Darfydded ſŵn a therfyſc bŷd,
Bŷdd di yn gyfan immi ei gid,
Bydd di, bydd di, &c.

5 Bydd di yn ymborth pur
I'm henaid ddŷdd a nos,
Fy holl ddiddanwch gwir
Fo yn tarddu o waed y groes,
Dîſtewi wna, mae tryſor mwy
Nag ſedd y byd mewn marwol glwy.
Nag ſedd, nag ſedd, &c.

## HYMN LXIV.

1 'DOes dim o tan y rhod
Dyrr undeb perffaith rad,
Ddechre codd gynta erio'd
Mewn nefol, dwyfol waed ;

Myfyrio

Myfyrio ar hyn rai prydiau nawr
Sydd yn fy nal mewn ftormŷdd mawr;
Sydd yn, fydd yn, &c.

2 Na flined f' enaid llaith
Er lleied yw dy rym,
N' all dyfais uffern faith,
Na phechod wneuthur dim;
Ar *Galfaria* fe'u maeddwyd hwy,
Torrwyd eu nerth a marwol glwy,
Torrwyd, torrwyd, &c.

3 Mae 'r gyfraith er ei grym
A'i dychrynedig loes,
A'i holl felldithion llym
Yn hongian ar y groes,
Ac angeu ei hun mewn cadŵyn gref,
Wedi fy Iesu ei fpeilio ef,
Wedi, wedi, &c,

4 Mae llwybr hyfryd iawn
O'r ddae'r i'r nefoedd fry,
Agorwyd un prydnhawn
Ar fynydd *Calfari*:
Myrdd o fendithion maith ynghyd
Ddŷgodd y groes i anial fŷd,
Ddŷgodd, &c,

5 'D oedd aberth îs y nef
A dalai 'r dled yn llawn,
Ond marw o hono ef
Ar groefbren un prydnhawn;
Mwy gwerthfawr loes na phe buafai bŷd
O'r bron yn marw trofw'i gîd,
O'r bron, &c.

## HYMN LXV. *Gwaed yn dileu Euogrwydd.*

1 WEl' f' enaid edrych mwy
O'th holl gyftuddiau ma's,
Mewn un rhyw farwol glwy
Gwel allu angeu glâs;

Mae

Mae 'r bedd yn bur gan f' ARGLWYDD cûn,
Efe ſancteiddiodd hi ei hun,
Efe, &c.

2 Mae gallu 'r ddraig yn awr,
Pan conc'rwyd angeu glâs
Yn gorfod cwympo lawr
O flaen effeithiol râs;
Ca's IESU 'r dydd, fe ga's y clwy,
Mawr iawn yw 'r enw ſy iddo mwy.
Mawr iawn, &c.

3 Y gelynion mwya eu grym
A gafodd marwol glwy,
Ar ben *Calfaria* fryn
Pam ofnai bellach hwy ?
Mae haeddiant gwaed yn uwch ei gri,
Na'm holl elynion mawr eu rhi' !
Na'm holl, &c.

4 Mae dafn bach o waed
Yn drymmach yn y nêf,
Na'r pechod mwya gaed
A'i holl euogrwydd ef ;
Gwrandewir llais y dwyfol glwy,
O flaen eu damniol floeddiad hwy.
O flaen, &c.

5 'Does un rhyw bechod câs
A glyw'd am dano ſôn,
Ag all diſtewi llais
Eiriolaeth gwaed yr OEN ;
Nawr maingc y nef fy ngorſedd yw,
Lle mae yn eiriol waed fy NUW.
Lle mae, &c.

## HYMN LXVI. *Gwaed y Groes yn erbyn ofn.*

1 WEl' ymgyſſura nawr
Fy enaid eiddil gwan,
Sy'n cwrddid bob yr awr
A rhwyſtrau ymhob man ;

Mae Duw o'm tŷ, caf cyn bo hir,
I wel'd fy meiau yn colli tir.
I wel'd, &c.

2 Ni chollwyd gwaed y groes
Erioed am ddim i'r llawr,
'Ddioddefwyd angau loes
Heb ryw ddibenion mawr;
A thymma oedd ei amcan ef,
I'm dwyn o'r byd i deyrnas nêf.
I'm dwyn, &c.

3 Ffoed euogrwydd bellach ffwrdd
Doed heddwch yn ei le,
Ac na ddoed ofnau i'm cwrdd
Dim ond awelon ne';
Pwrcas y gwaed anfeidrol ddrud,
Rho hyn yn fuan immi gyd.
Rho hyn, &c.

4 Nad immi garu mwy
O'r pechod drwg ei ryw,
Y pechod roddodd glwy
I mrhynwr, O fy Nuw!
Nad immi garu dim ond ti,
O'r ddae'r i eitha'r nefoedd fry.
O'r ddae'r, &c.

## HYMN LXVII. *Yr Arglwydd yw fy nerth.*

*(Fe ellir canu yr Hymnau canlynol trwy ddyblu'r Linau olaf ddwy waith, neu ar y messur oedd yn y llyfr cyn hwn yn eu dyblu dair gwaith.)*

1 'DOes oddi-mewn i mi ei gyd
Ond beiau mawr eu grym,
Rhaid immi gael dy haeddiant drud,
Neu yntau fod heb ddim.
Neu yntau fod heb ddim.

2 Y dyledſwyddau gorau eu rhyw,
Tywyllodrus ynt a gwan;
Ac nid oes ond anfeidrol DDUW
A all fy nghodi i'r lan.
A all, &c.

3 Mi friwiais addunedau mawr
Amſerau maith heb ri',
Ac nid oes gyſſur genni nawr
Mewn dim ond *Calfari*.
Mewn dim, &c.

4 Pam tryſtaf i fy nghalon mwy
A'm denodd i yn llyn?
Gwell genni dryſto yn y clwy
Ro'wd ar *Galfaria* fryn.
Ro'wd ar, &c.

5 Boed gorſedd grâs yn rhydd i mi,
Tan bob euogrwydd llym,
Fel gallw'i orfoleddu'n hy
Ar elynion mawr eu grym.
Ar elynion, &c.

## HYMN LXVIII. *Neu yr ail ran.*

1 YN fuan tyr'd ymlaen fy Nuw,
Mae ynnot nerth a grym didrai;
Nad y gelynion o un rhyw
Fyth arnai lawenhau.
Fyth arnai, &c.

2 Mae anghrediniaeth fel y mor,
A meiau yw eu ſail;
Yn gwneuthur uffern fawr a'r bedd,
I'm curo i bob yn ail.
I'm curo, &c.

3 A minnau wela 'ngoncweſt fry
Yn goncweſt hyfryd iawn,
Ennillwyd gynt ar *Galfari*
Yn rhyfedd un prydnhawn.
Yn rhyfedd, &c.

4 Mae angau'r groes yn awr yn hy,
 yn pledio tros y gwan;
Ac angau fy Iachawdwr cu,
 yn unig gwyd fi i'r lan.
 yn unig, &c.

## HYMN LXIX. *Neu y drydedd ran.*

1 WEL' f'enaid gorfoledda mwy,
 Tr'o f'ARGLWYDD mawr yn DDUW,
Mae'r gair a ddwedo yn llawer mwy
 na phechod o un rhyw.
 na phechod, &c.

2 Tan bob cyfludddiau fwy na mwy
 Rhuadau cnawd a byd;
Mae digon nerth mewn marwol glwy,
 I'w briwio hwy oll ynghyd.
 I'w briwio, &c.

3 Awdwr y cariad fy'n parhau,
 na welir fyth o'i fath,
Sydd ddigon abl fy rhyddhau,
 O bob rhyw garchar caeth.
 O bob, &c.

4 'Does genni mwy ond Duw yn DAD,
 yn erbyn pob rhyw wae;
'Does genni ond ei gariad rhad,
 yn feilfaen o barhau.
 yn feilfaen, &c.

## HYMN LXX. *Concweſt ofn.*

1 F'Enaid egwan paid ac ofni,
 Bod rhyw ddrygau mawr gerllaw,
Ofni gwyntoedd oer y Gogledd,
 Ofni gwynt y Dwyrain draw;
Ofni'r cwbl, &c.
Ac heb achos ofni 'n bod.

2 Newydd mawr, a newydd llawen,
 Newydd gwîr, a newydd rhâd,

Sy'n

Sy 'n marchogaeth ar y cwmmwl
Goleu draw o dŷ fy nhâd:
Fe faddeuwyd, &c.
Beiau rif y ser i mi.

3 O's daw gwradwydd, o's daw gofid,
Trwy ragluniaeth bur fy Nuw;
Hynny fyth ni ladd fy enaid,
Cadw nghalon wna fe 'n friw,
Bydd ei fflangell, &c.
Yn y diwedd fel y gwin.

4 O's ar welu rhaid fy rhoddi,
Ryw bryd yn y dyddiau ddaw,
I gystuddiau nes bo'm brodur,
Goreu oll yn cilio draw;
Mi ddof allan, &c.
Fel yr aur y seithfed tro.

5 O's rhaid immi gael blynyddau,
O'r cystuddiau gwaetha eu rhyw;
Am funudau bach o bleser
Ge's i dorri deddf fy Nuw;
Fe ddaw ddiwedd, &c.
Ar bob gofid yn y nef.

## HYMN LXXI. *Neu yr ail ran.*

1 MI fodlona doed a ddelo
O's cai wel'd yr happus awr,
Trwy ryw foddion crai neu chwerw
I fy mhechod fyn'd i lawr;
Digon bodlon, &c.
Conc'ro bai trwy ddwyn y groes.

2 Mi weddiais fîl o weithiau
Am orchfygu pechod câs,
Ac er gweddi, ac er gofid
Pechod cedd yn cario'r ma's;
Rhaid cyttuno, &c.
O nef ac uffern ladd fy mai.

3 Fe gaw'd croesau lle ni phechwyd,
Pam gwrthneba innau 'r groes,
Fe ga's Crewr nef ei hunan
Ar *Galfaria* angeu loes;
Yr un llwybrau, &c.
Rhaid im' gerdded ag efe.

4 Greſſo bellach wrth y ddelo,
Y mae genni loches grêf,
Er im' golli 'm ffryns anwylaf
'Chollai ddim o hono ef;
O gyſtuddiau, &c.
Mwy na chwi yw cwmp'ni 'm Duw.

5 Boed fy lloches mewn lluesty
Heb gyſuron o un rhyw,
B'wyf yn warth o'r De' i'r Dwyrain
Rhwng gelynion cas fy Nuw;
Darfu gofid, &c.
Ond yn unig dy ſwynhau.

## HYMN LXXII. *Ofn.*

1 Y Mae'm nerth i yn deffygio
Gan gyſtuddiau o bob gradd,
Seirph a llewod yr anialwch
Sy'n feunyddiol bron fy lladd;
Moroedd mawr o maes ſy'n bygwth,
Tonnau o mewn ſy'n curo o hyd,
Daear, nefoedd faith ac uffern
Sydd yn gwaſgu arnai nghyd.

2 Minnau 'n ofni 'r awel leia,
Ofni 'r ſtorom ſydd heb rym;
Nid o's ynnwi i'w gwrthſefyll
Ond euogrwydd arall ddim;
Ofni 'r drwg ſy'n d'od i foru
Ofni 'r pechod wnauthym ddoe;
Ofni 'm llygad ſydd yn gwibio
Ofni nghalon ſydd ynghlo.

3 Anghrediniaeth ſy'n fy ngwaſgu,
Anghrediniaeth ſy'n cael grym,

Gan.

Gân bob pechod ac euogrwydd
  Onite ni's galle ddim;
Tua'r nef mi dro fy llygad,
  Dyna 'ngobaith i bob grâdd,
Ond ddaw nerth ar fyrr oddiyna,
  Mae fy ofnau yn fiwr o'm lladd.

4 Cyfod Haul fy'n rhwygo'r tywyllwch,
  Cyfod nerth fy'n briwio chwant,
Gyrr holl ofnau anghrediniaeth
  Fel rhyw niwlen bygddu bant;
Rho im' wel'd yr ardal hyfryd
  Man lle mae fy ngobaith gwell,
A chael pleffer yn yr anial
  I edrych ar y gwledydd pell.

## HYMN LXXIII. *Ffydd yn concwero Angau.*

1 NID wi'n ofni tir y bywyd
  Hwnnw ngartre hyfryd yw;
Ond rwi 'n ofni yr agendor
  Fawr fydd rhwng y *Marw* a'r *Byw*;
Angau dwfn yw'r *Iorddonen*
  Wyf o hyd yn ofni ei brad,
Tonnau ynt fydd raid myn'd trwyddynt,
  Mae's o'r bŷd i dŷ fy nhad.

2 Mi anturia, rhaid yw cynnig
  Morio tonnau, eu maint a'u grym,
Na fues etto er pan ganwyd,
  Yn fath donnau mawrion ddim;
Gallu 'r nefoedd fawr ei hunan
  Ddeil fy enaid llefg i'r lan,
Grâs yn Marw ar *Galfaria*,
  Ydyw noddfa 'm hyfbryd gwan.

3 O bob enw ymhlith dynion
  Dyna'r enw gorau gyd;
Duw tan hoelion ar y croesbren
  Yno yn Marw tros y byd;

Gwaed

Gwaed yn llifo ar *Galfaria!*
Mor o haeddiant, mor o hedd,
Od oes dim a faif i fynu,
Saif yn erbyn angau a'r bedd.

4 Ofni rwyf ac etto canu,
Canu wrth feddwl am y dydd,
Tan ymdrechu ag angau creulon
'R â pob cadwyn gref yn rhydd;
Cyll pleferau yn lan eu gafael,
O's bydd angau 'n concrwr mawr,
O's y bedd ga'r fyddugoliaeth
Fe gwymp pechod yntau lawr.

5 Cyll y pechod hwnnw ei afael
Fynnai fy yfbryd tan ei droed;
Hwnnw barodd immi ruddfan
Lawer cant o weithiau erioed;
Diwedd caru un rhyw bleffer,
Dechreu hyfryd haf o hedd;
Pan bo angau'n gorfoleddu
Ac yn chwerthin ar y bedd.

## HYMN LXXIV. *Neu yr ail ran.*

1 BEth yw raid imofni ymadel
A chyfeillion o bob rhyw?
Nid yw dynion gorau'r ddaear
Ddim yn gydmar i fy Nuw,
Saint, Seraphiaid, a Cherubiaid,
Llu o Angylion hardd eu gwedd,
I derfynau tragwyddoldeb,
Ga'i fwynhau tu draw i'r bedd.

2 Mi af heibio i'r creadur
'Does ond gwagedd ynddo gyd;
Twyll a golwg heb ddim fylwedd
yw a welais i yn y bŷd;
D'accw'r unig wlad o fylwedd
Draw i'r brynniau man lle mae,
Afon bywyd fel y grifial
Faefydd gras yn dwfrhau.

3 Ti

3 Ti dy hunan wi'n ei mofyn,
Ynnot ti mae heddwch llawn;
Ynnot ti cai fod yn ddedwydd
Ynnot ti yn hyfryd iawn;
Nid oes ofn i'r ſawl dy garo
I dy garo nid oes gwae;
Fe gaiff pob rhyw driſtwch atgas
Iddynt droi yn llawenhau.

4 Tyred bellach o'r creadur
Mae'r creadur bron dy ladd,
Troi, ymddadrys, ac ymddryſu,
Fwy fwy mlaen o radd i radd;
Fyth ni chaiff fy enaid egwan
Loches hyfryd fyth ond un,
Rhag y ſtormydd ſy'n fy nghuro
Yn dy glwyfau di dy hun.

5 Fe euogrwydd ſydd yn danllyd
Mawr ei bwys a mawr ei rym;
Nid yw'm dyledſwyddau pennaf
I ſefyll yn eu herbyn ddim;
Gwaed yn llifo ar *Galſaria*
'N unig a'i goſtega ef;
Rhaid im' henaid redeg yno,
Neu reſolvo colli'r nef.

6 Tros bechadur buoſt farw,
Tros bechadur ar y pren,
Y dioddefaiſt hoelion llymion
Nes it' orſod crymmu 'th ben;
Dwed i mi, a mi oedd hwnnw
Gofiodd cariad rhad mor ſawr?
Marw tros un bron a ſuddo
Yn *Gehenna* boeth i lawr.

7 Dwed i mi a wyt yn maddeu
Cwympo ganwaith i'r un bai,
Dwed a ddeui fyth i galon
Na's gall gynnig 'difarhau;
Beth yw pwyſau'r beiau mwya
Wyt yn ſaddeu, o bwy ri?
Pa un drymach yw fy mhechod
Na gruddſanau *Calſari?*

8 AR-

8 Arglwydd rhaid i mi gael bywyd,
Mae fy meiau yn rhy fawr,
Fy euogrwydd fydd yn gydbwys
A mynyddau mwya'r llawr;
Rhâd faddeuant gwawria bellach,
Gwna garcharor caeth yn rhydd;
Fu'n ymdreiglo mewn tywyllwch
Nawr i weled goleu'r dydd.

## HYMN LXXV. *Gweddi.*

1 GRym y ftormydd fydd yn curo
Y'n danbaid ar fy enaid gwan;
Gwynt y Gogledd oer demeftlog
Sy'n fy rhwyftro i ddringo i'r lan;
Awydd teithio heb ddim gallu
Ymorcheftu heb ddim grym;
Yn y frwydr rhaid im golli
Oni fyddi 'a gymmorth im'.

2 Tyred Arglwydd i'r anialwch
Ymma buoft ti o'r blaen,
Arwain b'rerin llefg difedr
A dy golofn niwl a thân,
Dal fy yfbryd fy'n llewygu
Gan ryw ofnau o bob man,
Yn dy allu rwyf yn gadarn
Heboft ti nid wyf ond gwan.

3 Wrth dy orfedd bydd fy nhrigfan,
A dy orfedd unig yw,
Od oes dim tu ymma i angau
Wna fy enaid marw yn fyw;
Pechod, gofid, ac euogrwydd,
O bob natur o bob gradd,
Syched am gael teimlo 'th heddwch,
Sydd yn awrhon bron fy lladd.

4 O drugaredd pen *Calfaria*,
Sydd yn llawer lled na'r byd,
Ymma yn unig mae fy ngobaith
Sefyll mewn anfeidrol lid;

Rwi'n ymwadu oll a feddai,
  Ac yn addef feddai ddim;
Iesu ei hunan yw fy haeddiant,
  Iesu ei hunan yw fy ngrym.

## HYMN LXXVI. *Angau.*

1 RWyf yn gwel'd yr afon ddwfn
  Yn agosach immi nawr,
Mae arwyddion am yr amla
  Mae mewn munud 'raf fi lawr,
Rwyf yn ofni fy ngrasusau
  Ofni 'r tonnau bob yr un,
Nid wyf fi yn wyneb angau
  Ond y gwaelaf, llesgaf ddyn.

2 Etto angen roddwyd arnaf,
  Ddyddiau byrr i fentro maes;
Colli brwydr neu yntau ei hennill
  Gledd ynghledd ag angau glâs,
Iechydwriaeth yw fy ngobaith,
  Iechydwriaeth yw fy ngrym;
Ac o's collai ngafel yno
  Arall feddai i ymaflyd ddim.

3 P'odd daw nerth im' yn y frwydr
  Pan rwi nawr yn llwfrhau?
Oddiwrth amlder maith fy meiau
  Mae fy ofnau yn cryfhau;
Fy anghrediniaeth sydd yn gadarn
  Am fod ynnwi leied grym;
Pe bawn ond concwero 'mhechod
  Ni wnai ofn niwed im'.

4 O fy enaid gwan nag ofna,
  Nid concwero un rhyw fai,
Na choncwero cant o feiau
  Rwystra 'm hysbryd lwfrhau;
Gwel'd y gras sydd yn yr Iesu,
  Mor digonol yw i'r gwan,
Mewn dyfnderoedd angau creulon
  Ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.

5 Gant

5 Gant o weithiau, ol a gwrthol,
Y dilynais i fy mai,
Pechu cyn adnabod pechod,
Pechu wedi 'difarhau;
D'accw'r graig 'rhaid im' ymddiried,
D'accw'r lloches, d'accw'r fan,
Ynghanghennau pren y bywyd
Arall ddim ni's dal fi i'r lan.

## HYMN LXXVII. *Neu yr ail ran.*

1 FFarwel i chwi gynt a gerais
Nid yw 'ch cwmp'ni, nid yw 'ch gwedd,
Nid yw'r cariad sy'n eich calon
Ragor na d'od hyd y bedd;
Pan del angau chwi ffowch ymmaith,
Da i mi fod genni Dduw,
Ffrynd fo gydaf wedi marw
Hwnnw garaf fi yn fyw.

2 Ffarwel, ffarwel, oll a welais
Rwyf fi bron a myn'd i fyd,
Lle mae ffryns, a lle mae trysor
Newydd genni oll ei gyd;
Etto nid wyf fi ond blaenu
Daw'm perth'nasau yn y man;
Ni gyfodwn gyda eu gilydd
Yn y borau'n bur i'r lan.

3 Rwyf fi nawr yn gryf i farw,
Rwyf fi nawr yn gryf i fyw;
Er mor wanned wyf i ymdrech
Fe goncwerodd Iesu'm Duw:
Yn ei goncwest rwi'n ymddiried,
Seilfaen yw ei angau loes,
Lladd fy mhechod fi mewn munud,
Oni edrychai at ei groes.

4 Nawr rwi 'n barod i anturio
Yn dy allu mawr dy hun,
I anturio yn wyneb angau
Sydd yn gryfach nag yw dyn;

Gwaed

Gwaed yn llifo ar y croesbren,
Dynol, farwol, ddwyfol glwy
Wna i'm henaid er mor wanned
Loeson angau fyned trwy.

## HYMN LXXVIII. *Gwaed y Groes.*

1 ARaid im' rodio anial dir,
Trwy stormydd a themestloedd hir ?
Nid ofnai ddim, doed dydd, doed nôs,
Yngolwg hyfryd gwaed y grô's.
Golwg, golwg, golwg, golwg,
Yngolwg hyfryd gwaed y grô's.

2 Ni saif y gelyn mwya ei rym
Yn erbyn pen *Calfaria* ddim ;
Ac ar *Galfaria* hyfryd mwy,
Yw'r unig fan concwerai hwy.
Unig, unig, &c.

3 Gwnaeth pechod immi lwfrhau,
Fe rwystrodd pechod fi 'th fwynhau ;
Mewn dudew nos rw'n disgwyl dydd,
I'th gariad wneud fy nhraed yn rhydd.
Gariad, gariad, &c.

4 Paham caiff nwydau'm natur gref,
I attal awel bur y nêf ?
Mae gradd yn well o'th gariad drud,
Na'r ddaear fawr a'r nef ei gyd.
Ddaear, ddaear, &c.

5 Ni fedd y Dwyrain faith na'r De',
Bleserau fel pleserau 'r ne' ?
Mae mor didrai mewn marwol glwy,
Sy heb ddechreu ac heb ddarfod mwy.
Ddechreu, ddechreu, &c.

6 Rho immi brawf o'th gariad drud,
I'r fawl a fynnech dyro'r byd ;
Dy gwmpni dry mewn munud awr
Y ddaear megis nefoedd fawr.
Ddaear, ddaear, &c.

## HYMN LXXIX.

HYMNAU *am undeb yſbrydol rhwng pawb o bob enwau ag ſy'n dilyn* C R I S T, *ar ddymuniad*
H—— H——, *Eſq;*

1 DUW dere a'th ſaint o tan y ne',
O eitha 'r Dwyrain bell i'r De',
I fod yn dlawd, i fod yn un,
Yn ddedwydd ynnot ti dy hun.

2 Nad rai gwympodd rhai ſy'n wan,
I ddringo yn uchel fry i'r lan;
Rhag i'n diweddiad ola fôd
Yn waeth na chyn i'n gredu erioed.

3 Nad ragfarn fyth i gario'r dydd,
A'r rai a roddodd grâs yn rhydd;
Pam collai 'r dydd wrth feiau'r un,
Pan ,nillais i wrth fy meiau fy hun.

4 Pam ſyrthiai wrth eu beiau hwy?
I mi maddeuwyd beiau mwy;
Yr hwn ſy'n maddeu maddeu mae,
Y mwyaf fel y lleiaf fai.

5 O dercha f'enaid llefg i'r lan,
I garu 'th ſeintiau ymhob man;
I nabod cariad pur y nêf,
Na adnabu'r byd o hono ef.

6 Ehenga 'm doniau byrr i maes,
I lifo tros ardaloedd grâs;
Na bwyf yn berchen gras na dawn,
Ond i ti 'th hunan forau a nawn.

## HYMN LXXX. *Neu yr ail ran.*

1 UN llais, un ſwn, un enw pur,
Fo o'r Gogledd hyd y Dwyrain dir,
O for i for gylch cwmpas bŷd,
Sef enw 'r IESU oll ei gŷd.

2 Darfydded ſon ymhob rhyw fan,
Am ddoniau mawr na doniau gwan,

Darfydded enwau pob rhyw ddyn,
Aed oll yn ddim ond ti dy hun.

3 Na foed ar dafod pererin mwy,
Ganiadau am ddim ond marwol glwy,
Pan y teyrnafo ei YSBRYD ef,
Y ddaear dywyll dry yn nêf.

4 O gwna ni IESU bob yr un,
I adnabod Duwdod yn y dyn;
Ac mae'n happufrwydd tan y nêf,
Yn unig yw ei adnabod ef.

5 O tyr'd yn frau Iachawdwr mawr,
Efcynned dy YSBRYD ymma lawr;
Gwna i'r torfeydd a brynodd gwaed,
Gyd gerdded tua'r hyfryd wlâd.

6 Cyd fyn'd o hyd tan ganu mlaen,
Cyd ddiodde yn y dŵ'r a'r tân;
Cyd gario'r groes, cyd lawenhau,
A chyd gyftuddio tan bob gwae.

## HYMN LXXXI., *Neu y drydedd ran.*

1 Y Rhai bwrcafodd gwaed y nêf,
Sy heb enw ond ei enw ef,
Hwy mhob cyftudd, hwy ymhob gwae,
A gaiff yn unig lawenhau.

2 Trech fydd y rhai'n na gwawd na llid,
A'r holl elynion fy'n y byd,
Yn un mewn culni, un mewn poen,
Aelodau'r croefhoeliedig OEN.

3 O na ddeu' ddydd yr *India* i ben,
I wel'd yr hwn fu ar y pren;
A ninnau yn un, yn un a hwy,
Yn canu am ei farwol glwy.

4 *Britania Fawr* yn fflam o dân,
O gariad at eu prynwr glan;
A'r holl ynyfoedd pella'r byd,
Yn boddi mewn caniadau gyd.

 5 Amen,

5 Amen, Amen, boed mor a thir,
Mewn perffaith hêdd, mewn cariad pur;
Heb ganthynt bleſſer o un rhyw,
Ond caru'n Iesu mawr an Duw.

## HYMN LXXXII. *Tlodi.*

1 Y Rwi'n teimlo'm nerth yn pallu,
Nid yw'm ffydd ond hedyn gwan;
Rhaid immi gael mwy o allu,
I ddringo 'r 'nialwch mawr i'r lan;
Y mae'r tan ſydd yn fy yſbryd
Yn gwrthnebu'r neſol rodd,
Ac yn gwneud fy enaid ochein
Am amſeroedd wrth ei fodd.

2 Neu o's le gyſgodi'r ſtorom
Ond ynghlwyfau pur fy Nuw,
Gwyntoedd uffern ſydd greulonach,
Na dyledſwydd o un rhyw;
Mae euogrwydd du mor ddwfn,
Mawr ei floeddiad, mawr ei boen,
Nad o's îs y nêf diſtewa
Onid gwaed yr addfwyn Oen.

3 Ond fydd i ti olchi'm henaid
A dy waed mi gwympa nawr,
Heb dy waed rwi bob mynedyn
Eiſiws o bry ar y llawr;
Nid wyf fi yn erbyn uffern
Ehang fawr ond gwaelaf ddyn,
Rwi'n deffugio, ddim ond meddwl
Oni ddeli di fi 'th hun.

4 Mae mi ſrodur hen ac iſaingc,
Rhai yn fychain rhai yn fawr,
Ac ſy'n ofni yn eu calon
Rhag im' ryw bryd ſyrthio lawr;
Fe gaiff Satan hen ei wynfyd
Oni ddeil dy ras fi i'r lan,
Ddoe mi ſyrthiais, nawr rwi'n ſyrthio
Syrthiaf etto yn y man.

## HYMN LXXXIII. *Neu yr ail ran.*

1 SAith o weithiau ol a gwrthol.
Torrais dy orch'mynion glân,
Saith adduned fawr a wnaethym
I ymgadw rhag y tan;
Yn y dyfnder ce's i gynta
Wel'd dy wridog wyneb gwyn,
Oni buasai fflam euogrwydd
Ddaethwn fyth i *Sion* fryn.

2 Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,
Fe wnaeth tywyllwch dudew 'r nos,
I'm roi naid trwy ddyledswyddau,
Cael, neu golli, at waed dy gro's;
Ar fin uffern ce's i'r nefoedd,
Ac yn angau ce's i fyw,
Yn nharanau mynydd *Sinah*
Gynta de's i gwrdd a'm Duw.

3 Mellt a tharanau mwg a chenllysg
Oedd euogrwydd immi'r pryd,
De's i wel'd maddeuant pechod,
Fil o weithiau yn fwy na'r byd;
Gwna, mi gofia 'r oriau hynny,
Oriau fy mhriodas yn'
Pan daeth Crewr nef a daear,
Ar pechadur gwaela yn un.

## HYMN LXXXIV.

1 DRaw mi wela'r nos yn darfod,
Draw mi wela oleu dydd,
Yn disgleirio tros y bryniau,
Melus yn y man y fydd,
Ffy gelynion pan del goleu
Ni all pechod er ei rym,
A'i holl wreiddau yn fy natur
Sefyll haul cyfiawnder ddim.

2 Daw i ben aed byd yn ufflon
 Bob rhyw air a ddwedo 'nhâd,
Sathrir Satan, ſathrir angau,
 Sathrir uffern tan ſy nhraed;
Buddugoliaeth ddaw o'r diwedd,
 A phan del melyſa fydd,
Mîl o flwyddau gyda'm Arglwydd,
 Nid yw ragor ddim na dydd.

3 Yn y rhyfel mi arhoſa,
 Yn y ryfel mae ſy lle,
Boed ſy ngenau wrth y ddaear,
 Boed ſy llygaid tuar nê;
Doed y concweſt bryd y delo
 Diſgwyl wrth ſy Nuw a wnaf,
Nes o'r diwedd wel'd yn trengu
 Pechod ag oedd bron ſy lladd.

Merch i *Efangelius* y Pregethwr fu farw yn bythefnos oed, enw pa un oedd *Maria Sophia*; ac wrth weled y fath effaith gafodd hyn ar Serchiadau ei Mam, y cyfanſoddwyd y Geiriau canlynol.

Tan yr Enw cyffredin Marwnad, ar gan Benrydd.

UN goſal ragor, ac un goſid mawr
 Aeth tros ſy mhen, na's gwelai o hono mwy,
Deng mîl o ddyddiau c'yd pe buaſwn byw,
A byw *Maria*, goſal ſuaſai byw:
Dymuniad, gobaith, cariad maith a chwant
Ei gweld hi 'n ddedwydd ſuaſai tan ſy mron;
Hi aeth i'r bêdd! ———
O ddedwydd bawb, ei mam yn gyntaf un,
A minnau yn ail, oes nid yn gyntaf fi,

A hithau 'n ddedwydd, o's yw dedwydd dŷn,
'Madewn a'r byd heb brofi dim o'i wae. ——
I'r byd hi ddaeth, ond prin c'as weld yr haul
Yn gwneuthur dau orphwysfa i ddynolryw,
Dim ond ymddangos fel rhyw feren bêll
Unwaith mewn oes ymhlith y lleill o'r fêr,
Ac yna diangc i ardaloedd pêll,
Tu hwnt i adnabyddiaeth dŷn yn fyw.
Ffarwel i fŷd, ffarwel i fŷd o'm bodd
Oedd iaith y baban, pe deall'fai hi iaith;
Ffarwel i dâd, ffarwel i fam, a phawb;
'D wy'n perthyn dim i neb yn îs na 'r haul;
Nid yw fy enw i yn yr arfaeth fawr
I fyw mewn blinder ond i farw 'n glau;
Mae 'r ddae'r yn well i gorph fath eiddil gwan
Na man, na meddig un o tan y rhod, ——
Wel' dyma ei llais, o's gellir nabod llais
Ar wyneb llefc ym mreichiau angeu du;
Ochenaid un! — ffarwel! — hi aeth i'r lan,
Heb wybod beth yw hiraeth ar ol dyn,
Sy'n torri calon mil o fammau a mwy,
Na gwybod beth yw cariad ge'nfor mawr,
Sy'n chwalu 'r muriau mwya cryf o'i flaen.;
Ac yn gwneud *Bedlam* faith yn hanner llawn
O hen ac ieuaingc, glan a falw ynghyd;
Na gwybod beth yw llid a malais gref,
Sy'n chwalu 'r efcyrn, ac yn bwyta 'r mêr
O greadur pur! O's ydyw dŷn yn bur,
Ond aflan dŷn cyn d'od o'r groth i maes,
Yn *Adda* yn euog, ac yn *Adda* yn frwnt;
Tan ddamnedigaeth, o lygredig hâd;
Ond am bob gweithred, am bob tymmer ddrwg,
Ni's gwelwyd yn *Saphia* yma 'r un:
Grwgnach ni's gwnaeth, tymmerau cynta ge'ir
Mewn baban gwan yn pennu maes ei dâd,
Llef, anfodlonrwydd, anghymmedrol flŷs,
Effeithiau 'r cwymp a welir gynta rhai,
Nid felly hi! ond cyfcodd hyfryd hûn,
O'r groth i'r bedd yn wirion ac yn fŵyn.
O gwyn dy fŷd! 'd oes neb ond rhai heb râs,

Heb gluſt, heb ſynwyr, ac heb lygad clir
Yn chwenych byw. ——
Wel' ti dihengaiſt, dywed im' p'ſawl gwae,
P'ſawl braw, p'ſawl goſid, p'ſawl gorthrymder triſt,
Sydd i'r torfeydd adewaiſt ar dy ol? ——
Dihengaiſt ti ar nwydau cig a gwaed,
Yr uffern fawr o fewn i ſynwes dyn,
Sy'n fflamio i'r lan heb ddarfod iddi byth;
Pob nwyd heb derfyn, a phob nwyd heb gael,
O oes i oes y ganfed ran ei chwant,
Yn bloeddio am gael rhagor iddynt byth,
Can mîl yn rhagor, nid yw ronyn mwy;
Nawr cariad ſydd yn cario oll o'i flaen,
Mhen awr caſineb ſy'n rheoli 'n lan;
Cenfigen heddyw, a rhyw leng o'i hol,
Y foru awydd ſydd yn cario'r maes.
Un tro bydd ofn, arall y bydd chwant,
Yn groes i'w gilydd, mîl o nwydau'n llyn;
Yn lladd, yn codi, ac yn nychu'r dyn;
Yn gwneuthur uffern ehang bob yr awr,
Ac yn gwneud mwrddiwn faith i waeddu i mâs,
Y bedd y bedd! ——
Ond hi *Maria* ni's ca'dd wel'd yr un,
Ca's lonydd gan y nwydau cryf o fewn,
O'i breintiau dymma yr un. ——
Pa le mae'r groes, yr uffern fawr ei grym,
Sy'n gwneud i fyrdd bob dydd i lwfrhau;
Y tlawd fyth dani y cyfoethog nid yw rydd;
Y groes, y groes, ſy'n creu'r galon wan
Yn crymu'r cefn ac yn moeli 'r pen,
Yn glaſſu'r wyneb ac yn oeri 'r gwaed,
Mae *Mary* yn rhydd. ——
O mîl o filoedd o gyſtuddiau a mwy,
Sy ar y ddaear i ofydio dyn,
O mewn, o maes, fel rhyw liſogydd mawr,
Didrai, diddiwedd, oll yn fawr eu grym;
I wthio enaid llefg i lwfrhau.
Ochneidiau ydyw'r cwbl îs yr haul,
Ochneidiau i eni, ac ochneidiau i fyw,
Mewn llwyddiant, pleſſer moroedd mawr o ſyd,—

Mae

Mae rhyw ochneidiau yno wrth fwynhau;
Fe anwyd dyn i anherfynol wae,
Fel rhed y D'wr yn ufudd iawn i'r mor,—
Pwy erbyn hyn fydd na ddymunai fyn'd
Heb fylwi o neb yn ddiftaw iawn i'r pridd?
Beth ydyw'r poen? beth ydyw'r gofid mwy?
Roi baban gwan i orwedd yn y bedd.
Fe ddwe'd ei mam, nad oes un funud awr
O'r hirnos dywyll nad yw yn ei chof.
Breuddwydion, gofid ei breuddwydion oll,
Ynghylch y wirion roddwyd yn y llwch.
Mae'n fyw, mae'n farw, y mae'n iach, mae'n glaf
Y's yn fyfyrio o ddechreu nos i ddydd:
Mae'n oer, mae'n dwym, mae ymma yn fy nghol,
Ond pan dihunwyf y mae yn y bedd. —
Pan bwi 'n ddihun, nid eilwaith lai fy mhoen,
Mae'r bedd yn oer, rwi'n gruddfan o ryw gur,
Fod f'annwyl blentyn yno wrth i ei hun;
Oes ia? oes eira? neu oes d'wr yn d'od
I'r dywyll gell i wneud ei gwely yn waeth?
O na buafwn yn gwneud coffyn aur,
A'i rhoddi orwedd yno tra fawn byw;
Fyth tan fy mhen y buafai ei hunig le,
Nes buafwn farw, yna cawfai fod
Yn yr un coffyn yr un gell a mi;
A gado 'r aur i rheini'r fawl ai car.
O beth a wna i! mae mab, mae merch, a phawb,
A'r ddae'r ar un waith r'wan wedi ffoi!
'Does neb, 'does dim, ond *Mary* fy'n y pridd
W'i yn fyfyrio bob rhyw funud awr.
Fel hyn ei mam! nes canfod pethau gwell
Tu draw i'r agendor fawr, rhwng dydd a nos,
Ac yna yn llyn ————
O chwi feddyliau gwag, meddyliau dyn,
Nad yw'n gwel'd ond mymryn bach o'i flaen
'R un peth yw'r pridd, a phluf y gwelu clyd,
'R un peth yw oerfel dwfr tan a gwres;
'R un peth yw marw, ond y gair a byw,
'Does dim gwahaniaeth i'w ei gael ond un,
Sef llid, neu heddwch croefhoeliedig OEN;

Ei lid yw uffern, ond ei hedd yw'r nef;
Bod tan ei lid yw uffern ar y ddae'r,
Bod yn ei heddwch yw bod yn y nef.
A beth yw marw ond cyfnewid lle ?
Y foru gartre, heddyw maes o dre;
Ar genfor heddyw, foru ar y tir:
Ar dir, ar for, neu gartre, maes o dre,
'R un ffrynd,'r un Duw,'r un heddwch maith didrai;
Dim ond bod marw yn llawer gwell na byw,
Bod oddicartref ydyw bod yn nhre:
Bod yn y beddrod yw bod yn y nef,
Y bawb o bur gariadau'r addfwyn Oen.
Mae hi yn un o'r dorf aneirif hyn,
Mae Memrwn Sanctaidd felly yn cadarnau.
O ddedwydd ddydd, o's felly chengodd gras,
Ei saith derfynau at y baban gwan,
A myn'd a hon cyn profi'r byd a'i wae,
Trwy entrych awyr rhwng y disglair ser,
Rwi'n llawenhau. ———
Mae'r peth yn siwr, mi wela yn eglur iawn
Tros yr agendor fawr rhwng dae'r a ne'
I fod *Maria* nawr ymlith y llu;
Ymhlith torfeydd, torfeydd ar ol torfeydd,
Fry o fabanod pur heb frychau nawr.
Ac ni feddyliais i fod mwy o rhai'n
Na neb rhyw eraill heddyw yn y nef.
Derchafwyd gras fel hyn yn llawer mwy
Di ddysg, diddeall iaith, di dda, di ddim,
Yn seinio maes ganiadau pur y nef;
Yn nabod dyfais lachadwriaeth rad,
Pob caingc, pob gwreiddyn, a phob rhan yn llwyr,
Uwch *Abram*, *Joseph*, *Pedr*, *Io'n*, neu *Paul*,
Gynt ar y ddae'r yn awr mae'r baban gwan.
Rwi nawr yn gwel'd mewn myfyr bethau mwy
Nag y feddyliais i erioed o'r blaen.
'Does heddyw yr un yn fyw ym *Mritain Fawr*
Y mwya eu donniau, y mwya oll eu grâs,
Ag ŵyr y ganfed ran am Iesu mawr,
A ŵyr yr eiddil aeth i maes o'i phoen;
Rwi wrth fy modd, rwi trwy 'r ehangder mawr,

Yn gwel'd y marw nawr yn berffaith fyw ;
Ond o'r fath dorf o ryw Gweftiwnau maith
Sy'n llifo mewn fel moroedd i fy mryd.
A oes dim hiraeth ar y dorf ddi-rif
O bur fabanod am eu cyrph i'r lan ?
A phan del hyn i ben, ar forau wawr
Yr adgyfodiad mawr o'r llwch i'r lan ;
O ba faintioli c'od ei chorph hi o'r bedd ?
Fel 'raeth ef lawr ? neu o faintioli mwy ?
Fel corph ei HARGLWYDD nawr fydd ar y faingc.
Pwy atteb im' i ofyn Cweftiwn mwy,
Pa fodd, gall enaid unig lawenhau ?
A gwel'd, a chlywed, canu nefol gan,
A'r tafod, cluft a'r llygad yn y bedd ;
O taw fy enaid mi gaf yn y man,
I wel'd fy hun, ae nid rhaid gofyn mwy
Cael prewf fydd ddigon, mi 'nabyddaf oll.

---

## EFANGELIUS y Pregethwr, i FAM *Maria Sophia.*

BYth mi gara yr Enw *Mary*,
  Boed ar Angel, boed ar ddyn,
Cant rhyw fendith oddi ar y funud,
  Clymwyd *Mary* a minnau yn un ;
O's bu *Fary* fechan farw,
  Cadw *Fary* hen yn fyw,
Dymma'r pennaf gais daearol,
  W'in ei geifio gan fy Nuw.

TERFYN.

*‡* Yr wyf yn eich cynghori i beidio a rhwymo 'r Llyfr hwn ynghyd ag un Llyfr arall; am fy mod yn meddwl o's caf ond rhai Misoedd yn rhagor o Fyw cyfansoddi un arall or un faint i'w gyd-rwymo ag ef: ond aros yr wyf i gael amryw Fesurau newyddion oddiwrth y *Saeson*, fel na bo'r *Cymru* yn fyrr o'u braint hwy mewn dim i foli Duw ag a wnaeth cymmaint trosom ni, a hwythau.

---

Mae yr AIL RAN,

## O Grefyddau 'r Byd,

I'w brintio ar frys.

---

Mae Hefyd Lyfr a elwir,

BYWYD a MARWOLAETH

## THEOMEMPHUS,

I'w osod allan ar fyrr.

---

Yr Ail Argraphiad hefyd o Lyfr,

## Golwg ar Deyrnas Crist.